# Cynllun Blynyddol Drafft 2010/11

Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 9 Rhagfyr 2009 |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: | 17 Chwefror 2010 |

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Tudalen | 3 |
| 2 | Crynodeb Gweithredol | 5 |
| 3 | Agwedd Ofcom at reoleiddio | 14 |
| 4 | Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr a dinasyddion | 17 |
| 5 | Rhaglen waith a blaenoriaethau 2010/11 Ofcom | 40 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhaglen waith fanwl | 43 |
| 2 | Darparu gwasanaethau i randdeiliaid | 55 |
| 3 | Cynllun Symleiddio | 59 |
| 4 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 97 |
| 5 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 99 |
| 6 | Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad | 100 |

## Adran 1

# Crynodeb Tudalen

### Mae'r cynllun blynyddol yn gosod rhaglen waith Ofcom ar gyfer y dyfodol er mwyn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

1.1 Mae cynllun blynyddol drafft Ofcom yn gosod ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011.

1.2 Roedd Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi'r dyletswyddau sylfaenol i Ofcom "hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chyfathrebu" a "hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth pan mae hynny'n briodol".


1.3 Er mwyn llwyddo i gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae gennym bum prif amcan sy'n sail i'n holl waith a gweithgareddau. Sef:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogi ac amddiffyn defnyddwyr ledled y DU | Sicrhau canlyniadau i ddinasyddion (yn ôl arweiniad y Senedd) | Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd | Cynnal a chryfhau seilwaith cyfathrebu'r DU | Symleiddio a lleihau rheoleiddio ar yr un pryd â sicrhau'r gwerth gorau am arian |

### Rydym wedi gosod meysydd gwaith blaenoriaeth clir ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni'n ôl yr amcanion hyn

1.4 Mae'r sector cyfathrebiadau yn chwarae rôl economaidd a diwylliannol hanfodol yn y DU, ac yn newid yn gyflym fel canlyniad twf y cyfryngau digidol. Dylai gwaith Ofcom ceisio sicrhau fod y sector yn parhau i ddarparu allbynnau positif i ddinasyddion a defnyddwyr trwyddi draw.

1.5 Ar sail ein dadansoddiad o ddatblygiadau'r farchnad a'n cynnydd yn ôl ein cynllun blynyddol cyfredol, rydym wedi nodi naw maes gwaith blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau.




1.6 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn mae gennym hefyd nifer o feysydd gwaith parhaus eraill ar gyfer Ofcom a fydd yn parhau'r flwyddyn nesaf.

1.7 Rydym yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith Ofcom i gyfrannu at y drafft hwn ac ymateb iddo erbyn 17 Chwefror 2010. Caiff ein cynllun blynyddol terfynol ar gyfer 2010/11 ei gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2010/2011.

## Adran 2

# Crynodeb Gweithredol


## Mae'r cynllun blynyddol yn gosod rhaglen waith Ofcom ar gyfer y dyfodol.

2.1 Mae cynllun blynyddol drafft Ofcom yn gosod ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011. Rydym yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith Ofcom i gyfrannu at y drafft hwn ac ymateb iddo, a fydd yn helpu i gyfoethogi ein cynllun blynyddol terfynol ar gyfer 2010/11 a gyhoeddir ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2010/2011.

## Mae gwaith Ofcom yn canolbwyntio ar hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

2.2 Roedd Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi'r dyletswyddau sylfaenol i Ofcom hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth pan mae hynny'n briodol.

2.3 Er mwyn llwyddo i gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae gennym bum prif amcan sy'n sail i'n holl waith a gweithgareddau.




2.4 Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi sector cyfathrebu iach lle caiff defnyddwyr eu cefnogi a'u hamddiffyn, lle mae amrywiaeth o gynnwys a gwasanaethau o ansawdd da ar gael a lle mae defnyddwyr a dinasyddion yn elwa o gystadleuaeth, arloesed a seilwaith cryf. Rydym yn parhau i ddarparu yn ôl ein hamcanion trwy weithredu'n effeithlon. Rydym wedi llwyddo arbed arian bob blwyddyn ers dod i fodolaeth.

Y llynedd roedd y sectorau cyfathrebu wedi cynhyrchu refeniw gwerth £51.8 biliwn.

2.5 Mae pwysigrwydd gwasanaethau digidol wedi tyfu ymysg defnyddwyr a dinasyddion fel ffordd o gymryd rhan yn yr economi a'r gymdeithas ehangach. Mae nifer o bobl yn disgwyl i'r sector cyfathrebu chwarae mwy a mwy o ran i helpu'r adferiad yn dilyn y dirywiad economaidd.

2.6 Wrth bennu ein blaenoriaethau ar gyfer 2010/11, rydym wedi archwilio'r dystiolaeth i asesu lle mae'r sector cyfathrebu yn darparu canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, a lle mae materion newydd wedi codi neu lle mae angen symud ymlaen ymhellach er mwyn cyflawni ein hamcanion a'n dyletswyddau statudol. Mae ein hadroddiadau, *Profiad y Defnyddiwr*[1], *a Phrofiad y Defnyddiwr Busnes*[2] yn cael ei gyhoeddi ar yr un amser â'r Cynllun yma ac yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y gwaith ymchwil.

[1] http://www.ofcom.org.uk/research/tce/ce09/

[2] http://www.ofcom.org.uk/research/tce/bce/

## Byddwn yn parhau i weithio i ddarparu canlyniadau penodol sydd o fudd i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, gan gynnwys busnesau, yn y farchnad cyfathrebu

2.7 Mae cefnogi ac amddiffyn defnyddwyr, ynghyd â diogelu buddiannau dinasyddion, wedi bod wrth galon rhaglen waith Ofcom.

*Sicrhau bod gwasanaethau digidol ar gael, bod pobl yn eu defnyddio ac yn eu defnyddio'n effeithiol*

2.8 Mae lefel y gwasanaethau digidol sydd wedi bod ar gael dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn uchel ac ar gynnydd. Fodd bynnag, mae problemau 'ardaloedd digyswllt', yn enwedig o ran darpariaeth symudol a band eang, yn dal yn bodoli i leiafrif pwysig a hynny gan fwyaf mewn ardaloedd gwledig ledled y DU.

2.9 Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio gwasanaethau digidol, gyda'r twf mwyaf mewn band eang a theledu digidol. Mae 70% o gartrefi bellach yn defnyddio gwasanaethau band eang (wedi codi o 45% yn 2006), ac mae gan 90% o gartrefi deledu digidol (wedi codi o 70% yn 2006). Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n amrywio ar draws grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr. Mae defnyddwyr hŷn a chartrefi ag incwm isel yn llai tebygol o lawer na'r cyfartaledd i gael gwasanaeth band eang yn eu cartref.

2.10 Roedd y Llywodraeth wedi gosod ei safbwynt ynghylch pwysigrwydd cynhwysiant digidol i'r economi ac i gymdeithas yn ei *Hadroddiad Terfynol Prydain Ddigidol*.[3] Mae'n cynnig sicrhau bod mwy o ddarpariaeth band eang ar gael drwy Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredin ac mae'n bwriadu sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o rwydweithiau band eang cyflym iawn ar gael i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Roedd hefyd wedi sefydlu Consortiwm Cyfranogiad Digidol sy'n cynnwys ystod eang o sefydliadau sydd â diddordeb er mwyn cynyddu'r nifer sy'n defnyddio band eang a'r nifer sy'n ei ddefnyddio'n effeithiol.

2.11 Bydd annog defnyddwyr i ymgymryd â band eang a'u defnyddio'n effeithiol trwy **gefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol** yn flaenoriaeth ar gyfer 2010/11. Byddwn yn gweithio gydag aelodau'r consortiwm i ddatblygu ac i ddarparu er mwyn sicrhau cyfranogiad digidol ledled y DU. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith parhaus yn y maes hwn, gan gynnwys help ar gyfer defnyddwyr anabl.

2.12 Mae yna golled bosibl i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, gan gynnwys busnesau, yn sgil peidio â chael darpariaeth ddigonol o wasanaethau symudol a band eang. Mae hyn yn berthnasol iawn i ardaloedd gwledig y DU, ac mae'n benodol yn effeithio ar y gwledydd datganoledig. Mae trin **symud ymlaen ar ardaloedd digyswllt fand eang a symudol** hefyd yn flaenoriaeth ar gyfer 2010/11. Mae arnom eisiau canfod hyd a lled yr ardaloedd digyswllt a'r hyn sy'n eu hachosi a chefnogi cynlluniau sydd wedi'u hanelu at roi sylw i'r problemau hyn. Byddwn hefyd yn cefnogi cynlluniau'r Llywodraeth i sicrhau bod mwy o ddarpariaeth band eang ar gael.

*Cefnogi defnyddwyr*

2.13 Mae cynyddu'r gystadleuaeth wedi esgor ar nifer o fanteision i ddefnyddwyr o ran mwy o ddewis, prisiau is ac arloesedd, fel rydym yn ei nodi isod. Ond mae cynnyrch

[3] http://www.culture.gov.uk/images/publications/digitalbritain-finalreport-jun09.pdf

a modelau prisio cymhleth sy'n newid yn gyflym, yn ogystal â phrosesau cymhleth i newid o un cyflenwr i'r llall yn gallu creu anawsterau i ddefnyddwyr.

2.14 Mae'r farchnad yn darparu llawer o wybodaeth i ddefnyddwyr yn effeithiol, ond ni chaiff rhywfaint o wybodaeth bwysig maent yn ei defnyddio ei darparu. I ymateb i hynny rydym wedi cyhoeddi data awdurdodol am gyflymder band eang cymharol, ac rydym wedi llwyddo i annog nifer o gyflenwyr i fabwysiadu côd ymarfer er mwyn i gwsmeriaid ddeall pa gyflymder y gallant ei ddisgwyl wrth iddynt brynu gwasanaeth band eang. Rydym hefyd wedi achredu gwasanaethau cymharu prisiau sy'n rhoi gwybodaeth prisio wrthrychol a dibynadwy. Bydd adolygu a hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr yn dal yn faes gwaith parhaus.

2.15 Rydym hefyd wedi gwella prosesau i ddefnyddwyr newid rhwng un defnyddiwr gwasanaeth a'r llall i'w helpu i fanteisio ar fwy a mwy o gystadleuaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn rydym yn awr yn gosod rheolau newydd i ddarparwyr gwasanaeth rhyngrwyd er mwyn cefnogi defnyddwyr yn y broses newid ar gyfer band eang, ochr yn ochr â gweithio gyda'r diwydiant i ddatrys problemau technegol. O ganlyniad i hyn, rydym wedi gweld llai o lawer o gwynion yn y maes hwn.

2.16 Fodd bynnag, mae'r farchnad yn dal i esblygu. Mae mwy a mwy o ddefnyddwyr yn prynu eu gwasanaethau cyfathrebu mewn bwndeli, ac yn aml yn cael prisiau is o'r herwydd. Ond mae newid o un bwndel i'r llall yn gymhleth oherwydd ei bod yn rhaid i ddefnyddwyr lywio'u ffordd drwy nifer o brosesau sy'n benodol i gynnyrch penodol er mwyn newid cyflenwr bwndel. Oherwydd y cymhlethdod cynyddol hwn, bydd parhau i **sicrhau fod defnyddwyr yn gallu newid darparwyr heb rwystrau** yn dal yn flaenoriaeth i ni yn ystod 2010/11.

*Amddiffyn defnyddwyr a chynulleidfaoedd rhag niwed*

2.17 Ers creu Ofcom, rydym wedi monitro'r cwynion a gawn i helpu i dargedu'r materion pwysicaf sy'n effeithio ar ddefnyddwyr. Mae datblygu a gorfodi dulliau gweithredu i amddiffyn defnyddwyr rhag niwed ac arferion annheg wedi bod yn flaenoriaeth i ni dros y blynyddoedd diwethaf.

2.18 Rydym wedi gweld canlyniadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd:

- Mae cwynion am alwadau mud a therfynu galwadau wedi disgyn dwy ran o dair ers iddynt gyrraedd eu hanterth ddiwedd 2008. Ein prif declyn i fynd i'r afael â galwadau mud fu rhoi dirwyon i'r troseddwyr gwaethaf a rhoi cyhoeddusrwydd i hynny.

- Mae cam-werthu cynlluniau ffonau symudol, yn enwedig drwy gynlluniau a oedd yn cynnig arian parod yn ôl, wedi bod yn broblem fawr. Pan fethodd côd hunan-reoleiddio â stopio'r broblem, roeddem wedi cyflwyno Amod Cyffredinol ac mae'r cwynion a welwyd ers iddynt gyrraedd eu hanterth ym mis Ebrill 2008 wedi disgyn tri-chwarter.

- Ar y cyd â'n hasiantaeth rheoleiddio PhonePay Plus aethpwyd i'r afael â'r niwed sylweddol a achoswyd gan wasanaethau cyfradd premiwm, yn enwedig negeseuon testun sy'n cael eu bilio am yn ôl. Mae'r cwynion i PhonePay Plus wedi disgyn dwy ran o dair yn ystod y 18 mis diwethaf.

2.19 Ond bu'n anos mynd i'r afael â rhai problemau:

- Mae cwynion am gam-werthu mewn telathrebu sefydlog wedi disgyn ond yn dal yn uchel, er gwaethaf y ffaith ei bod yn rhaid i weithredwyr gydymffurfio â chodau ymarfer a bod rhaglen orfodi weithredol ar waith. Byddwn yn cyflwyno rheolau llymach i ymateb i hyn.

- Mae contractau annheg, yn enwedig yng nghyswllt ffioedd terfynu cynnar rhy ddrud, wedi arwain at y drydedd nifer fwyaf o gwynion a gawsom gan ddefnyddwyr am un pwnc ym maes telathrebu. O ganlyniad i hynny rydym wedi rhoi canllawiau i weithredwyr ynghylch pa ffioedd sy'n annheg.

- Rydym yn dal i gael cwynion am y ffordd mae darparwyr yn delio â chwynion ynghylch gwasanaeth gwael i gwsmeriaid ac rydym wedi ymchwilio i'r farchnad ynghylch hyn. Mae ein gwaith ar fecanweithiau datrys anghydfod yn parhau.

2.20 Un o brif ddyletswyddau Ofcom yw ymateb i bryderon cynulleidfaoedd ynghylch safonau ar y teledu ac ar y radio. Mae'r safonau hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys: niwed a thramgwydd, triniaeth annheg ac amhleidioldeb teg.

2.21 Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae Ofcom wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer o fethiannau difrifol gan ddarlledwyr o ran y ffordd maent wedi delio â phleidleisiau a chystadlaethau. Mae ein gwaith, sydd wedi arwain at ddirwyon gwerth dros £11 miliwn, a newid amodau trwyddedau darlledwyr, wedi codi lefel y warchodaeth yn y maes hwn yn sylweddol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

2.22 Byddwn yn parhau i amddiffyn defnyddwyr a chynulleidfaoedd rhag niwed a chynnwys gall achosi niwed a sarhaus. Yn 2010/11 byddwn yn canolbwyntio ar ddeunydd rhywiol, cyfeiriadau masnachol ac iaith sarhaus er mwyn sicrhau fod y rheolau'n parhau i adlewyrchu'r hyn sy'n foddhaol ac amodau'r farchnad.

*Addasu rheoleiddio cynnwys i ddiwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd*

2.23 Fwyfwy, gall defnyddwyr gael gafael ar gynnwys a'i ddefnyddio ar draws llwyfannau digidol amrywiol. Ar hyn o bryd mae rheoleiddio cynnwys yn amrywio yn ôl llwyfan, ond mae'r gwahaniaethau rhwng llwyfannau'n dechrau pylu. Yn anochel, bydd rheoleiddio clir, syml a chyson yn dod yn bwysicach. Yn ogystal â gweithredu'r *Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol*[4], bydd yn rhaid inni adolygu rheoleiddio cynnwys yn fwy eang er mwyn diwallu'r nod hwn. Mae **addasu rheoleiddio cynnwys i ddiwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd,** felly'n flaenoriaeth ar gyfer 2010/11

*Sicrhau bod cynnwys o ansawdd da ar gael yn eang*

2.24 Mae cynnal a chryfhau faint o gynnwys o ansawdd uchel sydd ar gael ar draws teledu a radio wedi bod yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom.

2.25 Rydym wedi cwblhau dadansoddiad ac ymchwil helaeth; mae hyn wedi dangos bod gwasanaethau darlledu teledu a radio'n chwarae rhan bwysig o ran darparu cynnwys sy'n rhoi gwybodaeth i ddinasyddion a defnyddwyr ac sy'n cryfhau cymunedau. Rydym hefyd wedi ystyried darparu newyddion a chynnwys yn y rhanbarthau Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru yn y dyfodol, y mae gwylwyr yn rhoi cryn werth arno.

[4] http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/guidance/epg.pdf

2.26 Ein blaenoriaeth fu sicrhau bod cynnwys o ansawdd da ar gael yn eang i gynulleidfaoedd, yn enwedig yn yr ardaloedd sydd dan y bygythiad mwyaf. Pan fu modd i ni roi newidiadau ar waith yn y fframwaith rheoleiddio i gyflawni'r nod hwn, rydym wedi gwneud hynny.

2.27 Rydym hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion ehangach ynghylch strwythur y sectorau teledu gwasanaeth cyhoeddus a radio masnachol yn y dyfodol, yn unol â'n dyletswyddau statudol. Y Ar gyfer teledu roeddem wedi cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth ar gyfer camau gweithredu i gynnal ac i gryfhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ar gyfer radio, roeddem wedi cynnig ysgafnhau'r baich rheoleiddio ar y sector radio masnachol yn enwedig ar y lefel leol a sicrhau bod rheoleiddio radio'n addasu ar gyfer yr oes ddigidol. Llywodraeth a'r Senedd sydd bellach yn gyfrifol am benderfynu ar y materion hyn. Byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau yn y maes hwn a byddwn yn cyfrannu ac yn ymateb pan fydd hynny'n briodol.

*Deall defnyddwyr busnes*

2.28 Mae defnyddwyr busnes yn rhan bwysig o'r farchnad cyfathrebiadau, yn enwedig telegyfathrebiadau. Mae ein hymchwil ddiweddaraf[5] (sy'n canolbwyntio ar fusnesau â mwy na phump cyflogai) wedi dangos bod gwasanaethau telathrebu'n dod yn bwysicach ac yn bwysicach i fusnesau. At ei gilydd mae defnyddwyr yn fodlon ar y gwasanaethau a gynigir, ond mae rhai yn poeni am wasanaeth i gwsmeriaid, darpariaeth gwasanaethau symudol a chyflymder band eang. Mae ein gwaith i roi sylw i'r materion sy'n perthyn i'n cylch gwaith wedi'u hamlinellu uchod. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil newydd ar anghenion penodol defnyddwyr busnes. Blwyddyn nesaf byddwn yn cynnal ymchwil i fusnesau bach iawn, sydd o bwys mawr yn rhanbarthau Lloegr Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru

## Byddwn yn parhau i hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd mewn marchnadoedd cyfathrebu i sicrhau bod defnyddwyr, yn cynnwys busnesau, yn elwa o ddewis ehangach, prisiau is a gwasanaethau newydd

2.29 Mae defnyddwyr a dinasyddion yn elwa o farchnadoedd cystadleuol sy'n gweithredu'n effeithiol. Gall cystadleuaeth arwain at brisiau is a dewis ehangach o nwyddau a gwasanaethau gwahanol. Mewn marchnadoedd lle mae'r gystadleuaeth yn wan, mae defnyddwyr yn aml dan anfantais oherwydd nad oes dim yn cymell cwmnïau i arloesi, sy'n cyfyngu ar ddewis ac yn cadw prisiau i fyny.

2.30 Mae gwaith Ofcom ar hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd cyfathrebu dros y tair blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar delathrebu sefydlog, telathrebu symudol a theledu drwy dalu.

*Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telathrebu sefydlog*

2.31 Yn dilyn ein *Hadolygiad Strategol o Delathrebu*[6] a gweithredu Ymrwymiadau BT rydym wedi gweld marchnad delathrebu sefydlog sy'n fwy cystadleuol yn dod i'r fei ar gyfer defnyddwyr. Mae gweithredwyr bellach yn gallu cystadlu'n effeithiol â BT drwy ddefnyddio'r un ystod o gynnyrch cyfanwerthu. Mae dadfwndelu dolen leol wedi annog nifer fawr o weithredwyr i ddefnyddio eu seilwaith eu hunain i ddarparu

[5] http://www.ofcom.org.uk/research/tce/bce/

[6] http://www.ofcom.org.uk/static/telecoms_review/index.htm

gwasanaethau i ddefnyddwyr – erbyn mis Gorffennaf 2009 roedd dros 6 miliwn o linellau wedi'u dadfwndelu. Bu cynnydd parhaus hefyd yn y nifer sy'n defnyddio llinellau cyfnewidfa cyfanwerthu er mwyn darparu gwasanaethau ffôn. Mae defnyddwyr wedi elwa o ostyngiadau sylweddol mewn prisiau a mwy o ddewis o ddarparwyr a gwasanaethau o ganlyniad i hynny.

2.32 Mae cystadleuaeth effeithiol hefyd wedi caniatáu i ni gael gwared ar reoleiddio mewn rhai marchnadoedd. Mae defnyddio llawer ar ddadfwndelu dolen leol yn golygu nad oes gan BT bŵer marchnad sylweddol mwyach yn y farchnad mynediad i fand eang cyfanwerthu mewn sawl rhan o'r wlad. Mae cystadleuaeth effeithiol hefyd wedi caniatáu i ni roi diwedd ar reoleiddio'r farchnad adwerthu ar gyfer gwasanaethau ffôn, sy'n golygu bod BT yn gallu cynnig bwndeli o wasanaethau.

2.33 Bydd uwchraddio o rwydweithiau copr y genhedlaeth hon i rwydweithiau'r genhedlaeth nesaf a fydd yn gallu darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn yn fater pwysicach yn y farchnad telathrebu sefydlog. Ein nod fu sefydlu dull gweithredu rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau band eang cyflym iawn a fyddai'n hybu cystadleuaeth ac yn annog buddsoddiad drwy enillion teg ac eglurder rheoleiddio ar gyfer darpar fuddsoddwyr a gweithredwyr rhwydwaith.

2.34 Mae hyn wedi helpu i sicrhau dechrau buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn, gan gynnwys Virgin Media, BT a darparwyr eraill dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhwydweithiau band eang cyflym iawn bellach ar gael i hanner cartrefi'r DU. Ein blaenoriaeth ar gyfer 2010/11 fydd **gweithredu ein fframwaith rheoleiddio i gefnogi cystadleuaeth a fuddsoddiant ar gyfer band eang cyflym iawn** yn bennaf drwy ein proses adolygu'r farchnad.

*Hyrwyddo cystadleuaeth mewn telathrebu symudol*

2.35 Ym maes telathrebu symudol, rydym wedi gweld bod cystadleuaeth yn gweithio'n dda'n gyffredinol. Ar hyn o bryd mae defnyddwyr yn elwa o bum gweithredwr rhwydwaith cystadleuol yn ogystal â nifer fawr o weithredwyr rhith rwydwaith, sy'n darparu llawer iawn o fodlonrwydd cwsmeriaid a lefelau uchel o fforddiadwyedd. O ganlyniad, bydd gwaith yn y maes hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i elwa o gystadleuaeth deg ac effeithiol wrth i'r farchnad ddatblygu, yn enwedig drwy adolygu cyfraddau terfynu ac effaith cydgyfnerthu yn y farchnad.

*Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn Teledu drwy Dalu*

2.36 Ym maes teledu, roeddem wedi agor ymchwiliad i'r farchnad teledu drwy dalu yn 2007 yn dilyn cwyn gan nifer o gystadleuwyr BSkyB. Dros dri ymgynghoriad, rydym wedi dadansoddi'r farchnad yn fanwl ac wedi dod i'r casgliad dros dro bod tystiolaeth bod ymddygiad BSkyB yn lleihau dewis i ddefnyddwyr ac yn lleihau'r datblygiad ac arloesedd o blatfformau teledu.

2.37 Rydym ar ganol dadansoddi ymatebion i'n trydydd ymgynghoriad, a byddwn yn parhau i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn teledu drwy dalu fel blaenoriaeth blwyddyn nesaf.

## Rydym yn parhau i hybu, cynnal a chryfhau seilwaith cyfathrebu er mwyn cefnogi arloesedd a chyflwyno gwasanaethau newydd

2.38 Mae lefel gyffredinol y buddsoddiad yn y seilwaith cyfathrebu wedi bod yn galonogol. Mae defnyddwyr eisoes yn elwa neu'n dechrau elwa o ystod eang o wasanaethau newydd neu well. Rydym eisoes wedi gweld cryn fuddsoddiad mewn seilwaith band

eang y genhedlaeth hon a'r nesaf. Yn y maes symudol rydym wedi gweld mwy o fuddsoddiad mewn rhwydweithiau 3G sy'n cefnogi band eang symudol. Ym maes darlledu, rydym wedi gweld buddsoddiad mewn gwasanaethau teledu manylder uwch dros loeren, cebl a theledu daearol digidol.

2.39 Byddwn yn parhau i gynnal a chryfhau'r seilwaith cyfathrebiadau yn ystod 2010/11.

*Rhyddhau sbectrwm*

2.40 Argaeledd sbectrwm addas os yw defnyddwyr am gael gwasanaethau di-wifr arloesol. Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi paratoi cynlluniau i ryddhau sbectrwm mewn dau fand allweddol: y difidend digidol a'r band 2.6 GHz.

2.41 Rydym hefyd wedi paratoi cynlluniau ar gyfer rhyddfrydoli bandiau sbectrwm sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan weithredwyr symudol i ddarparu gwasanaethau 2G, er mwyn gallu eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau 3G.

2.42 Rydym wedi gorfod gohirio rhai o'n cynlluniau i ryddfrydoli a rhyddhau sbectrwm. Roedd cyfreitha yng nghyswllt ein penderfyniad i ddyfarnu'r band 2.6 GHz cyn gynted ag sy'n bosibl yn golygu nad oedd modd i ni fwrw ymlaen â'n hamserlen arfaethedig. Ar gyfer y dyfarniad difidend digidol, roeddem wedi gohirio ein cynlluniau i gyflwyno er mwyn cysoni rhyddhau ein sbectrwm â gwledydd eraill Ewrop er mwyn arwain at fwy o fanteision i ddinasyddion a defnyddwyr y DU.

2.43 Yn ogystal â hyn, fel rhan o Adroddiad Terfynol Prydain Ddigidol y Llywodraeth, roedd Brocer Sbectrwm Annibynnol y Llywodraeth wedi cyflwyno argymhellion a oedd yn effeithio ar y sbectrwm yn y band 800MHZ a 2.6GHz yn ogystal â rhyddfrydoli 2G. Rydym yn awr yn disgwyl am gyfarwyddyd ffurfiol gan y Llywodraeth ynghylch pa gamau i'w cymryd nesaf, yn cynnwys y cyfarwyddiad bosib i ryddhau sbectrwm.

2.44 Er mwyn symud ein gwaith ymlaen ar ryddhau sbectrwm yng nghyswllt yr oedi hyn, byddwn yn trin **clirio'r band 800MHz i baratoi ar gyfer rhyddhau** a **gweithredu cyfarwyddyd y Llywodraeth ar glirio sbectrwm ar gyfer band eang symudol** yn dilyn Adroddiad Terfynol Prydain Ddigidol fel blaenoriaethau ar gyfer 2010/11.

*Cefnogi Gemau 2012 Llundain*

2.45 Maes ffocws hollbwysig arall i ni ar gyfer y flwyddyn nesaf mewn sbectrwm fydd Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain. Rydym eisoes wedi datblygu cynllun sbectrwm ar gyfer y digwyddiad ac yn ystod 2010/11 byddwn yn dechrau ar ein gwaith o **drwyddedu'r sbectrwm a nodwyd a dechrau i weithredu ein cynlluniau gweithredol**. Bydd sicrhau darpariaeth gwasanaethau di-wifr ar gyfer y Gemau Olympaidd a Paralympaidd yn flaenoriaeth i ni'r flwyddyn nesaf.

## Byddwn yn parhau i weithio i gefnogi anghenion defnyddwyr a dinasyddion ar draws Rhanbarthau Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru

2.46 Rydym yn cydnabod bod profiadau, gofidion ac anghenion dinasyddion a defnyddwyr, yn cynnwys busnesau, yn wahanol yn dibynnu are eeu lleoliad yn y DU. Rhan hanfodol o'n gwaith yw ystyried sut mae materion yn effeithio defnyddwyr a dinasyddion yng ngwahanol rannau o'r wlad.

2.47 Mae ein rhaglen gwaith yn cymryd i'r afael anghenion dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU. Dau fater o bwys iawn i'r Rhanbarthau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr

Alban a Chymru yw ardaloedd digyswllt band eang a symudol a chyfranogiad digidol. Rydym yn amlinellu ein gwaith yn y meysydd yma uchod.

2.48 Bydd deall profiadau ac anghenion dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU yn parhau'n ffocws sy'n tanseilio'n gwaith. Fel rhan o'n holl weithgareddau rydym yn ystyried sut mae ein gwaith a'u hallbynnau'n ymwneud â'r Rhanbarthau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru.

## Rydym wedi symud ymlaen mewn nifer o feysydd i leihau'r beichiau a roddwn ar randdeiliaid

2.49 Pryd bynnag y bo'n bosibl, ein nod yw caniatáu i'r farchnad ddarparu canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion heb reoleiddio. Mae Ofcom yn dal yn ymrwymedig i leihau a symleiddio rheoleiddio cymhleth neu ddianghenraid, ar yr un pryd â gwella'r gwerth am arian rydym yn ei ddarparu i randdeiliaid drwy barhau i wella ein heffeithlonrwydd ein hunain.

2.50 Yn ystod 2009 rydym wedi mynd ag amrywiol gynlluniau symleiddio a dadreoleiddio rhagddynt, ac rydym yn bwriadu mynd â rhai ohonynt ymlaen ymhellach yn ystod 2010. Dyma rai enghreifftiau:

- tynnu gweddill y cyfyngiadau rheoleiddio yn y farchnad telathrebu sefydlog ar lefel adwerthu a lleihau rheoleiddio ar y lefel cyfanwerthu;
- ein hargymhellion i lywodraeth i ddileu dwy reol sy'n ymwneud â pherchnogaeth radio a llacio rheolau sy'n ymwneud â pherchnogaeth leol ar draws cyfryngau;
- llacio gofynion trwydded ar gyfer Sianeli 3 a 5 ar ôl ein hail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus;
- cwblhau'r prosiect Unify, gan uwchraddio ac integreiddio ein systemau technoleg gwybodaeth, ac oherwydd hynny gallwn gynnig gwasanaethau i'n rhanddeiliaid mewn ffordd sy'n fwy effeithlon;
- ein cynigion i'w gwneud yn haws prynu a gwerthu sbectrwm, gan ei gwneud yn haws i fusnesau gael gafael ar yr amledd radio y mae arnynt angen ei ddefnyddio; ac
- adolygiad wedi'i gynllunio ynghylch a oes cyfiawnhad dros y cyfyngiadau presennol sy'n ymwneud â hysbysebu ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus.

2.51 Amlinellir rhagor o fanylion am ddadreoleiddio a symleiddio cynlluniau yn Atodiad 3

2.52 Yn 2009/10 mae arbedion cost yn cael eu cyflawni drwy fuddsoddi mewn systemau gwybodaeth, cyflwyno gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n fwy effeithiol, fframwaith caffaeliad newydd ar gyfer gwasanaethau ymchwil ac ymgynghoriaeth, cyllido offer cyfalaf yn fwy effeithlon a rheoli'r capital yn well. Ar gyfer 2010/11 rydym yn bwriadu rhesymoli ein hystadau gwasanaethau gwybodaeth, ail-dendro rhai o'n contractau mawr, ac mae gennym ddarparwr gwasanaeth ar gyfer staff dros-dro ac asiantaeth.

## Bydd ein gwaith yn 2010/11 yn canolbwyntio ar feysydd lle mae arnom eisiau symud ymlaen ymhellach at gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr

2.53 Ar sail ein dadansoddiad, rydym wedi dod o hyd i naw maes blaenoriaeth lle mae arnom eisiau symud ymlaen yn sylweddol dros y flwyddyn nesaf i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. Yn fyr, y rhain yw:-




2.54 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn mae gennym nifer o feysydd gwaith parhaus eraill ar gyfer Ofcom. Mae Ffigur 1 yn dangos ein rhaglen waith lawn a bydd manylion y prosiectau penodol yn ein rhaglen waith yn Atodiad 1.

## Byddwn hefyd yn parhau i gyflwyno gwasanaethau allweddol i'n rhanddeiliaid

2.55 Un o swyddogaethau Ofcom yw darparu gwasanaethau penodol i'n rhanddeiliaid. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gan gynnwys cadw'r tonnau awyr yn rhydd rhag ymyrraeth, dyrannu ystodau rhifau ffôn a darparu gwasanaethau gwybodaeth fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae manylion y gweithgareddau hyn yn Atodiad 2.

## Mae ein cynllun yn caniatáu i ni ymateb i newidiadau ac i faterion newydd

2.56 Ceir bob amser ddatblygiadau a materion yn y sector cyfathrebu y mae arnom angen ymateb iddynt, ond ni allwn bob amser gynllunio ar eu cyfer yn fanwl. Gyda hinsawdd economaidd ansicr a chyfnewidiol a gyda gweithredu *Adroddiad Terfynnol* Prydain Ddigidol y Llywodraeth a deddfwriaeth arfaethedig, nid ydym yn disgwyl i 2010/11 fod yn wahanol. Ar ben hyn, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau, ac anghydfodau mae'n rhaid i ni eu datrys, sy'n galw am lawer o adnoddau.

2.57 Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, rydym yn bwriadu aros yn hyblyg yn y cynllun blynyddol ar gyfer 2010/11. Rydym hefyd yn bwriadu ailedrych ar ein rhaglen waith pan fydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn y *Mesur Economi Ddigidol,* gan gynnwys y diwygiadau arfaethedig i ddyletswyddau Ofcom, wedi symud drwy'r broses Seneddol.

**Ffigur 1: Golwg gyffredinol ar raglen waith 2010/11 Ofcom**

| | Defnyddwyr a dinasyddion | Cystadleuaeth | Seilwaith a sbectrwm |
|---|---|---|---|
| *Blaenoriaethau 2010/11* | • Symud ymlaen ar ardaloedd digyswllt symudol a band eang<br>• Annog defnyddwyr i ddefnyddio band eang wrth gefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol<br>• Sicrhau prosesau newid effeithiol trwy gael gwared â rhwystrau diangen<br>• Addasu rheoleiddio cynnwys i gwrdd ag agnhenion defnyddwyr | • Gweithredu rheoleiddio i gefnogi cystadleuaeth a buddsoddiant effeithiol ar gyfer band eang cyflym iawn<br>• Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn teledu drwy dalu | • Dechrau llwyddo i glirio band 800Mhz i greu cyfleoedd newydd i wasanaethau<br>• Gweithredu cyfeiriad y Llywodraeth i ryddhau sbectrwm ar gyfer band eang symudol<br>• Sicrhau darpariaeth gwasanaethau diwifr ar gyfer y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd |
| *Y Prif feysydd gwaith parhaus* | • Sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael, eu bod yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol<br>• Adolygu a hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr<br>• Amddiffyn defnyddwyr a chynulleidfaoedd rhag niwed ac arferion annheg<br>• Deall profiadau defnyddwyr busnes | • Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn telathrebu sefydlog a symudol<br>• Adolygu'r rheolau reoleiddio sy'n ymwneud â chyllido cynnwys<br>• Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau | • Cefnogi newid i'r digidol<br>• Hyrwyddo dyrannu sbectrwm yn effeithlon<br>• Datblygu fframwaith rhyngwladol sefydlog yn sail i raglen dyfarnu sbectrwm<br>• Deall gallu rhwydwaith |
| | Dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer dadreoleiddio a symleiddio | | |

## Adran 3

# Agwedd Ofcom at reoleiddio

## Prif ddyletswyddau Ofcom

3.1 Roedd Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi'r dyletswyddau sylfaenol i Ofcom hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth pan mae hynny'n briodol.

3.2 Er mwyn llwyddo i gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae gennym bum prif amcan sy'n sail i'n holl waith a gweithgareddau. Sef:

- Cefnogi ac amddiffyn defnyddwyr ledled y DU;
- Sicrhau buddiannau i ddinasyddion (yn ôl arweiniad y Senedd);
- Hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesedd;
- Cynnal a chryfhau seilwaith cyfathrebu'r DU; a
- Symleiddio a lleihau rheoleiddio ar yr un pryd â sicrhau'r gwerth gorau am arian.

3.3 Wrth gyflawni ein dyletswyddau a cheisio cyflawni'r amcanion hyn rydym yn dilyn cyfres o egwyddorion rheoleiddio sy'n dylanwadu ar ffocws ein gwaith yn ogystal ag ar sut rydym yn gweithio. Mae'r egwyddorion hyn yn sicrhau bod ein gwaith yn rhoi sylw i faterion yn effeithiol, yn amserol, yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Maent hefyd yn ein helpu i egluro ein hagwedd rheoleiddio i'n rhanddeiliaid.

*Egwyddorion rheoleiddio Ofcom*

**Pryd byddwn yn rheoleiddio**

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

**Sut rydym yn rheoleiddio**

- Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.
- Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol clir ac a adolygir yn gyhoeddus, gydag amcanion sydd wedi cael eu datgan.

**Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio**

- Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar y blaen i ddealltwriaeth dechnolegol.
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

3.4 Mae ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd yn ceisio sicrhau nad ydym ond yn rheoleiddio lle mae hynny'n gwbl angenrheidiol. Gallai ymyrryd diangen o'r fath ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Ond, lle mae angen ymyrryd, byddwn yn gwneud hynny'n gyflym ac yn gadarn.

3.5 Mae'n rhaid i ni sicrhau bod rheoleiddio'n helpu yn hytrach nag yn rhwystro datblygiad marchnadoedd. I gyflawni hyn, ein hegwyddor yw defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwthiol sy'n briodol i'r sefyllfa.

3.6 Rydym wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni ddeall agweddau defnyddwyr, a byddwn yn cyflawni hyn drwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr o ymchwil marchnad, a deall datblygiadau yn y farchnad, a byddwn yn gwneud hyn drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad.

3.7 Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori â'n holl randdeiliaid amrywiol, yn anffurfiol wrth i ddewisiadau yn ein gwaith gael eu pennu a'u mireinio, ac yn ffurfiol drwy gyhoeddi dogfennau ymgynghori.

3.8 Mae cynnal asesiadau o effaith yn helpu i sicrhau ein bod yn dilyn arferion da wrth wneud penderfyniadau. Mae asesiad o effaith yn golygu bod yn glir am y mater y mae angen rhoi sylw iddo, nodi ystod o ddewisiadau a dadansoddi effeithiau pob un.

3.9 Mae ein prif ddyletswydd sef hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, yn golygu ei bod yn arbennig o bwysig ein bod yn deall sut y mae ein penderfyniadau'n effeithio ar y grwpiau hyn. Fel defnyddwyr, rydym yn cymryd rhan yn y farchnad, trwy brynu neu ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau. Fel dinasyddion, nid ein buddiannau unigol cul ni sy'n bwysig i ni, ond beth sydd orau i'r gymdeithas.

3.10 Weithiau gall buddiannau dinasyddion fod yn groes i fuddiannau o leiaf rhai defnyddwyr unigol.

3.11 Felly, wrth wneud penderfyniadau, mae'n bwysig ein bod yn adnabod buddiannau dinasyddion a buddiannau defnyddwyr hefyd. Gallwn wedyn ddeall y cyfaddawdu sydd ynghlwm wrth ein penderfyniadau'n aml. Mae proses gynllunio flynyddol Ofcom yn ceisio pennu ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol gan gadw'r agwedd hon tuag at reoleiddio mewn cof.

3.12 Yn ogystal â'n hegwyddorion rheoleiddio, ceir sawl thema sydd bob amser yn bwysig i'n prosiectau. Bydd yr egwyddorion hyn yn dal yn bwysig gydol ein gwaith yn 2010/11:

- Ystyried sut mae ein gwaith a'i ganlyniadau'n berthnasol i bob gwlad yn y DU. Mae goblygiadau newidiadau sefydliadol a gwahaniaethau rhwng y gwledydd yn cael mwy a mwy o ddylanwad ar waith Ofcom.

- Mae glynu wrth becyn cymorth budd defnyddwyr Ofcom yn ffordd o sicrhau bod Ofcom yn canfod ac yn rhoi sylw i fuddiannau defnyddwyr ar draws ei waith. Mae'n cynnwys cyfres o gwestiynau y dylai pob tîm prosiect mewnol eu gofyn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ddefnyddwyr.

- Bydd ymgynghori agored â phaneli a phwyllgorau cynghori Ofcom wrth i'n gwaith fynd rhagddo yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn ystyried nifer o

oblygiadau i bob gwlad, i bobl hŷn ac i bobl anabl ac i ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddio sbectrwm yn effeithlon, lle bo'n briodol.

## Adran 4

# Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr a dinasyddion

## Datblygiadau'r farchnad, canlyniadau a rhaglen waith Ofcom

4.1 Mae gan Ofcom ystod eang o ddyletswyddau penodol sydd wedi'u gosod allan mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, dylai ein holl weithgareddau a gwaith chwarae rhan i ddarparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion yn y sector cyfathrebu.

4.2 Wrth bennu ein blaenoriaethau ar gyfer 2010/11, rydym wedi ystyried sut mae'r sector cyfathrebu wedi darparu canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr. Rydym hefyd wedi ystyried i ba raddau mae datblygiadau polisi cyhoeddus a'r farchnad wedi creu materion a meysydd ffocws newydd.

4.3 Mae ein hasesiad o ddatblygiadau'r farchnad a chanlyniadau'n defnyddio'r ymchwil helaeth a wna Ofcom i ddeall yn llawn argaeledd, defnydd, pryderon a materion defnyddwyr yn y sector cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys ein hymchwil Profiad y Defnyddiwr, ein hymchwil Profiad y Defnyddiwr Busnes a'n hymchwil ehangach flynyddol ar y Farchnad Cyfathrebu.

## Darparu canlyniadau penodol i ddefnyddwyr a dinasyddion

4.4 Mae dau ddatblygiad allweddol yn y farchnad wedi effeithio ar ein gwaith o ddarparu canlyniadau penodol i ddefnyddwyr a dinasyddion. Yn gyntaf, mae pwysigrwydd gwasanaethau digidol wedi tyfu sydd wedi galluogi cyfranogiad yn yr economi a'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Rydym hefyd wedi gweld dyfodiad marchnadoedd cyfathrebu sy'n fwy cymhleth ac wedi'u huno sydd wedi golygu ei bod yn fwy dyrys i ddefnyddwyr lywio drwy'r marchnadoedd ac sydd wedi arwain at set newydd o faterion i ddefnyddwyr.

### Sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael, bod pobl yn eu defnyddio ac yn eu defnyddio'n effeithiol

4.5 Mae gan Ofcom ddyletswydd benodol i sicrhau bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebu electronig, gan gynnwys gwasanaethau data cyflym, a gwasanaethau radio a theledu, ar gael ledled y DU. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon rhaid i ni ystyried, ymysg eraill, anghenion pobl ag anableddau; defnyddwyr hŷn; y rheini sydd ar incwm isel; pobl yng ngwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig; y cymunedau ethnig gwahanol yn y Deyrnas Unedig; a phobl sy'n gweithio mewn ardaloedd trefol a gwledig.

4.6 Rydym wedi gweithio i gyflawni'r ddyletswydd hon drwy sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu digidol ar gael, bod pobl yn eu defnyddio a bod pobl yn eu defnyddio'n effeithiol. Prif ffocws ein gwaith fu deall a, phan fo'n bosibl, cynyddu cynhwysiant digidol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.


## Argaeledd

4.7 Mae argaeledd cyffredinol gwasanaethau cyfathrebu digidol wedi bod yn gyson uchel ledled y DU, gydag o leiaf 9 defnyddiwr o bob deg â mynediad at wasanaethau band eang, sefydlog, symudol a theledu digidol.

4.8 Ar yr un pryd, ceir perygl y bydd rhaniad digidol, o ran argaeledd daearyddol ac argaeledd gwasanaethau i grwpiau penodol o ddefnyddwyr, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau band eang a ffonau symudol.

4.9 Er gwaethaf y ffaith bod gwasanaethau symudol ar gael yn eang, dengys ffigur 2 nad yw darpariaeth gwasanaethau llais 2G yn gyffredin a bod darpariaeth 3G yn fwy cyfyngedig. Ardaloedd digyswllt symudol yw'r enw a roddwn ar ardaloedd a lleoliadau lle nad oes gwasanaethau symudol ar gael.

**Ffigur 2: Argaeledd gwasanaethau symudol**




*Ffynhonnell: Ofcom*
*Nodyn: Mae'r data'n berthnasol i gyfran o'r boblogaeth sy'n byw mewn rhanbarthau post lle dywed o leiaf un gweithredwr a phedwar a mwy o weithredwyr eu bod yn gwasanaethu o leiaf 90% o'r boblogaeth ar gyfer 2G a 3G. Gan GSM Association / Europa Technologies (Ch1 2008). Sylwer ein bod wedi codi'r trothwy hwn o 75% yn 2008; o ganlyniad nid oes gennym ddata cyfres amser.*

4.10 Mae defnyddwyr yn rhoi gwerth uchel ar wasanaethau symudol ac maent yn hanfodol ar gyfer nifer o fanteision i ddinasyddion, megis y gwasanaethau brys. Oherwydd bod defnyddwyr yn gwerthfawrogi gwasanaethau symudol fel ffordd o gadw mewn cysylltiad â phobl eraill i ffwrdd o'u cartrefi neu eu gweithle a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan ddinasyddion fel ffordd o gysylltu â'r gwasanaethau brys, mae'r ffaith bod ardaloedd digyswllt symudol yn bodoli yn peri pryder i ni. Roedd ymatebion i'n dogfennau ymgynghori *Access and Inclusion* a *Mostly Mobile* dros y flwyddyn ddiwethaf yn tynnu sylw at bryderon bod problemau darpariaeth yn dal yn bodoli mewn rhai ardaloedd yn enwedig yn y Gwledydd. Mae darpariaeth 3G mewn ardaloedd gwledig yn dal yn is o lawer nag mewn ardaloedd trefol, ac mae cynyddu darpariaeth 2G i roi sylw i ardaloedd digyswllt ar sail fasnachol yn annhebygol.

4.11 Fel cam cyntaf i roi sylw i bryderon dinasyddion rydym wedi canolbwyntio ar weithredu crwydro symudol mewn argyfwng, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddefnyddio rhwydwaith arall i wneud galwad frys mewn ardaloedd lle nad oes gan eu rhwydwaith eu hunain ddarpariaeth. O fis Hydref 2009 ymlaen, daeth crwydro symudol mewn argyfwng ar waith yn llawn, sy'n golygu y gall defnyddwyr gael gafael ar wasanaethau brys hyd yn oed y tu allan i ddarpariaeth eu rhwydwaith eu hunain.

4.12 Yn ystod 2010/11 rydym yn bwriadu parhau â'n gwaith gydag ardaloedd digyswllt symudol ac yn bwriadu cynnal ymchwil i ddeall yr hyn sy'n achosi ardaloedd digyswllt o'r fath ac ystyried beth ellir ei wneud i roi sylw iddynt.

**Ffigur 3: Argaeledd band eang**




*Ffynhonnell: Ofcom / gweithredwyr - Nodyn: Mae'r data'n cyfeirio at argaeledd ym mis Rhagfyr bob blwyddyn*

4.13 Mae argaeledd band eang ADSL a chebl wedi aros yn gyson dros y 3 blynedd diwethaf sef 49% o eiddo (cebl) a 99.6% (ADSL). Dros yr un cyfnod, mae'r dewis i ddefnyddwyr mewn band eang wedi codi, gydag argaeledd band eang a ddarperir drwy ddadfwndelu dolen leol wedi codi o 67% i 84%.


4.14 Er gwaethaf y ffaith bod gwasanaethau band eang sefydlog ar gael yn eang, mae ardaloedd digyswllt yn dal yn bodoli – ar hyn o bryd ni all 0.4% o eiddo gael gwasanaethau DSL syml iawn. Ceir hefyd nifer fawr o dai, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sydd ond yn gallu cael gwasanaethau band eang araf iawn. Mae oddeutu un o ddeg o dai yn y DU sydd ddim yn gallu derbyn gwasanaeth 2Mbps.

4.15 Fel rhan o'r *Adroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol* amlinellodd y Llywodraeth ei chynlluniau ar gyfer Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredin ar gyfer band eang, a fyddai'n sicrhau bod gwasanaethau gyda chyflymder o 2Mbps o leiaf ar gael i bob cartref ar draws y DU. Roedd hefyd yn gosod cynlluniau i sicrhau bod rhwydweithiau band eang cyflym iawn ar gael i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Ar gais y Llywodraeth, rydym wedi darparu cymorth a chyngor technegol ar y gwaith hwn hyd yn hyn a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i wella argaeledd band eang ledled y DU.

4.16 Rydym yn cynnig i'n gwaith sy'n canolbwyntio ar symud ymlaen o ran ardaloedd digyswllt symudol a band eang fod yn flaenoriaeth i Ofcom yn 2010/11. Ein nod yw gwella ein dealltwriaeth o ble a pham y ceir ardaloedd digyswllt ac ystyried pa gamau gellir eu cymryd i'w lleihau.

## Defnyddio

**Ffigur 4: Defnyddio gwasanaethau cyfathrebu**




*Ffynhonnell: Arolwg Olrhain Cyfathrebu Ofcom*
*Sylfaen: Pob oedolyn 15+. Data ar gyfer 2006-2008 yn seiliedig ar Ch2, mae'r holl ddata arall yn seiliedig ar Ch4.*
*Nodyn: Mae'r ffigurau symudol yn cyfeirio at ddefnyddwyr sy'n defnyddio gwasanaethau symudol yn bersonol. Mae'r holl ffigurau eraill yn cyfeirio at ddefnydd yn ôl cartref.*

4.17 At ei gilydd mae'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu digidol wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf. Er bod y nifer sydd â gwasanaethau llinell sefydlog wedi disgyn er 2006 oherwydd bod mwy a mwy o bobl yn dibynnu ar wasanaethau symudol yn unig, bu cynnydd sylweddol yn y nifer sydd â band eang a theledu digidol dros yr un cyfnod. Mae 70% o gartrefi bellach yn defnyddio gwasanaethau band eang (wedi codi o 45% yn 2006), ac mae gan 90% o gartrefi deledu digidol (wedi codi o 70% yn 2006).

4.18 Er gwaethaf y cynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau digidol ar draws y boblogaeth yn ei chyfanrwydd, mae'r nifer yn anwastad ar draws grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr. Mae defnyddwyr hŷn a'r rheini mewn cartrefi ag incwm isel yn llai tebygol o lawer na'r cyfartaledd i gael gwasanaeth band eang yn eu cartref.

4.19 Wrth i gymdeithas ddod i ddibynnu mwy a mwy ar dechnoleg ddigidol, mae amrywiol wasanaethau cyfryngau a chyfathrebu'n dod yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Yn fwyfwy, mae defnyddio'r gwasanaethau hyn a gwybodaeth am eu defnyddio'n dod yn rhagofyniad ar gyfer cymryd rhan effeithiol mewn cymdeithas ac yn yr economi.

4.20 Mae annog mwy o bobl i ddefnyddio a deall gwasanaethau digidol wedi cael ei wneud drwy ein rhaglen llythrennedd yn y cyfryngau. Mae ein ffocws yn y maes hwn wedi bod ar ddarparu arweiniad a gweithio gyda rhanddeiliaid i hybu llythrennedd yn y cyfryngau ar gyfer pawb ledled y DU. Rydym wedi cefnogi a gweithio gydag ystod eang o sefydliadau a chynlluniau ac rydym wedi parhau i gynhyrchu ymchwil a darparu gwybodaeth.

4.21 I ymateb i *Adroddiad Interim Prydain Ddigidol* y Llywodraeth, rydym wedi gweithio gydag ystod o randdeiliaid, er mwyn llunio Gweithgor Llythrennedd yn y Cyfryngau Prydain Ddigidol. Roedd hwn wedi cyflwyno argymhellion sy'n galluogi datblygu agenda clir er mwyn darparu mwy o lythrennedd yn y cyfryngau.

4.22 Yn yr *Adroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol*, roedd y Llywodraeth yn gofyn i Ofcom arwain y Consortiwm er mwyn hyrwyddo Cyfranogiad Digidol sy'n cael ei gefnogi gan arian hyd at £12miliwn dros dair blynedd. Mae hyrwyddo cyfranogiad digidol yn

cynnwys gwaith i gynyddu cyrhaeddiad, hyd a lled defnyddio technoleg ddigidol ar draws pob rhan o gymdeithas, gan gynnwys argaeledd, defnyddio a deall gwasanaethau digidol. Bydd y consortiwm yn datblygu ac yn darparu Rhaglen Marchnata Gymdeithasol a Gwaith Maes wedi'i Dargedu a fydd yn rhan o Gynllun Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Digidol. Rydym yn bwriadu trin ein gwaith i gefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol fel blaenoriaeth ar gyfer 2010/11.

4.23 Ochr yn ochr â'n blaenoriaethau i symud ymlaen ar ardaloedd digyswllt band eang a symudol a chefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol, byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith parhaus ar sicrhau argaeledd, cynyddu'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu a'r nifer sy'n eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer 2010/11. Fel rhan o hyn rydym yn bwriadu adolygu'r Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin, canolbwyntio ar wasanaethau ar gyfer pobl anabl, canolbwyntio ar offer hawdd ei ddefnyddio a pharhau â'n gwaith llythrennedd yn y cyfryngau parhaus.

## Cefnogi defnyddwyr

4.24 Yn ogystal ag elwa o argaeledd a mynediad at wasanaethau digidol, mae'n bwysig hefyd bod defnyddwyr yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â gwasanaethau o'r fath. Mae cynnyrch a modelau prisio cymhleth sy'n newid yn gyflym, yn ogystal â phrosesau cymhleth i newid cyflenwyr yn gallu creu anawsterau i ddefnyddwyr. Er mwyn cefnogi defnyddwyr yn y cyd-destun hwn rydym wedi gweithio i rymuso defnyddwyr drwy hyrwyddo gwybodaeth a chefnogi prosesau newid er mwyn eu galluogi i fanteisio ar yr ystod gynyddol o gynnyrch a gwasanaethau sydd ar gael.

### Newid

4.25 Dylai defnyddwyr allu newid rhwng darparwyr heb ormod o ymdrech, aflonyddwch a phryder. Pan nad yw hyn yn wir, gall defnyddwyr sy'n newid dioddef niwed. Ar ben hynny, gall arwain at ddiffyg hyder gan ddefnyddwyr mewn prosesau newid sy'n golygu na all defnyddwyr newid. Gallai hyn lesteirio'r broses gystadleuol ac ni fydd defnyddwyr yn cael manteision cystadleuaeth y dylent allu eu disgwyl

4.26 Mae ein gwaith sy'n ymwneud â defnyddwyr yn newid yn edrych ar dri phrif faes, sef atal newid sy'n deillio o rwystrau o ran gwybodaeth, contractau a/neu brosesau.

4.27 Ac ystyried pwysigrwydd newid i ddefnyddwyr yn y farchnad cyfathrebu, byddwn yn bwriadu trin ein gwaith ar sicrhau y gall defnyddwyr newid rhwng darparwyr cyfathrebu drwy chwalu unrhyw rwystrau diangen fel blaenoriaeth ar gyfer 2010/11.

*Mynd i'r afael â rhwystrau gwybodaeth sy'n atal newid*

4.28 Mae gwybodaeth yn chwarae rhan allweddol o ran galluogi defnyddwyr i fanteisio i'r eithaf ar farchnadoedd cystadleuol. Os nad yw defnyddwyr yn gwybod yn llawn am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, gall defnyddwyr wneud penderfyniadau anghywir a bod yn amharod i newid. Mae Ofcom wedi gweithio i gefnogi defnyddwyr drwy ddarparu gwybodaeth nad yw'r farchnad yn ei darparu'r effeithiol ond sy'n eu helpu i ddewis. Fel rhan o hyn:

- Rydym wedi lansio cynllun achredu ar gyfer cwmnïau cymharu prisiau i hybu gwasanaethau cymharu prisiau cywir a diweddar. Hyd yn hyn rydym wedi achredu tri chwmni: Simplify Digital, BroadbandChoices a Billmonitor;
- Er mwyn rhoi sylw i bryderon am ganlyniadau ar gyfer cwsmeriaid band eang roeddem wedi annog darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd i ymrwymo i gôd

gwirfoddol er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i ddefnyddwyr adeg gwerthu. Byddwn yn monitro'r cydymffurfiad â'r côd;

- Ym mis Gorffennaf 2009, roedd Ofcom wedi cyhoeddi canlyniadau ei ymchwil i gyflymder band eang llinell sefydlog yn y DU[7]. Canfu'r ymchwil fod gwahaniaethau sylweddol rhwng y cyflymder llwytho i lawr a oedd yn cael ei gynnig gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd gwahanol, gyda'r cyflymder yn dibynnu ar y dechnoleg a ddefnyddid i ddarparu band eang a gallu rhwydwaith y darparwr. Rydym yn bwriadu comisiynu rownd arall o ymchwil a byddwn hefyd yn parhau â'n rhaglen waith ar gyflymder band eang gyda'r nod gyffredinol o sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gwasanaeth band eang; ac
- Rydym wedi cyhoeddi ystod o ganllawiau i ddefnyddwyr gyda chyngor ymarferol ar ystod o faterion yn y sector cyfathrebu gan gynnwys slamio, galwadau niwsans a sut mae cwyno.

4.29 Fel rhan o'n gwaith byddwn yn parhau i adolygu a hyrwyddo gwybodaeth i ddefnyddwyr er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau deallus yn y farchnad gyfathrebiadau.

*Mynd i'r afael â rhwystrau contractau sy'n atal newid*

4.30 Yn ogystal â rhwystrau gwybodaeth, gall defnyddwyr hefyd wynebu rhwystrau contract sy'n atal newid; mae hyn yn golygu lle gall telerau contract effeithio ar allu defnyddwyr i newid yn y farchnad. Gall hyn fod yn wir pan mae'r telerau'n gallu arwain at ffioedd terfynu'n gynnar. Pryder arall yng nghyswllt contractau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig, hy contractau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig ar gyfer cyfnod contract isafswm newydd ar ôl i gyfnodau'r contract gwreiddiol ac unrhyw gyfnodau contract isafswm ar ôl hynny ddod i ben.

*Mynd i'r afael â rhwystrau proses sy'n atal newid*

4.31 Mae gan Ofcom raglen barhaus o waith sy'n ymwneud â phrosesau newid er mwyn sicrhau nad ydynt yn atal defnyddwyr rhag newid.

4.32 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Ofcom wedi mynd i'r afael â materion sy'n dal i fodoli ym mhrosesau newid heddiw, gan gynnwys ein gwaith ar gam-werthu llinellau sefydlog, mudo band eang, cam-werthu symudol a Hygludedd Rhifau Symudol. Rydym wedi gweld nifer o broblemau posibl ym maes newid, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) problemau sy'n ymwneud â gweithgareddau gwerthu anonest, anawsterau ac oedi sy'n wynebu defnyddwyr pan maent eisiau newid darparwyr a phosibilrwydd colli gwasanaeth.

4.33 Mae ein cynlluniau yn y maes hwn wedi cael rhywfaint o lwyddiant, yn fwyaf penodol o ran mudo band eang drwy gyflwyno Amod Cyffredinol 22 a arweiniodd at ostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion.


4.34 Fodd bynnag, gyda mwy a mwy o symud at werthu cynnyrch fesul bwndel, mae'n dod yn bwysicach fyth bod Ofcom yn edrych tua'r dyfodol, i sicrhau nad yw

[7] http://www.ofcom.org.uk/research/telecoms/reports/bbspeed_jan09/

prosesau'n rhwystro gallu defnyddwyr i newid mewn byd o gynnyrch mewn bwndeli yn ogystal ag ar gyfer un gwasanaeth cyfathrebu.

4.35 Mae ein hymchwil wedi dangos bod gwasanaethau wedi'u bwndelu wedi gweld y gostyngiad mwyaf yng nghyfran y defnyddwyr sydd wedi newid cyflenwr dros y 12 mis diwethaf (o 24% i 13%) o'i gymharu â gwasanaethau eraill.

**Ffigur 5: Gweithgarwch newid dros y 12 mis blaenorol**




*Ffynhonnell: Arolwg gwneud penderfyniadau Ofcom Gorffennaf 2007, Gorffennaf 2008 a Gorffennaf 2009.*
*Sylfaen: Pawb sy'n gwneud y penderfyniadau ar gyfer pob gwasanaeth; llinell sefydlog (2007, 1018), (2008, 941), (2009, 781), symudol (2007, 1211), (2008, 1270), (2009, 1231), band eang (2007, 403) (2008, 460), (2009, 388), teledu sawl sianel (2007, 800) (2008, 896), (2009, 837), gwasanaethau mewn bwndel (2007, 384) (2008, 534), (2009, 631)*

4.36 Gallai'r ffaith bod bwndeli'n gyffredin lesteirio defnyddwyr wrth newid yn y tymor hwy ac ystyried yr angen - ar hyn o bryd - i ddefnyddwyr lywio'u ffordd drwy nifer o brosesau sy'n benodol i gynnyrch penodol er mwyn newid cyflenwr bwndel penodol. Yn bresennol mae gwahanol brosesau yn bodoli ar gyfer newid llinell sefydlog, band eang, symudol a theledu wrth dalu. Fodd bynnag, mae nifer o ddarparwyr wedi lleisio'u dymuniad i symud i broses mwy cyfun.

4.37 Er mwyn rhoi sylw i hyn, byddwn yn datblygu dull gweithredu strategol ar gyfer newid sydd wedi'i anelu at sicrhau nad oes gormod o rwystrau i ddefnyddwyr sy'n eu hatal rhag newid nawr neu yn y dyfodol.


4.38 Ac ystyried pwysigrwydd newid i ddefnyddwyr yn y farchnad cyfathrebu, byddwn yn bwriadu trin ein gwaith o gael gwared â rhwystrau diangen fel bod defnyddwyr yn gallu newid darparwyr fel blaenoriaeth ar gyfer 2010/11.

**Amddiffyn defnyddwyr a chynulleidfaoedd rhag niwed ac arferion annheg**

4.39 Tîm Cynghori Ofcom yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer defnyddwyr sydd am ofyn am gyngor neu gwyno i Ofcom am faterion yn y farchnad cyfathrebu. Gall defnyddwyr gysylltu â Thîm Cynghori Ofcom dros y ffôn, y rhyngrwyd neu drwy'r post.

4.40 At ei gilydd roedd nifer y cwynion a gafodd Ofcom rhwng 2008 a 2009 wedi disgyn o oddeutu 20,000 y mis i lawr i oddeutu 16,000 y mis.

### Ffigur 6: Nifer y cwynion misol a gafwyd gan Ofcom, 2008-2009





*Ffynhonnell: Ofcom*

<u>Defnyddwyr</u>

4.41 Mae gennym ystod eang o waith sydd wedi'i anelu at leihau'r tebygolrwydd y caiff ddefnyddwyr niwed. Mae hyn yn canolbwyntio ar osod y canllawiau neu'r rheoliadau iawn ar gyfer darparwyr gwasanaeth a monitro'n gyson a chymryd camau gorfodi os na chydymffurfir â chanllawiau a rheolau. Yn gyffredinol, yr offer sydd ar gael i ni yw cyflwyno a gorfodi Amodau Cyffredinol a deddfwriaeth gyffredinol sy'n amddiffyn defnyddwyr megis Deddf Menter 2002.

### Ffigur 7: Cwynion defnyddwyr mewn telathrebu




*Ffynhonnell: Ofcom*

4.42 Yn ymarferol, cymysg fu ein llwyddiant o ran mynd i'r afael â materion a oedd wedi effeithio ar ddefnyddwyr dros y tair blynedd diwethaf. Rydym wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd:

- Mae cwynion am alwadau mud a therfynu galwadau wedi disgyn yn sylweddol ers iddynt gyrraedd eu hanterth ddiwedd 2008. Ein prif declyn i fynd i'r afael â galwadau mud fu rhoi dirwyon i'r troseddwyr gwaethaf a rhoi cyhoeddusrwydd i hynny.

- Mae cam-werthu cynlluniau ffonau symudol, yn enwedig drwy gynlluniau a oedd yn cynnig arian parod yn ôl, wedi bod yn broblem fawr. Pan fethodd côd hunan-reoleiddio â stopio'r broblem, roeddem wedi cyflwyno côd gorfodol ac mae hynny wedi lleihau'r cwynion a welwyd ers iddynt gyrraedd eu hanterth, sef dros 800 ym mis Medi 2007 i dan 200 ym mis Hydref 2009.

- Ar y cyd â'n hasiantaeth rheoleiddio PhonePayPlus aethpwyd i'r afael â'r niwed sylweddol a achoswyd gan wasanaethau cyfradd premiwm, yn enwedig negeseuon testun sy'n cael eu bilio am yn ôl. Mae cwynion i PhonePayPlus wedi disgyn o'r pwynt uchaf sef 2,380 ym mis Ebrill 2008 i oddeutu 800 ym mis Hydref 2009.

4.43 Ond bu'n anos mynd i'r afael â rhai problemau:

- Mae cwynion am gam-werthu mewn telathrebu sefydlog wedi disgyn o'r pwynt uchaf sef 1,200 yn 2005, ond yn dal yn uchel, 900 ym mis Hydref 2009, er gwaethaf y ffaith ei bod yn rhaid i weithredwyr gydymffurfio â chodau ymarfer a bod rhaglen orfodi weithredol ar waith. I ymateb i hyn byddwn yn gosod amod cyffredinol newydd

- Mae contractau annheg, yn enwedig yng nghyswllt ffioedd terfynu cynnar rhy ddrud, wedi arwain at y drydedd nifer fwyaf o gwynion gan ddefnyddwyr ar un pwnc ym maes telathrebu. O ganlyniad i hynny rydym wedi rhoi canllawiau clir i weithredwyr ynghylch pa ffioedd sy'n annheg.

- Mae cwynion ac ymchwil i'r farchnad yn dangos bod darparwyr yn aml yn annigonol wrth ddelio â chwynion ynghylch gwasanaeth gwael i gwsmeriaid, ac o ganlyniad rydym yn gwella mecanweithiau i ddatrys anghydfodau.

4.44 Yn ystod 2010/11 byddwyn yn canolbwyntio ar weld cynnydd sylweddol ar bob un o'r materion yma.

## Cynulleidfaoedd

4.45 Fel rheoleiddiwr y diwydiant darlledu mae Ofcom wedi parhau i ymateb i bryderon y cyhoedd ynghylch safonau ar deledu a radio. Mae'r safonau hyn yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys: niwed a thramgwydd, triniaeth annheg ac amhleidioldeb teg.

4.46 Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae Ofcom wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer o fethiannau difrifol gan ddarlledwyr o ran y ffordd maent wedi delio â phleidleisiau a chystadlaethau. Mae ein gwaith, sydd wedi arwain at ddirwyon gwerth dros £11m, a newid amodau trwyddedau, wedi lleihau'r achosion o gydymffurfio gwael yn y maes hwn yn sylweddol.

4.47 Yn ystod 2010/11, bydd Ofcom yn parhau i sicrhau bod yr holl wylwyr a gwrandawyr yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau a allai achosi niwed a thramgwydd. Yn benodol ym meysydd:

- Deunydd rhywiol: egluro'r rheolau a'r canllawiau sy'n ymwneud â darlledu deunyddiau o natur rywiol er mwyn rhoi gwarchodaeth ddigonol i'r gynulleidfa;
- Cyfeiriadau masnachol: mae'r gwaith hwn yn golygu cefnogi darlledwyr i ddod o hyd i ffyrdd o aros yn fasnachol hyfyw, ar yr un pryd ag amddiffyn defnyddwyr ac ansawdd ac unplygrwydd rhaglenni (sy'n allweddol i brofiad y gwylwyr a'r gwrandawyr); ac
- Iaith dramgwyddus: cynnal ymchwil a fydd yn sicrhau bod rheoleiddio Ofcom o iaith dramgwyddus yn parhau i adlewyrchu safonau a dderbynnir yn gyffredinol.

## Addasu rheoleiddio cynnwys ar gyfer oes y rhyngrwyd

4.48 Wrth i ddefnyddwyr ddefnyddio mwy a mwy o gynnwys ar draws llwyfannau gwahanol, mae materion sy'n ymwneud â rheoleiddio cynnwys yn dod yn fater pwysicach i ni. Ar hyn o bryd mae rheoleiddio cynnwys yn amrywio yn ôl llwyfan, ond gyda chydgyfeirio, mae'r gwahaniaethau rhwng gwahanol lwyfannau'n pylu. Mae felly'n bwysicach ac yn bwysicach i ddefnyddwyr bod rheoleiddio cynnwys yn glir, yn syml ac yn gyson. Yn ogystal â gweithredu'r *Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol*, bydd yn rhaid inni adolygu rheoleiddio cynnwys yn fwy eang er mwyn diwallu'r nod hwn. Yn benodol, byddwn yn dadansoddi diben a swyddogaeth rheoleiddio cynnwys llinol cadarnhaol yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyswllt darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn hefyd yn edrych ar y dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â niwed a thramgwydd, bod yn ddiduedd ac yn deg a phreifatrwydd mewn tirwedd sy'n cydgyfeirio. Mae addasu rheoleiddio cynnwys ar gyfer newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd, felly'n flaenoriaeth ar gyfer 2010/11.

## Sicrhau bod cynnwys o ansawdd da ar gael yn eang

4.49 Dros y tair blynedd diwethaf mae cynnal a chryfhau argaeledd cynnwys a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd, yn enwedig ym meysydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus a radio masnachol, wedi bod yn flaenoriaeth i ni oherwydd ein statws rheoleiddiol. Ein ffocws fu hybu darparu cynnwys o ansawdd o'r fath yn eang i gynulleidfaoedd, yn enwedig yn yr ardaloedd sydd dan y bygythiad mwyaf.

4.50 Roeddem wedi cwblhau dadansoddiad ac ymchwil helaeth sydd wedi dangos bod gwasanaethau darlledu'n chwarae rhan bwysig o ran darparu cynnwys sy'n rhoi gwybodaeth i ddinasyddion a defnyddwyr ac sy'n cryfhau cymunedau. Roeddem hefyd wedi ystyried darparu newyddion a chynnwys yn y rhanbarthau Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru yn y dyfodol, y mae gwylwyr yn rhoi cryn werth arno.

4.51 Mae cynnwys teledu, yn enwedig cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, o werth i ddinasyddion a defnyddwyr ac ystyried y rhan y gall ei chwarae ym mywydau pobl o ran sicrhau well dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ddiwylliant a chymdeithas a'r byd yn gyffredinol. Caiff cynnwys radio ei werthfawrogi am wybodaeth sy'n sensitif i amser (megis adroddiadau traffig, neu'r newyddion diweddaraf) a hefyd am gynnwys lleol sy'n canolbwyntio ar y gymuned (megis cystadlaethau a thrafodaethau).

## Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

4.52 Ym myd teledu, mae darnio cynulleidfaoedd (oherwydd bod mwy o sianeli ar gael) a newidiadau mewn marchnadoedd hysbysebu wedi herio modelau busnes darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Mae hyn yn ei dro wedi rhoi argaeledd darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gyllidir yn fasnachol yn y fantol, wrth i gyllidebau rhaglenni ddod dan fwy a mwy o bwysau ac wrth i fwy a mwy o gynnwys clywedol gael ei wylio ar-lein.

4.53 Mae gan Ofcom ddyletswydd benodol i adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus o leiaf unwaith bob 5 mlynedd. Ym mis Ionawr 2009, roeddem wedi gorffen ein Hail Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus lle gwnaethom argymell i'r Llywodraeth weithredu i gynnal ac i gryfhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Roeddem wedi argymell:

- Cynnal swyddogaeth a chyllid y BBC wrth galon y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus;

- Cefnogi cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU a newyddion rhyngwladol drwy roi gwasanaethau Sianel 3 a Sianel 5 fel gwasanaethau masnachol gydag ymrwymiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyfyngedig;

- Cynllunio i sicrhau bod dewis ar gael o newyddion o ansawdd uchel ochr yn ochr â'r BBC yn y gwledydd datganoledig ac yn rhanbarthau Lloegr. (Mae'r Llywodraeth wedi mynd â'r argymhelliad hwn rhagddo fel rhan o'r *Adroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol*, lle'r amlinellodd gynlluniau i dreialu Consortia Newyddion a Gyllidir yn Annibynnol); a

- Sicrhau bod darparwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus cynaliadwy arall ochr yn ochr â'r BBC.

4.54 Pan fu'n bosibl i ni roi newidiadau ar waith i sicrhau bod defnyddwyr a dinasyddion yn gallu parhau i gael gwasanaethau maent yn eu gwerthfawrogi, rydym wedi gwneud hynny. Yn benodol, rydym wedi newid y trwyddedau Sianel 3, a oedd yn helpu i sicrhau argaeledd parhaus newyddion rhanbarthol ar Sianel 3 yn y tymor byr, ac rydym wedi diwygio'r rheoliadau ar Five i hybu ffocws ar gynnwys sy'n tarddu o'r DU ac sydd wedi'i gyllido'n well, a werthfawrogir gan wylwyr. Roeddem hefyd wedi cynyddu ymrwymiad Channel Four i gynyrchiadau'r tu allan i Lundain, er mwyn hyrwyddo dewis ehangach o safbwyntiau mewn cynnwys.

## Radio

4.55 Er gwaethaf gwerth a phoblogrwydd radio, mae'r sector radio masnachol hefyd yn wynebu sialensiau sylweddol oherwydd newidiadau economaidd cylchol a strwythurol. Mae hyn wedi golygu bod nifer fawr o orsafoedd (gorsafoedd llai yn benodol) yn gwneud colledion ac mae rhai gorsafoedd radio wedi cau. Ac ystyried bod gwrandawyr yn gwerthfawrogi gwasanaethau radio masnachol, rydym wedi gweithio i gefnogi esblygiad radio.

4.56 Rydym wedi ystyried ceisiadau gan y rheini sy'n dal trwyddedau radio er mwyn caniatáu cydleoli. Mae cydleoli'n caniatáu i fwy nag un orsaf radio rannu eiddo stiwdio, ac felly lleihau'r costau, ar yr un pryd â chynnal cynnwys lleol gwahanol.

4.57 Roedd y Llywodraeth wedi datgan bod esblygiad radio yn faes allweddol yn ei *Hadroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol*, ac o ganlyniad, mae llawer o'n gweithgarwch

yn y maes hwn wedi bod ar gais y Llywodraeth. Ym mis Gorffennaf 2009 roeddem wedi ymgynghori ar fesurau y byddem yn cynnig eu rhoi ar waith yng nghyswllt rheoleiddio gorsafoedd radio lleol masnachol petai'r mesurau a gynigiwyd gan y Llywodraeth yn ei *Hadroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol* yn dod yn gyfraith. Yn amodol ar newid mewn deddfwriaeth, roeddem wedi cynnig gweithredu strwythur tair haen ar gyfer radio, gan ganiatáu i rai gorsafoedd rhanbarthol rannu rhaglenni os oeddent yn cytuno i ddarparu gwasanaeth ar amlblecs DAB cenedlaethol. Byddai hyn yn rhoi gwell dewis o orsafoedd DAB i ddefnyddwyr. Byddai gwrandawyr hefyd yn elwa o'n cynigion a fyddai'n caniatáu i orsafoedd leihau rhywfaint ar eu rhaglenni lleol yn gyfnewid am fwy o newyddion lleol drwy gydol y dydd.

4.58 Er mwyn rhoi i'r sector radio masnachol yr hyblygrwydd i ymateb i amodau'r farchnad, ym mis Tachwedd 2009 roeddem hefyd wedi argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylid dileu'r rheolau perchnogaeth radio lleol a'r rheolau perchnogaeth amlblecs masnachol cenedlaethol. Roeddem hefyd wedi argymell rhyddfrydoli rheolau perchnogaeth ar draws cyfryngau lleol, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i gwmnïau cyfryngau lleol fuddsoddi mewn cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd lleol.

4.59 Y Llywodraeth sydd yn awr i benderfynu a yw am weithredu ein hargymhellion i gefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus a radio. Byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau yn y maes hwn a byddwn yn cyfrannu ac yn ymateb pan fydd hynny'n berthnasol.

### Deall profiad defnyddwyr busnes

4.60 Er bod y rhan fwyaf o'n gwaith dros y tair blynedd diwethaf wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddwyr preswyl, yn 2009 roeddem wedi cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i ddeall profiadau defnyddwyr busnes gwasanaethau telathrebu ac asesu a oes angen i Ofcom wneud mwy i sicrhau bod anghenion defnyddwyr busnes yn cael eu diwallu. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cynnal rhaglen ymchwil i gael gwybod mwy am brofiadau busnesau sydd â phump cyflogwyr neu fwy o wasanaethau sefydlog, symudol a rhyngrwyd/data ac wedi gofyn iddynt am eu pryderon a'u rhwystredigaethau. Roeddem hefyd wedi cynnal cyfres o weithdai â busnesau ledled y DU i gael gwybod mwy am y materion penodol a allai effeithio ar fusnesau bach /neu fusnesau yn ardaloedd gwledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

4.61 Mae'r adroddiad *Profiad y Defnyddiwr Busnes*, a gyhoeddwyd gerllaw'r cynllun draft yma, yn dadansoddi canfyddiadau'r ymchwil ac yn gosod sut mae Ofcom yn defnyddio'i bwerau perthnasol i roi sylw i'r pryderon sydd wedi cael eu codi. Roedd ein hymchwil yn dangos bod gwasanaethau telathrebu'n dod yn bwysicach i fusnesau sydd â phump cyflogwyr neu fwy ac roedd hefyd wedi canfod er bod busnesau, at ei gilydd, yn fodlon â'r gwasanaethau sydd ar gael, roedd pryderon hefyd mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys gwasanaeth i gwsmeriaid, darpariaeth symudol a chyflymder band eang.

4.62 Rydym yn bwriadu cynnal ymchwil aml ymysg defnyddwyr busnesau. Bydd ymchwil y flwyddyn nesaf ymysg busnesau bach iawn.

## Hyrwyddo cystadleuaeth i sicrhau bod defnyddwyr a dinasyddion yn elwa o ddewis ehangach, prisiau is ac arloesedd

4.63 Mae defnyddwyr a dinasyddion yn elwa o farchnadoedd cystadleuol sy'n gweithredu'n effeithiol. Gall cystadleuaeth arwain at brisiau is a dewis ehangach o nwyddau a gwasanaethau gwahanol, yn ogystal â hyrwyddo arloesedd wrth i

gwmnïau gystadlu â'i gilydd i ddenu a chadw cwsmeriaid. Mewn marchnadoedd lle mae'r gystadleuaeth yn wan, efallai nad oes dim yn cymell cwmnïau i arloesi, sy'n cyfyngu ar ddewis, ac mae'n debygol y bydd prisiau'n uwch nag y byddent petai gystadleuaeth. Gall hyn arwain at ganlyniadau nad ydynt er budd defnyddwyr.

4.64 Mae gwaith Ofcom yn y maes hwn ar hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn marchnadoedd cyfathrebu dros y tair blynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar delathrebu sefydlog, telathrebu symudol a theledu drwy dalu. Rydym hefyd yn dechrau canolbwyntio ar y berthynas rhwng rheoleiddio a chyllido cynnwys.

## Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn telathrebu


### Sefydlog

4.65 Pan ysgwyddodd Ofcom y cyfrifoldeb dros reoleiddio'r sector cyfathrebu ddiwedd 2003, roedd y farchnad yn cynnwys dewis o gyflenwyr gwasanaeth i ddefnyddwyr ar gyfer gwasanaethau telathrebu sefydlog, ond roedd y dewis yn brin o ran cynnyrch a gwasanaethau. Roedd hyn o ganlyniad i ddarparwyr gwasanaeth yn defnyddio'r set gyffredin o gynnyrch cyfanwerthu a ddarparwyd gan BT, yn hytrach na buddsoddi yn eu seilwaith eu hunain, a fyddai'n hybu arloesedd ac yn eu galluogi i gynnig ystod ehangach o gynnyrch a gwasanaethau.

4.66 I ymateb i'r amodau hyn yn y farchnad, roeddem wedi cwblhau ein Hadolygiad Strategol Telathrebu yn 2005 a oedd â'r nod o ddatblygu marchnad telathrebu sefydlog a fyddai'n rhoi gwerth am arian i ddefnyddwyr a dewis o wasanaethau arloesol ac o ansawdd uchel. O ganlyniad i'r Adolygiad, roedd yn rhaid i BT sicrhau bod nifer o gynnyrch cyfanwerthu wedi'u rheoleiddio ar gael i ddarparwyr eraill ar sail gyfwerth. Cafodd y gofynion hyn eu rhoi ar waith drwy nifer o Ymrwymiadau. O ganlyniad, cytunodd BT y byddai ei fusnes rhwydwaith mynediad (Openreach) yn trin ei fusnes adwerthu yn yr un modd â darparwyr gwasanaeth eraill. Roedd hyn yn golygu ei bod yn rhaid i BT ddefnyddio'r un set cynnyrch cyfanwerthu â'r rheini a oedd ar gael i drydydd partïon, a oedd yn cymell BT i ddatblygu cynnyrch cyfanwerthu o ansawdd uchel. Ar ben hynny, cytunodd BT i addasu ei brosesau i'w gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eu gwasanaethau eu hunain drwy ddefnyddio rhwydwaith mynediad BT gan ddefnyddio eu hoffer eu hunain yng nghyfnewidfeydd BT, mewn proses a elwir yn dadfwndelu dolen leol.


4.67 Ers rhoi'r Ymrwymiadau ar waith, mae nifer y llinellau dadfwndelu dolen leol wedi codi'n sylweddol. Cyn yr Ymrwymiadau, bach iawn oedd cyfran y llinellau wedi'u dadfwndelu: yn 2003, roedd nifer y llinellau wedi'u dadfwndelu yn 8,000, gan godi i 200,000 yn 2005. Wedyn, erbyn mis Gorffennaf 2009 roedd dros 6 miliwn o linellau wedi'u dadfwndelu.

**Ffigur 8: Nifer y llinellau dolen leol wedi'u dadfwndelu**




4.68 Mae rhoi hyn ar waith ar raddfa eang wedi cynyddu'r dewis a'r gwerth i ddefnyddwyr. Mae darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sydd wedi defnyddio llinellau dadfwndelu dolen leol wedi gallu cynnig gwasanaethau IPTV neu ddefnyddio gwasanaethau band eang cyflymach drwy ddefnyddio technoleg ADSL2+ cyn BT. Mae defnyddio dadfwndelu dolen leol hefyd wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i rai darparwyr gwasanaethau o ran sut maent yn adwerthu gwasanaethau, gan alluogi rhai darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd i gynnig gwasanaethau band eang 'am ddim' i gwsmeriaid sy'n cymryd gwasanaethau eraill.

**Ffigur 9: Gwariant cyfartalog cartrefi ar wasanaethau telathrebu**




*Ffynhonnell: Ofcom /gweithredwyr/Swyddfa Ystadegau Gwladol*
*Nodiadau: Mae'n cynnwys amcangyfrifon lle nad yw Ofcom yn cael data gan weithredwyr; wedi'i addasu i MPC; mae'n cynnwys TAW*

4.69 Fel mae ffigur 9 yn ei ddangos, er 2006, mae'r gwariant ar fand eang a mynediad i'r rhyngrwyd mewn basged o nwyddau cyfathrebu wedi disgyn o £11.53 i £10.71. Mae defnyddwyr sydd wedi manteisio ar fand eang rhatach neu hyd yn oed 'am ddim' wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.

4.70 Er 2006 bu hefyd cynnydd mewn prif gyflymder band eang. Yn 2006, roedd dwy ran o dair o danysgrifwyr band eang â chysylltiadau â phrif gyflymder o hyd at 2Mbps. Erbyn 2008, roedd dros 70% o danysgrifwyr band eang â phrif gyflymder dros 2 Mbps.

4.71 Mae effaith yr Ymrwymiadau a chanlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr wedi ein galluogi i addasu ac, mewn rhai achosion, dileu'r rheoleiddio o'r sector telathrebu sefydlog er mwyn adlewyrchu'r lefelau uwch o gystadleuaeth yn y sector.

- Yn 2008 roeddem yn gallu cael gwared ar reoleiddio ex-ante ar BT yng nghyswllt mynediad band eang cyfanwerthu yn y 69.2% o ardaloedd lle'r oedd pedwar neu fwy o ddarparwyr gwasanaeth wedi buddsoddi mewn seilwaith.

- Ar ôl cael gwared ar reolaeth prisiau adwerthu ar gyfer galwadau a llinellau yn 2006, ym mis Medi 2009 daethom i'r casgliad yn ein Hadolygiad o'r Farchnad Band Cul Adwerthu fod y farchnad yn ddigon cystadleuol i gael gwared ar y rheoleiddio a oedd yn berthnasol i BT, gan ei alluogi i gynnig bwndeli i ddefnyddwyr a phecynnau wedi'u teilwra i gwsmeriaid busnes, sy'n arwain at fwy o ddewis i fusnesau ac i ddefnyddwyr.

- Rydym wedi diweddaru'r rheolaeth ffioedd ar gyfer cynnyrch dadfwndelu dolen leol Openreach er mwyn cynnal y cymhelliant i Openreach arloesi a gwella ansawdd ei wasanaeth a sicrhau bod darparu gwasanaethau dadfwndelu dolen leol yn gynaliadwy yn dilyn newidiadau i sylfaen gost Openreach.

- Mae ein gwaith o bennu rheolaeth ffioedd ar gyfer gwasanaethau llinellau ar les drwy gydol 2008 a 2009 wedi bod o fudd i ddefnyddwyr drwy leihau'r prisiau ar gyfer llinellau ar les i ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd (gan leihau cost darparu gwasanaethau band eang) a defnyddwyr busnes.

4.72 Er y bu canlyniadau cadarnhaol cyffredinol i ddinasyddion a defnyddwyr, byddwn yn parhau i fonitro gweithredu Ymrwymiadau BT, ac yn gweithio i sicrhau bod y rheoliadau'n dal yn addas i'r diben wrth i'r farchnad esblygu ac wrth i faterion newydd ddod i'r fei.

4.73 Roeddem yn cydnabod y bydd uwchraddio o rwydweithiau copr y genhedlaeth hon i rwydweithiau ffibr y genhedlaeth nesaf a fydd yn gallu darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn yn codi materion pwysig o ran rheoleiddio'r farchnad telathrebu sefydlog.

4.74 Roeddem wedi cyhoeddi datganiad am fand eang cyflym iawn ym mis Mawrth 2009 yn amlinellu ein fframwaith rheoleiddio sydd wedi'i anelu at sicrhau bod defnyddwyr a dinasyddion yn elwa o fuddsoddiad amserol, cystadleuaeth ac argaeledd eang.

4.75 Ers hynny rydym wedi gweld dechrau buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn, gan gynnwys Virgin Media, BT a darparwyr eraill. Roedd Virgin Media wedi lansio gwasanaethau 50 Mbps ar ei rwydwaith ar sail fasnachol yn hwyr yn 2008 ac mae bellach ar gael i bron hanner o gartrefi'r DU. Ym mis Gorffennaf 2008 roedd BT wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu buddsoddi £1.5 biliwn i ddefnyddio band eang cyflym iawn mewn hyd at 10 miliwn o eiddo erbyn 2010. Yn ogystal â Virgin Media a BT, ceir hefyd sefydliadau newydd sy'n buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn mewn ardaloedd penodol a datblygiadau adeiladau newydd.

4.76 Yn dilyn y cyhoeddiadau hyn am ddefnyddio gwasanaethau band eang cyflym iawn, rydym wedi dechrau ein hadolygiadau o'r marchnadoedd Mynediad Lleol Cyfanwerthu a Mynediad Band eang Cyfanwerthu, a byddwn yn trin y gwaith hwn fel blaenoriaeth ar gyfer 2010/11.

## Symudol

4.77 Er 2003 bu pum rhwydwaith symudol o un pen i'r llall yn y DU. Mae hyn yn fwy na'r nifer yn y rhan fwyaf o wledydd eraill Ewrop. Mae nifer fawr o weithredwyr rhith rwydwaith symudol yn darparu cystadleuaeth adwerthu ychwanegol.

4.78 Drwy gydol 2008 a 2009 roeddem wedi cynnal ein hasesiad o'n hagwedd rheoleiddio at symudol. Bwriad ein gwaith oedd asesu a yw ein hagwedd reoleiddio wedi arwain at fanteision i ddinasyddion a defnyddwyr a pha newidiadau, os o gwbl, gallai fod eu hangen i'r agwedd hon oherwydd datblygiadau yn y farchnad.

4.79 Daethom i'r casgliad bod cystadleuaeth yn y sector symudol wedi arwain at lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid a lefelau uchel o fforddiadwyedd ac nad oedd angen adolygiad llawn o'r farchnad ar hyn o bryd. Roeddem hefyd wedi dangos bod rhai grwpiau o ddefnyddwyr nad oeddent wedi elwa'n llawn o gystadleuaeth yn sector symudol y DU, yn benodol, defnyddwyr mewn ardaloedd digyswllt y tu allan i ardaloedd darpariaeth y rhwydweithiau, a defnyddwyr a chanddynt anghenion defnyddio penodol.

4.80 Fel rhan o'n gwaith parhaus yn 2010/11, byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i elwa o gystadleuaeth deg ac effeithiol wrth i'r farchnad ddatblygu. Byddwn yn canolbwyntio ar adolygu cyfraddau terfynu ond hefyd ar effaith unrhyw gyfuno potensial yn y farchnad.

## Teledu drwy Dalu

4.81 Gwelwyd twf sylweddol yn y farchnad teledu drwy dalu yn ystod y blynyddoedd diweddar, a bellach mae'n werth £4 biliwn y flwyddyn. Bellach mae refeniw tanysgrifiadau'n bwysicach na refeniw hysbysebu fel ffynhonnell cyllid i'r diwydiant darlledu. Mae'r diwydiant wedi gweld nifer o ddatblygiadau sylweddol, gyda rhagor o ddatblygiadau ar y gorwel, a fydd yn siapio'r sector am flynyddoedd. Mae'r rhain yn cynnwys dyfodiad llwyfannau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau teledu drwy dalu (teledu daearol digidol, IPTC a theledu symudol) a chyfuno, ailstrwythuro ac ail-frandio'r llwyfan cebl presennol.

4.82 Roeddem wedi agor ymchwiliad i'r farchnad ar y diwydiant teledu drwy dalu ar ôl cael sylwadau gan BT, Setanta, Top-Up TV a Virgin Media, yn gofyn i ni ymchwilio i'r farchnad, yn gynnar yn ystod 2007.

4.83 Dros dri ymgynghoriad, roeddem wedi dadansoddi'r farchnad ac wedi dod i'r farn bod gweithrediadau Sky yn cyfyngu dewis i ddefnyddwyr ac yn llesteirio arloesedd a datblygiad platfformau teledu. Fel ateb i hyn roeddem wedi cynnig mynnu i Sky gynnig sianeli premiwm penodol cyfanwerthol ar delerau wedi'u rheoleiddio. Rydym yn credu y byddai'r atebion a gynigiwyd yn arwain at alluogi defnyddwyr i gael gafael ar ddewis ehangach o becynnau cynnwys chwaraeon a ffilmiau, ar draws mwy o lwyfannau nag a welir ar hyn o bryd.

4.84 Rydym ar ganol dadansoddi ymatebion i'n trydydd ymgynghoriad a byddwn yn parhau i drin ein gwaith yn y maes hwn fel blaenoriaeth ar gyfer 2010/11.

## Rheolau reoleiddio a chyllido cynnwys

4.85 Fel yr ydym eisoes wedi'i weld, mae'r marchnadoedd sy'n cyllido creu cynnwys clywedol wedi gweld newidiadau sylweddol o ganlyniad i'r newid mewn cyfryngau

digidol a'r dirywiad economaidd. Mae'n bwysig felly sicrhau bod rheoleiddio'n aros yn addas i'r diben ar gyfer amodau'r farchnad sy'n newid yn gyflym.

4.86 Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod am agor ymgynghoriad cyhoeddus newydd yn ailystyried y gwaharddiad ar leoli cynnyrch ac egluro ei bod yn awr yn bwriadu caniatáu lleoli cynnyrch ar raglenni teledu yn y DU, yn amodol ar ddiogelwch ychwanegol penodol. Yn ymateb i hyn, byddwn yn adolygu agwedd Ofcom at reoleiddio cyfeiriadau masnachol ar deledu a radio.

4.87 Byddwn yn ystyried os yw'r gofyniad bod DGC yn gwerthu'r holl amser hysbysebu dal yn briodol ac os dylid cysoni'r rheolau ar gyfer DGC a sianelu eraill.

4.88 Byddwn yn monitro'r sector hysbysebion teledu'n ofalus a datblygiadau yn y farchnad, yn enwedig yng ngoleuni unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o'r adolygiad Adnewyddu Hawliau Contract gan y Comisiwn Cystadleuaeth ac unrhyw newidiadau eraill yn y dyfodol yn strwythur y farchnad neu mewn rheoliadau hysbysebu.

4.89 Bydd adolygu'r berthynas rhwng rheoleiddio a chyllido cynnwys yn faes gwaith parhaus i ni yn ystod 2010/11.

## Cynnal a chryfhau seilwaith cyfathrebu

4.90 Mae buddsoddi mewn seilwaith cyfathrebu modern yn rhagofyniad angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr busnes a phreswyl. Yn yr un modd â chystadleuaeth mae sicrhau buddsoddiad mewn seilwaith a sbectrwm felly'n nod pwysig sy'n cyfrannu at ein dyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

4.91 Mae lefel gyffredinol y buddsoddiad yn y seilwaith cyfathrebu wedi bod yn galonogol. Rydym wedi gweld buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith telathrebu sefydlog gan weithredwyr rhwydwaith yn defnyddio dadfwndelu dolen leol, yn ogystal â'r buddsoddi cyntaf mewn gwasanaethau band eang cyflym iawn. Yn y maes symudol rydym wedi gweld mwy o fuddsoddiad mewn rhwydweithiau 3G sy'n cefnogi band eang symudol. Ym maes darlledu, rydym wedi gweld buddsoddiad mewn gwasanaethau teledu manylder uwch dros loeren, cebl a theledu daearol digidol.

4.92 Fodd bynnag, er mwyn cynnal a chryfhau seilwaith, ceir nifer o faterion allweddol y mae arnom angen rhoi sylw iddynt yn ystod 2010/11.

4.93 Ac ystyried y gwerth posibl i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi'u galluogi gan sbectrwm, a phrinder sbectrwm fel adnodd, rydym wedi canolbwyntio llawer o'n gwaith ar reoli sbectrwm i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf. Mae rhyddhau sbectrwm yn rhan allweddol o hyn ac mae wedi parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.

### Clirio a rhyddhau sbectrwm

4.94 Mae newid gwasanaethau teledu i'r digidol yn rhoi cyfle i ryddhau llawer iawn o sbectrwm dan 1 GHz, h.y. y difidend digidol, mewn bandiau amledd sy'n arbennig o addas ar gyfer darlledu a dibenion band eang di-wifr. Ac ystyried maint y manteision i ddinasyddion a defnyddwyr drwy ryddhau'r difidend digidol, mae ein cynllun gwaith wedi ceisio sicrhau bod y sbectrwm a ryddheir drwy newid i'r digidol ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau newydd cyn gynted ag sy'n bosibl. Roeddem wedi amlinellu ac ymgynghori ynghylch ein hagwedd at ryddhau'r difidend digidol yn 2006 a 2007.

4.95 Yn ogystal â'r difidend digidol, ar hyn o bryd ceir 190 MHz o sbectrwm o ansawdd uchel yn y band 2.6 GHz (2500-2690 MHz) nad yw'n cael ei ddefnyddio gan fwyaf. Mae nodweddion y sbectrwm hwn yn golygu ei fod yn arbennig o addas ar gyfer defnyddio rhwydweithiau symudol, gan gynnwys rhwydweithiau sy'n defnyddio technolegau newydd megis LTE a WiMAX.

4.96 Ac ystyried y manteision posibl i ddinasyddion a defnyddwyr, roeddem wedi penderfynu ym mis Ebrill 2008 y dylid rhyddhau'r sbectrwm hwn cyn gynted ag sy'n bosibl, ac roeddem wedi amlinellu cynlluniau i gynnal yr arwerthiant yn ystod haf 2008.

4.97 Yn ogystal â hyn rydym hefyd wedi paratoi cynlluniau ar gyfer rhyddfrydoli bandiau sbectrwm 900 a 1800 MHz sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan weithredwyr symudol i ddarparu gwasanaethau 2G, er mwyn gallu darparu gwasanaethau 3G dros y bandiau sbectrwm.

4.98 O ganlyniad i nifer o ffactorau, rydym wedi gorfod addasu ein cynlluniau ar gyfer y band 2.6 GHz, y band 800 MHz a rhyddfrydoli'r sbectrwm 900 a 1800 MHz.

4.99 Ym mis Mehefin 2009 roeddem wedi penderfynu y gellid cynyddu'r fantais i ddinasyddion a defnyddwyr yn y DU drwy gysoni rhan uchaf difidend digidol y DU (y sbectrwm 800 MHz) â gwledydd eraill Ewrop, roedd nifer ohonynt wedi dechrau ystyried eu difidend digidol yn hwyrach o lawer na'r DU. Mae cysoni'r sbectrwm hwn yn debygol o hybu datblygu offer megis dyfeisiau data symudol ar raddfa fwy o lawer, ac o bosibl caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaethau symudol grwydro rhwng un rhwydwaith a'r llall mewn gwledydd Ewropeaidd gwahanol ac ar hyn o bryd mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried llunio deddfwriaeth i gysoni'r amodau technegol ar gyfer defnyddio'r band hwn.

4.100 O ganlyniad i'r penderfyniad i gysoni'r sbectrwm 800 MHz mae angen addasu'r cynlluniau gwreiddiol ar gyfer teledu daearol digidol. Bydd hyn yn effeithio ar faint o sbectrwm byddwn yn gallu ei glirio a'i ryddhau yn y band 600 MHz (rhan isaf y difidend digidol), ynghyd â lleoliad a swm y sbectrwm rhyngddalennog daearyddol ledled y DU. Ar hyn y o bryd mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda gwledydd cymdogol i roi'r newidiadau hyn ar waith, a byddwn yn ymgynghori ymhellach pan fydd canlyniad y trafodaethau rhyngwladol hyn yn hysbys.

4.101 Er ein bod wedi bwriadu rhyddhau'r band 2.6GHz yn 2008, nid oeddem yn gallu bwrw ymlaen â'r rhyddhau oherwydd cyfreitha.

4.102 Fel rhan o'r adroddiadau Prydain Ddigidol, roedd y Llywodraeth wedi penodi Brocer Sbectrwm Annibynnol yn 2009 i argymell dull i ryddfrydoli sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz a rhyddhau'r band 2.6 GHz. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar y rhan fwyaf o argymhellion y Brocer Sbectrwm Annibynnol a oedd yn cynnwys cydlynu rhyddhau'r sbectrwm 800 MHz gyda rhywfaint o'r band 2.6 GHz a gofyniad i'r rheini a oedd yn cynnig ceisiadau llwyddiannus i ildio rhywfaint o'r sbectrwm 900 MHz os ydynt yn cyflwyno cais llwyddiannus ar gyfer y sbectrwm 800 MHz. Rydym yn disgwyl am gyfarwyddyd posib gan y Llywodraeth ynghylch hyn.

4.103 Er mwyn sicrhau bod y sbectrwm a ddaw dan gynigion y Brocer Sbectrwm Annibynnol ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl, byddwn yn trin clirio'r band 800MHz i baratoi ar gyfer rhyddhau a gweithredu cyfarwyddyd y Llywodraeth ar bolisi sbectrwm fel blaenoriaeth ar gyfer 2010/11. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ar unrhyw faterion paratoadol yn ymwneud â ryddfrydoli 2.6GHz.

4.104 Rydym wedi parhau i ryddhau sbectrwm mewn ystod o fandiau eraill sy'n addas ar gyfer ystod o ddefnyddiau. Er enghraifft:

- Roeddem wedi rhyddhau 40 MHz o sbectrwm yn yr ystod 1452-1492 MHz (y Band L) yn 2008. Y cwmni technoleg ddi-wifr Qualcomm a enillodd yr arwerthiant. Byddai'n bosibl defnyddio'r sbectrwm hwn ar gyfer ystod o wasanaethau i ddefnyddwyr megis teledu symudol neu fand eang symudol neu radio darlledu;

- Roeddem wedi rhyddhau sbectrwm ar draws nifer o fandiau yn yr ystodau 10, 28, 32 a 40 GHz yn 2008. Mae'r sbectrwm hwn yn addas ar gyfer dolenni pwynt i bwynt, er enghraifft, o ran darparu gallu ôl-gludo i rwydweithiau symudol ar gyfer gwasanaethau data dwys a ddefnyddir gan ddefnyddwyr megis band eang symudol;

- Rydym hefyd wedi mynd â gwaith rhagddo i baratoi ar gyfer rhyddhau sbectrwm mewn bandiau eraill. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ymatebion i'n hymgynghoriad ar awdurdodi defnydd yn y bandiau 872/917 MHz, a gaeodd ym mis Tachwedd. Rydym hefyd yn adolygu ymatebion i'n hymgynghoriad ar ein cynigion i roi Mynediad Sbectrwm a Gydnabyddir gan y Goron yn y bandiau sbectrwm 3400 MHz i 3600 MHz. Byddai rhoi Mynediad Sbectrwm a Gydnabyddir i'r Goron yn galluogi cyrff cyhoeddus megis y Weinyddiaeth Amddiffyn i ryddhau sbectrwm i ddefnyddwyr newydd, gan gynhyrchu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau newydd a werthfawrogir gan ddinasyddion a defnyddwyr; ac

- Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2009, roeddem wedi cynnal y ddau arwerthiant cyntaf o sbectrwm rhyngddalennog daearyddol a fydd yn cael ei ryddhau o ganlyniad i DSO, ym Manceinion ac yng Nghaerdydd. Adeg ysgrifennu, mae'n debygol y bydd sbectrwm Manceinion yn cael ei ddefnyddio gan y Guardian Media Group ar gyfer ei wasanaeth teledu lleol Channel M ar deledu daearol digidol yn ardal Manceinion Fwyaf, ac roedd cwmni cynnwys amlgyfrwng Cube Interactive wedi prynu sbectrwm Caerdydd.

## Rhyddfrydoli a phrynu a gwerthu sbectrwm

4.105 Yn hanesyddol mae nifer o drwyddedau sbectrwm wedi cynnwys cyfyngiadau ar y gwasanaethau a'r dechnoleg y gellir eu defnyddio dros y bandiau sbectrwm penodol. Mae rhyddfrydoli sbectrwm yn lleihau neu'n dileu'r cyfyngiadau hyn ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r rheini sy'n dal y drwydded. Ar ben hyn, mae cefnogi prynu a gwerthu trwyddedau sbectrwm yn gyffredinol yn golygu bod modd cyflwyno gwasanaethau a thechnolegau newydd yn gynt gan hybu arloesedd a chystadleuaeth.

4.106 Pan fo'n bosibl, a phan fo'n cyd-fynd â'n dyletswyddau i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, rydym wedi rhyddfrydoli defnydd sbectrwm. Er enghraifft, ym mis Hydref 2009 ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, roeddem wedi cytuno i ryddfrydoli'r drwydded 3.5 GHz a oedd yn cael ei dal gan Freedom4, darparwr gwasanaeth band eang di-wifr. Mae hyn yn caniatáu iddynt gynyddu pŵer trosglwyddo (gan wella darpariaeth a derbyniad i'r cwsmeriaid) ac mae hefyd yn caniatáu iddynt gynnig gwasanaeth band eang symudol i'w cwsmeriaid.

4.107 Rydym wedi symleiddio nifer y trwyddedau radio busnes yn radical i'w gwneud yn fwy hyblyg ac yn haws eu prynu a'u gwerthu. Mae buddsoddiad mewn systemau TG wedi ein galluogi i gynyddu nifer y trwyddedau sbectrwm mae modd eu prynu a'u

gwerthu, sydd bellach dros 50,000 a'i gwneud yn haws prynu a gwerthu'r trwyddedau hyn. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi ansawdd gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr drwy ganiatáu iddynt ychwanegu gallu ychwanegol at rwydweithiau.

4.108 Rydym hefyd wedi gwneud gwaith i ryddhau sbectrwm a chaniatáu defnyddio sbectrwm heb drwydded mewn ffyrdd penodol o fewn bandiau penodol. Ym mis Gorffennaf 2009, roeddem wedi defnyddio offer sy'n caniatáu i ddefnyddwyr weithredu offer i ffrydio fideo manylder uwch o amgylch eu heiddo heb drwydded, ac ym mis Medi 2009 roeddem wedi rhyddfrydoli defnyddio offer band llydan iawn, gan ymestyn defnydd a ganiateir heb drwydded i gerbydau ac i drenau.

### Gweithgareddau sbectrwm eraill

4.109 Yn ogystal â'n gwaith ar sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, rydym hefyd yn gwneud gwaith sy'n ymwneud â sbectrwm sy'n cefnogi budd y cyhoedd. Mae gwaith yn y maes hwn yn cynnwys cefnogi newid i'r digidol a gwaith yn paratoi ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain.

#### Newid i'r Digidol

4.110 Rydym wedi parhau i weithio gyda Digital UK i gefnogi newid gwasanaethau teledu i'r digidol. Hyd yn hyn mae newid i'r digidol wedi cael ei gwblhau yn rhanbarthau'r Ffin, Gorllewin Lloegr a Granada, sy'n golygu dros 4 miliwn neu 18% o gartrefi'r DU. Mae newid i'r digidol yn mynd rhagddo yng Nghymru ar hyn o bryd.

4.111 Byddwn yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn i gefnogi gweithgarwch newid drwy gydol 2010/11, yn enwedig yng Ngogledd a Chanol yr Alban, lle mae'r newid yn dechrau yn 2010.

#### Gemau 2012 Llundain

4.112 Bydd Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain yn cael eu cynnal rhwng 27 Gorffennaf a 9 Medi 2012 mewn gwahanol leoliadau ar draws y DU. Bydd dibenion di-wifr yn chwarae rhan bwysig yn y cyfnod sy'n arwain at y gemau ac yn ystod y gemau. Mae trefnu sbectrwm i gefnogi'r dibenion hyn yn elfen allweddol sy'n cyfrannu at lwyddiant y Gemau.

4.113 Mae gan Ofcom gyfrifoldeb allweddol dros drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer y digwyddiad, gan drwyddedu defnyddwyr a rheoli unrhyw ymyrraeth yn ystod y digwyddiad ei hun. Dyma fydd yr ymarfer rheoli sbectrwm mwyaf a fydd wedi cael ei wneud ers creu Ofcom. Ein prif amcan yw cyfrannu at ddigwyddiad llwyddiannus drwy sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan amharu cyn lleied â phosibl ar y defnyddwyr presennol a drwy amddiffyn rhag ymyrraeth niweidiol yn ystod y Gemau eu hunain.

4.114 Bydd sicrhau darpariaeth gwasanaethau di-wifr ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 Llundain ac yn benodol creu fframwaith ar gyfer trwyddedu sbectrwm Olympaidd a dechrau rhoi ein cynlluniau gweithredol ar waith yn flaenoriaeth i ni ar gyfer 2010/11.

## Cefnogi anghenion defnyddwyr a dinasyddion yn Rhanbarthau Lloegr Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru

4.115 Rydym yn cydnabod bod profiadau, gofidion ac anghenion dinasyddion a defnyddwyr, yn cynnwys busnesau, yn wahanol yn dibynnu are u lleoliad yn y DU. Rhan hanfodol o'n gwaith yw ystyried sut mae materion yn effeithio defnyddwyr a dinasyddion yng ngwahanol rannau o'r wlad.

4.116 Rydym wedi bod â thair prif haen o weithgarwch parhaus yn ein swyddfeydd yn y Gwledydd, sydd wedi canolbwyntio ar argaeledd a defnyddio gwasanaethau digidol, materion sy'n ymwneud â chynnwys cenedlaethol a lleol ar y teledu a'r radio, yn ogystal â materion gwleidyddol, yn enwedig cysylltu â Gweinyddiaethau datganoledig a chynrychiolwyr etholedig lleol.

4.117 Mae ein rhaglen gwaith yn cymryd i'r afael anghenion dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU. Wrth lunio'r cynllun blynyddol yma rydym wedi ymgysylltu gyda'n Pwyllgorau Ymgynghorol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru i drafod eu blaenoriaethau. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y Gwledydd ar gyfer 2010/11:

- deall anghenion defnyddwyr busnes bach;
- darpariaeth band eang a symudol,
- darparu cynnwys teledu a radio lleol,
- cyfranogiad digidol a
- opsiynnau ar gyfer ddefnyddio sbectrwm yn effeithlon.

4.118 Caiff y rhain eu trin gan feysydd gwaith parhaus a blaenoriaethau Ofcom ar gyfer 2010/11 ac rydym yn amlinellu ein gwaith blaenorol a'n gwaith arfaethedig ym mhob un o'r meysydd hyn uchod.

4.119 Bydd deall profiadau ac anghenion dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU yn parhau'n ffocws sy'n tanseilio'n gwaith. Fel rhan o'n holl weithgareddau rydym yn ystyried sut mae ein gwaith a'u hallbynnau'n ymwneud â phob Gwlad yn y DU.

## Darparu gwerth am arian i randdeiliaid

4.120 Ers ei sefydlu, mae Ofcom wedi sicrhau gostyngiadau olynol mewn termau real yn ei gyllideb i gyflwyno gwerth am arian i randdeiliaid. Ni fydd 2010/11 ddim gwahanol er ein bod yn gweithio mewn amgylchedd sy'n fwy dyrys.

4.121 Caiff ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gwerth am arian ei ddangos drwy'r arbedion a gyflawnwyd yn 2009/10 a'r rhaglen o gynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer 2010/11.

4.122 Caiff arbedion yn 2009/10 eu cyflawni drwy:

- gwblhau'r rhaglen adnewyddu systemau gwybodaeth a oedd yn cyflwyno ateb ar gyfer yr holl sefydliad sy'n ymwneud â thrwyddedu sbectrwm, cyllid, adnoddau dynol a chaffael. Cafwyd arbedion drwy roi'r gorau i ddefnyddio hen raglenni ac osgoi costau datblygu systemau newydd;

- dau gynllun gwasanaeth cwsmeriaid: gweithredu ateb talu ar-lein a darparu porth e-drwyddedu ar gyfer trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Di-wifr; mae hyn wedi arwain at effeithlonrwydd gweinyddol yn ogystal â gwell profiadau i gwsmeriaid;

- newid cerbydau gweithrediadau yn y maes a oedd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Mae newid dewisiadau cyllido offer cyfalaf wedi arwain at gostau gweithredu is;

- gweithredu fframwaith caffael ar gyfer darparu gwasanaethau ymchwil ac ymgynghoriaeth. Mae hyn wedi dangos arbedion gweinyddol;

- rheoli'r capital yn rhagweithiol ac yn effeithiol. Mae hyn wedi lliniaru effaith y cyfraddau llog isel ac wedi cynyddu ein hincwm llog yr ydym yn ei roi'n ôl i randdeiliaid yn eu biliau; a

- cyflwyno optimeiddiwr egni i leihau'r defnydd o drydan a sicrhau prisiau is gyda'n darparwyr egni . Mae'r ddau'n rhan o'n rhaglen barhaol ar gyfer effeithlonrwydd a lleihau ein hôl troed carbon.

4.123 Mae rhaglen o ragor o gynlluniau ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad, gan gynnwys:

- parhau i resymoli ystadau gweinydd SG a gwelliannau amgylcheddol, i leihau costau ac i gyfrannu at gyflawni ein targed i leihau ein hôl troed carbon;

- ail-dendro rhai o'n contractau yn enwedig y rhai SG a rheolaeth cyfleusterau sydd ar gontract allanol. Bydd hyn yn gwella gwerth am arian a newid y gymysgedd o wasanaethau a ddarperir gan y model presennol;

- rhoi cytundebau fframwaith pellach ar waith i ddarparu gwerth am arian, effeithlonrwydd proses a rhoi mwy o dryloywder a chydymffurfiaeth wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau; a

- cael darparwr gwasanaeth ar gyfer staff dros dro ac asiantaeth. Bydd hyn yn darparu gwerth am arian, effeithlonrwydd proses, mwy o ddewis ac yn gwella ansawdd ymgeiswyr.

## Darparu canlyniadau cadarnhaol drwy reoleiddio effeithiol

4.124 Mae ein hegwyddorion rheoleiddio'n cynnwys ymrwymiad clir i ogwyddo yn erbyn ymyrryd. Nod hyn yw sicrhau ein bod yn rheoleiddio dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol. Gallai gormod o ymyrryd ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Mae ymyriadau nad ydynt wedi'u targedu'n gywir hefyd yn peri'r risg o achosi canlyniadau diangen neu nas fwriadwyd. Pan welir bod ymyrryd yn angenrheidiol byddwn yn gweithredu'n bendant ac yn gyson gan ddilyn egwyddorion Gwell Rheoleiddio drwy fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ein targedu at achosion lle mae angen cymryd camau.

4.125 Yn ystod 2009, rydym wedi cymryd camau pwysig i liniaru beichiau rheoleiddio a symleiddio , a byddwn yn parhau â rhai ohonynt yn 2010. Gan gynnwys:

- cael gwared â'r beichiau rheoleiddiol olaf yn y farchnad teleffoni sefydlog ar lefel adwerthu a lleihau'r lefel o reoleiddio ar lefel cyfanwerthu;
- argymell i'r Llywodraeth ddileu dwy reol yn ymwneud â pherchnogaeth radio a llacio rheolau perchnogaeth ar draws cyfryngau lleol;
- Llacio dyletswyddau trwyddedu Sianel 3 a 5 yn dilyn ein hail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus;
- Cwblhau prosiect Unify, darparu systemau SG integredig newydd sy'n golygu bellach ein bod yn gallu cynnig gwasanaethau mwy effeithiol i'n rhanddeiliaid;
- gwneud yn haws prynu a gwerthu sbectrwm; er mwyn hwyluso mynediad fusnesau at yr amleddau radio sydd angen arnynt; a
- adolygiad i bennu ag yw'r cyfyngiadau cyfredol o ran hysbysebu ar sianelu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn briodol.

4.126 Mae manylion ein cynlluniau parhaus a'n cynlluniau newydd ar gyfer symleiddio a dadreoleiddio yn Atodiad 3.

4.127 Mae Ofcom yn dal yn ymrwymedig i leihau a symleiddio rheoleiddio cymhleth neu ddianghenraid, ar yr un pryd â gwella'r gwerth am arian rydym yn ei ddarparu i randdeiliaid drwy wireddu effeithlonrwydd gweithredol. Bydd hyn yn dal yn ffocws pwysig i'n holl waith ar gyfer 2010/11.


## Adran 5

# Rhaglen waith a blaenoriaethau 2010/11 Ofcom

## Rhaglen waith 2010/11 Ofcom

5.1 Er y bu canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr ar draws y sector cyfathrebu, byddwn yn gweithio i barhau i symud ymlaen o ran ein cyfrifoldebau a'n nodau a byddwn yn mynd i'r afael â materion newydd wrth iddynt ddod i'r fei.

5.2 Ar sail ein dadansoddiad o ganlyniadau hyd yn hyn, rydym wedi dod o hyd i naw blaenoriaeth sy'n ymwneud â dinasyddion a defnyddwyr y mae arnom eisiau symud ymlaen yn sylweddol arnynt dros y flwyddyn nesaf.




5.3 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn mae gennym nifer o feysydd gwaith parhaus eraill ar gyfer Ofcom sy'n adlewyrchu ein dyletswyddau parhaus.

5.4 Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y meysydd blaenoriaeth hyn yn cael digon o adnoddau i sicrhau bod ein cynlluniau'n cael eu cyflawni. Pan fydd gofynion ychwanegol o ran adnoddau'n codi yn ystod y flwyddyn oherwydd datblygiadau annisgwyl, bydd y meysydd blaenoriaeth hyn yn cael blaenoriaeth dros feysydd gweithgarwch eraill.

5.5 Fodd bynnag, nid yw dynodi meysydd blaenoriaeth yn golygu nad yw meysydd gwaith parhaus ar gyfer 2010/11 yn bwysig hefyd. Mae'r holl feysydd gwaith gwahanol yr ydym wedi'u pennu wedi cael eu dynodi yn ystod ein proses gynllunio fel meysydd sy'n allweddol er mwyn i ni gyflawni'n dyletswyddau. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod ein cynlluniau yn holl feysydd ein rhaglen waith yn cael eu cyflawni i'r safon uchaf bosibl.

5.6 Rydym wedi grwpio ein blaenoriaethau a meysydd gwaith eraill dan dair prif gategori sy'n adlewyrchu prif nodau a dyletswyddau Ofcom, sef: defnyddwyr a dinasyddion; cystadleuaeth; a seilwaith a sbectrwm. Ar ben hyn, mae rhai o'n meysydd gwaith yn ymestyn dros weithgareddau Ofcom.

5.7 Mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion prosiectau ym mhob maes gwaith ar gyfer 2010/11.

5.8 Yn ystod 2010/11 byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'n rhanddeiliaid gan gynnwys cadw'r tonnau awyr yn rhydd rhag ymyrraeth, dyrannu ystodau rhifau ffôn a darparu gwasanaethau gwybodaeth fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf

Cyfathrebiadau. Mae Atodiad 2 yn amlinellu pa wasanaethau penodol byddwn yn parhau i'w darparu i'n rhanddeiliaid.

## Mynd i'r afael yn effeithiol â materion newydd a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn

5.9 Mae ein profiad dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod cymhlethdod a chyflymder natur y newidiadau yn y sector cyfathrebu yn golygu ei bod yn anochel y bydd materion annisgwyl yn codi. Mae hyn yn arbennig o wir mewn hinsawdd economaidd ansicr a chyfnewidiol ac wrth weithredu *Adroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol* y Llywodraeth a deddfwriaeth arfaethedig. Ar ben hyn, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau, ac anghydfodau mae'n rhaid i ni ymateb iddynt a'u datrys, sy'n galw am ddelio â llawer o adnoddau.

5.10 Rydym yn bwriadu cadw hyblygrwydd yng nghynllun blynyddol 2010/11. Rydym yn bwriadu ailedrych ar ein rhaglen waith os daw newidiadau deddfwriaethol i rym a fydd yn deillio o'r *Mesur Economi Ddigidol*, a fydd yn cynnwys newidiadau arfaethedig i ddyletswyddau Ofcom.

5.11 Rydym wedi amlinellu'r cymalau yn y Bil Economi Ddigidol sy'n berthnasol i Ofcom yn Ffigur 10 isod. Mae'r cymalau hyn i gyd yn amodol ar ddadl Seneddol. Byddwn yn adlewyrchu'r canlyniadau terfynol yn ein gwaith.

**Ffigur 10 – Pwerau a dyletswyddau arfaethedig Ofcom fel yr argymhellwyd gan y Mesur Economi Ddigidol**

| Maes gwaith | Pwerau a dyletswyddau arfaethedig newydd |
|---|---|
| Buddsoddiad mewn seilwaith | • Dyletswydd i hybu lefelau priodol o fuddsoddiad effeithlon yn y seilwaith cyfathrebu<br>• Dyletswydd i ddarparu asesiad o seilwaith cyfathrebu'r DU bob 2 flynedd |
| Cynnwys gwasanaeth cyhoeddus | • Dyletswydd i hybu buddsoddiad mewn cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus<br>• Dyletswydd i adrodd am gyflawni'r amcanion gwasanaeth cyhoeddus gan ystyried gwasanaethau cyfryngau gan gynnwys teledu, radio, gwasanaethau ar-alw a gwasanaethau eraill a ddarperir drwy'r rhyngrwyd.<br>• Dyletswydd i adolygu datganiad blynyddol C4C ar bolisi cynnwys cyfryngau (gan gynnwys gwasanaethau ar-lein)<br>• Dyletswydd i adrodd i'r Llywodraeth ynghylch a yw'r drwydded gwasanaeth teledestun cyhoeddus yn dal yn fasnachol hyfyw ac ynghylch gwerth parhau â'r gwasanaeth i'r cyhoedd. Yn amodol ar y casgliadau, byddai Ofcom naill ai'n parhau â'r broses ail-drwyddedu neu byddai'r Llywodraeth yn dileu'r ddyletswydd arnynt i ail-drwyddedu.<br>• Swyddogaeth newydd i Ofcom benodi a chyllido Consortia Newyddion a Gyllidir yn Annibynnol |

| | |
|---|---|
| Rhannu ffeiliau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | • Dull gweithredu 2 gam i fynd i'r afael â rhannu ffeiliau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Yng ngham 1, byddai gan Ofcom ddyletswydd i adrodd am effeithiolrwydd y dyletswyddau cychwynnol ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol (rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd anfon hysbysiadau i'r tanysgrifwyr hynny y mae'r rheini sy'n dal yr hawliau'n honni iddynt dorri hawlfraint, a chofnodi nifer yr hysbysiadau sy'n gysylltiedig â phob tanysgrifiwr a darparu'r data hwn i'r rheini sy'n dal yr hawliau ar sail ddienw ar gais)<br>Yng ngham 2, byddai Ofcom yn cynnal asesiad o effeithlonrwydd y mesurau technegol yn ogystal â datblygu'r côd a fyddai'n berthnasol i weithredu mesurau ychwanegol o'r fath, a chyflwyno hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol |
| Enwau parth | • Gofyniad i gynhyrchu adroddiad am weithredu cofrestri enwau parth, ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol |
| Radio | • Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu dyddiad ar gyfer newid i'r digidol gyda radio, rhaid i Ofcom derfynu trwyddedau analog perthnasol drwy roi 2 flynedd o rybudd er mwyn hwyluso dyddiad diwedd cyffredin<br>• Pwerau i ailstrwythuro amlblecsyddion DAB presennol drwy ddiffinio ardaloedd mwy lle gellir darlledu rhaglenni ac felly caniatáu cyd-leoli haws. |
| Rheoli sbectrwm | • Caniatáu i Ofcom, mewn rhai achosion, lunio rheoliadau sy'n pennu'r ffioedd sy'n daladwy yn ystod tymor trwydded i rai trwyddedau telegraffiaeth di-wifr penodol a ddyrennir drwy arwerthiant, a gofyn bod peth o'r arian am drwydded sy'n cael ei ddyrannu drwy arwerthiant yn cael ei dalu i gyn daliwr y drwydded.<br>• Pŵer i roi cosbau ariannol am fynd yn groes i rai darpariaethau trwydded |

## Cwestiynau ymgynghori

5.12 Rydym yn ceisio barn gan ein holl randdeiliaid am y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2010/11. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylw i'r cwestiynau canlynol:

1) *Beth yw eich barn am raglen waith arfaethedig Ofcom ar gyfer 2010/11?*

2) *Beth yw eich barn am flaenoriaethau arfaethedig Ofcom ar gyfer 2010/11?*

5.13 Mae Atodiad 4 - 6 yn cynnwys manylion ynghylch sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

## Atodiad 1

# Rhaglen waith fanwl

A1.1 Dyma fanylion y gwaith rydym yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2010/11 ar gyfer ein meysydd gwaith blaenoriaeth a'n prif feysydd gwaith parhaus.

## Defnyddwyr a Dinasyddion

### Blaenoriaethau ar gyfer 2010/11

<u>Annog defnyddwyr i ymgymryd â, a defnyddio gwasanaethau band eang wrth gefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol</u>

A1.2 Gofynnwyd i Ofcom arwain y Consortiwm Cyfranogiad Digidol a datblygu a darparu Rhaglen Marchnata Gymdeithasol a Gwaith Maes wedi'i Dargedu a chreu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Digidol.

A1.3 Cytunir ar y rhaglen waith a'r blaenoriaethau gyda'r Llywodraeth a disgwylir y bydd y *Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Digidol* yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn ystod y gwanwyn. Bydd yn amlinellu cynlluniau ar gyfer Rhaglen Marchnata Gymdeithasol a Gwaith Maes wedi'i Dargedu a anelir at newid agweddau ac ymddygiad y cyhoedd ar draws tair haen Cyfranogiad Digidol: Cynhwysiant Digidol, Sgiliau Bywyd Digidol a Llythrennedd yn y Cyfryngau Digidol.

A1.4 Yn ystod camau cynnar y gwaith, mae'n debygol y bydd cynyddu cyrhaeddiad (nifer y bobl ar-lein) yn flaenoriaeth allweddol. Wrth i fwy o bobl fynd ar-lein bydd y Consortiwm yn gallu cynyddu ei ymdrechion i hyrwyddo hyd a lled y defnydd (ar gyfer trafodion cymdeithasol a masnachol, cyfranogi ac ymgysylltu mewn cymdeithas).

A1.5 Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon eu cynrychioli ar y Consortiwm ac maent yn gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o nodi a gwella gwaith y Consortiwm yn y Gwledydd.

A1.6 Mae swyddfeydd Ofcom yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd wedi sefydlu rhwydweithiau Llythrennedd yn y Cyfryngau ym mhob un o'r gwledydd datganoledig. Caiff aelod y Consortiwm o bob Gwlad ei gynrychioli ar y rhwydweithiau hyn a chynigir i'r rhwydweithiau ymestyn eu cylch gwaith i fod yn 'ganolfannau' lleol ar gyfer hyrwyddo Cyfranogiad Digidol. Prif ddiben y canolfannau hyn fydd hyrwyddo Cyfranogiad Digidol yn weithredol drwy gynyddu ac ymestyn negeseuon craidd y Consortiwm i gynulleidfaoedd lleol drwy ddefnyddio sianeli cyfathrebu lleol a rhaglenni gwaith maes lleol. Bydd y canolfannau hefyd yn rhoi gwybodaeth ac adborth i'r Consortiwm drwy'r cynrychiolydd cenedlaethol a/neu Gadeirydd y Ganolfan.

A1.7 Mae cydweithwyr Ofcom yn y gwledydd hefyd yn ymwneud â datblygu strategaethau Cyfranogiad Digidol lleol a fydd yn cyfrannu at y *Cynllun Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Cyfranogiad Digidol*.

## Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu newid darparwyr trwy gael gwared â rhwystrau diangen

A1.8 Dros y flwyddyn nesaf mae arnom eisiau symud ymlaen yn sylweddol i sicrhau effeithiolrwydd gweithdrefnau newid. Bydd ein gwaith yn cynnwys:

*Effeithiolrwydd prosesau newid*

A1.9 Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith ar wella prosesau newid cyflenwyr er mwyn sicrhau nad yw'r prosesau newid cyfredol yn llesteirio gallu defnyddwyr i newid - ar gyfer newid un cynnyrch ac yng nghyswllt cynhyrchion wedi'u bwndelu.

A1.10 Rydym wedi dechrau prosiect sy'n edrych ar brosesau newid, a'r graddau maent yn hyrwyddo newid a chystadleuaeth. Nod y prosiect hwn fydd datblygu dull gweithredu strategol at newid a sicrhau nad oes gormod o rwystrau sy'n atal newid.

A1.11 Bydd cwmpas ein gwaith yn berthnasol i ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig eu maint (10 o weithwyr neu lai).

*Contractau treigl*

A1.12 Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith i ddeall ac asesu effaith contractau treigl ar ymddygiad defnyddwyr ac ar gystadleuaeth. Os byddwn yn dod o hyd i dystiolaeth bod contractau treigl yn achosi niwed neu effaith andwyol ar gystadleuaeth, efallai y bydd arnom eisiau camu i mewn.

*Hygludedd rhifau ffôn symudol*

A1.13 Er bod y broses bresennol ar gyfer trosglwyddo rhifau ffôn symudol yn gweithio'n dda i nifer o ddefnyddwyr, mae tystiolaeth yn dangos y gallai achosi anawsterau ac oedi i leiafrif sylweddol o ddefnyddwyr. Ar ben hynny, efallai y bydd yn rhaid cyflwyno newidiadau i sicrhau bod y broses yn y DU wedi'i halinio â chynigion Ewropeaidd ar gyfer trosglwyddo undydd ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Ein nod yw mynd â'n cynigion rhagddynt i wella prosesau trosglwyddo rhifau symudol ac ymgynghori ar ein penderfyniad terfynol yn 2010.

A1.14 Rydym hefyd yn bwriadu dod i benderfyniad ynghylch a oes achos dros newid y ffordd y caiff galwadau i rifau ffôn symudol sydd wedi'u trosglwyddo eu llwybro ac os felly, a oes angen rhagor o ymyrryd rheoleiddio.

## Symud ymlaen o ran ardaloedd digyswllt band eang a ffonau symudol

A1.15 Mae arnom eisiau gwella ein dealltwriaeth o raddfa'r ardaloedd digyswllt, yr hyn sy'n eu hachosi a chynlluniau cefnogi sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â'r broblem.

A1.16 Ar gyfer band eang, roedd y Llywodraeth wedi gosod allan ei bwriad i gyflawni Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredin ar 2 Mbps erbyn 2012 fel rhan o'r *Adroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol*. Byddwn yn parhau i ddarparu arbenigedd a chefnogaeth i weithredu'r Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredin pan fydd hynny'n berthnasol.

A1.17 Ar gyfer symudol, bydd Ofcom yn canolbwyntio ar ardaloedd digyswllt parhaus ac yn gweithio lle bydd modd i gael darpariaeth symudol well drwy ymchwilio i'r hyn sy'n achosi rhai ardaloedd digyswllt symudol parhaus lle ceir derbyniad gwael neu

ddim o gwbl. Bydd Ofcom hefyd yn cynnal ymchwil i archwilio ansawdd technegol gwasanaethau megis cyflymder band eang a gaiff defnyddwyr o ddyfeisiau symudol.

Addasu rheoleiddio cynnwys i gwrdd ag anghenion newidiol cynulleidfaoedd

A1.18 Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar ei hagwedd at weithredu'r *Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyfryngau Clywedol* yng nghyfraith y DU. Mae deddfwriaeth y DU sy'n rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith yn creu nifer o ddyletswyddau newydd ar gyfer Ofcom. Yn anad dim arall, bydd yn rhaid i Ofcom greu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau fideo-ar-alw sy'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rhai safonau sylfaenol sy'n berthnasol i gynnwys a hysbysebu ac sy'n rhoi diogon o warchodaeth i'r cyhoedd. Yn ystod 2010/11 byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a defnyddwyr i sicrhau a chodi ymwybyddiaeth o'r cynllun rheoleiddio newydd a fydd yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

A1.19 Ar ben hynny, byddwn hefyd yn ystyried yn ehangach sut a ble mae angen i reoleiddio cynnwys cael ei addasu fel y ffordd mae defnyddwyr yn defnyddio ac yn cael gafael ar newidiadau i gynnwys, yn enwedig wrth feddwl bod cynnydd mawr mewn gwrando a gwylio dros y rhyngrwyd.

## Meysydd gwaith parhaus

Sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael, bod pobl yn eu defnyddio ac yn eu defnyddio'n effeithiol

A1.20 Yn ogystal â chefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Digidol a symud ymlaen yng nghyswllt ardaloedd digyswllt band eang a symudol a grybwyllwyd yn gynharach fel blaenoriaethau Ofcom ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith yn y meysydd canlynol:

*Adolygu'r Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin*

A1.21 Yn 2010, rydym yn disgwyl cyhoeddi ein dogfen ymgynghori gyntaf ar *Wasanaeth Cyffredin: Fframwaith ar gyfer Adolygu.* Ein nodau yn yr Adolygiad yw asesu'r ffordd mae'r Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin yn gweithio ar hyn o bryd: pa mor addas yw i'w ddiben a graddfa unrhyw faich ariannol mae'n ei roi. Byddwn felly'n ymgynghori ar ein fframwaith ar gyfer asesu'r gost net i BT a Kingston yn sgil darparu'r Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin a hefyd ar fframwaith ar gyfer asesu gwerth cymdeithasol y Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin.

*Gwasanaethau i bobl anabl*

A1.22 Fel rhan o'n dyletswyddau, rhaid i ni ystyried anghenion pobl ag anableddau a'r henoed wrth gyflawni ein gwaith.

A1.23 Yn ystod hydref 2009 roeddem wedi ymgynghori ar adolygiad o Wasanaethau Mynediad Teledu. Roedd ein hymgynghoriad yn ystyried y fframwaith cyfredol ar gyfer darparu is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, yng ngoleuni'r datganiadau economaidd a thechnegol i sicrhau bod y Côd Gwasanaethau Mynediad yn dal i ddarparu gwasanaethau mynediad i ddinasyddion a defnyddwyr mewn ffordd gymesur ac effeithiol. Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad am y canlyniad yn ein hadolygiad yn 2010.

A1.24 Rydym hefyd yn ystyried dyfodol gwasanaethau cyfnewid testun a ddefnyddir gan bobl sydd â nam ar eu clyw i ffonio. Byddwn yn archwilio'r achos dros fynnu darparu gwasanaethau cyfnewid testun gwell neu ychwanegol fel rhan o'r Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredin. Byddwn hefyd yn adolygu Amodau Cyffredinol Hawliau fel canlyniad i'r newidiadau i'r Cyfarwyddyd Gwasanaeth Cyffredinol Ewropeaidd sydd bellach yn gosod allan gwarantau ar gyfer mynediad gweithredol cyfartal a dewis i ddefnyddwyr anabl.

*Offer hawdd ei ddefnyddio*

A1.25 Mae gan Ofcom ddyletswydd i hyrwyddo datblygu ac argaeledd offer hawdd ei ddefnyddio ar gyfer defnyddwyr. Er nad oes dim pwerau ynghlwm wrth y dyletswyddau hyn, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein dylanwad a gweithio gydag ystod o sefydliadau i hyrwyddo hwylustod defnyddio a mynediad. Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth i'r Llywodraeth yng nghyswllt adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o'r Gyfarwyddeb Offer Terfynell Radio a Thelathrebu.

*Llythrennedd yn y Cyfryngau*

A1.26 Bydd ein gwaith llythrennedd yn y cyfryngau yn 2010/11 yn cynnwys:

- Parhau i gynnal rhaglen ymchwil sy'n ein helpu i ddod o hyd i sgiliau neu fylchau a phroblemau, yn cyfarwyddo ein gweithgarwch ac yn mesur ein cynnydd at gyflawni ein nodau.
- Parhau i weithio gydag ystod o bartneriaid a'u cefnogi, gan gynnwys darparwyr addysg, canolfannau ar-lein y DU, llyfrgelloedd a rhwydweithiau cefnogi eraill, i sicrhau bod llythrennedd yn y cyfryngau'n cael eu hyrwyddo ymysg poblogaeth y DU.
- Datblygu rhwydweithiau Llythrennedd yn y Cyfryngau gweithredol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhwydweithiau hyn yn darparu ystod o weithgareddau a digwyddiadau a byddwn yn parhau i gefnogi eu gwaith.
- Cefnogi gwaith Cyngor y DU dros Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd.
- Trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau ar gyfer y Grŵp Seneddol Cysylltiedig ar Lythrennedd yn y Cyfryngau. Cyhoeddi ein e-fwletin misol sy'n galluogi ystod eang o fudiadau i hyrwyddo eu gwaith llythrennedd yn y cyfryngau.
- Rhannu'r arferion gorau o ran hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau ledled Ewrop a thu hwnt.

## Amddiffyn defnyddwyr a chynulleidfaoedd rhag niwed ac arferion annheg

A1.27 Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, byddwn yn parhau i weithio at sicrhau bod rheoliadau a mecanweithiau amddiffyn defnyddwyr priodol ar waith a chymryd camau gorfodi lle na chydymffurfir yn ddigonol.

A1.28 Yn 2010/11 byddwn yn symud gwaith ymlaen i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn yn well rhag posibilrwydd cam-werthu gwasanaethau llais llinell sefydlog, gan gynnwys slamio. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad ynghylch a oes angen gwella'r rheoliadau presennol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu i fynd i'r afael â phroblemau newid ble mae

defnyddwyr yn newid darparwyr heb ei wybod neu drwy gamsyniad a byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith ar alwadau mud sy'n gallu achosi cryn boen a phryder i ddefnyddwyr.

A1.29 Gall materion newydd godi hefyd yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i gwynion a drwy ganlyniadau datrys anghydfodau eraill, a byddwn yn cadw cyfran o'n gallu er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r rheini.

A1.30 Byddwn hefyd yn parhau i ystyried cwynion i Ofcom gan gynulleidfaoedd am nifer o feysydd megis diogelu pobl dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd a bod yn ddiduedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion.

Adolygu a hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr

A1.31 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn gweithio i wella'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr drwy barhau i gefnogi ein cynllun achredu ar gyfer gwefannau cymharu prisiau.

A1.32 Hefyd, byddwn yn gweithio i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth ansawdd gwasanaeth perthnasol i'w grymuso i wneud dewisiadau gwybodus yn y farchnad. Byddwn yn datblygu dewisiadau ar sail ein hymchwil i foddhad a phrofiad defnyddwyr o wasanaeth cwsmeriaid darparwyr cyfathrebu ac anghenion defnyddwyr am wybodaeth am hyn.

A1.33 Byddwn yn ystyried dewisiadau ar gyfer casglu a chyhoeddi data am gyflymder band eang yn y tymor hir a byddwn yn ceisio deall agweddau eraill ar berfformiad band eang cymharol sy'n bwysig i ddefnyddwyr megis cyflymder llwytho i fyny neu ansawdd ffrydio fideo, ac yn ystyried rhinweddau darparu'r wybodaeth hon hefyd.

Deall profiadau defnyddwyr busnes

A1.34 Yn dilyn y gwaith a wnaed eleni er mwyn deall profiad defnyddwyr busnes sydd â phump cyflogai neu fwy yn well, yn 2010/11 byddwn yn gwneud ymchwil fydd yn canolbwyntio'n benodol ar fusnesau bach iawn.

## Cystadleuaeth

### Blaenoriaethau ar gyfer 2010/11

Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn Teledu drwy Dalu

A1.35 Yn dilyn tri ymgynghori ar y farchnad teledu drwy dalu, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad sy'n rhoi ein penderfyniad yn ystod chwarter cyntaf 2010.

A1.36 Fel y dywedwyd yn ymgynghoriad Mehefin 2009 rydym yn edrych ymhellach ar ddau ymyriad posibl wedi'u targedu i werthu a phrynu hawliau cynnwys allweddol penodol:

- Hawliau tanysgrifio ffilmiau fideo-ar-alw, a welsom yn cael eu gwerthu i Sky ond ni chânt eu defnyddio'n llawn.

- Roeddem wedi mynegi bwriad i gynnal trafodaethau ag Uwch gynghrair Cymdeithas Pêl-droed Lloegr ynghylch sut y gellid sicrhau hawliau arwerthiannau yn y dyfodol er mwyn cydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth,

ac ystyried bod mesurau presennol y Comisiwn Ewropeaidd yn dod i ben yn 2012.

Gweithredu fframwaith rheoleiddio i gefnogi cystadleuaeth effeithiol a fuddsoddiant mewn band eang cyflym iawn

A1.37 Yn ystod 2010/11 byddwn yn cynnal adolygiadau o'r marchnadoedd mynediad lleol cyfanwerthu a mynediad band eang cyfanwerthu. Bydd ein hadolygiadau o'r marchnadoedd yn ystyried i ba raddau y mae defnyddio gwasanaeth band eang cyflym iawn yn debygol o ddigwydd yn y pedair blynedd nesaf ac asesu'r dull rheoleiddio priodol y mae ei angen i gefnogi cystadleuaeth effeithiol yn yr amgylchedd hwn sy'n datblygu. Felly, bydd yr adolygiadau hyn yn rhan allweddol o weithredu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer rhwydweithiau craidd a mynediad y genhedlaeth nesaf. Ar ben hynny, byddant yn adolygu effeithiolrwydd yr atebion rheoleiddio a roddwyd yn yr adolygiad mynediad lleol cyfanwerthu blaenorol yn 2004 (megis dadfwndelu dolen leol) a'r adolygiad mynediad band eang cyfanwerthu diwethaf yn 2008.

**Meysydd gwaith parhaus cystadleuaeth**

Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn telathrebu

A1.38 Yn ystod 2010/11 byddwn yn gweithio ar reolaeth ffioedd ar gyfer Mynediad Llinell Analog Cyfanwerthu a Mynediad Lleol (llinellau ffôn). Byddwn yn adolygu rheolaeth ffioedd ar gyfer dadfwndelu dolen leol a rhentu llinell cyfanwerthu a ddaw i ben ym mis Mawrth 2011.

A1.39 Byddwn yn adolygu sut rydym yn trin costau pensiwn mewn ffioedd wedi'u rheoleiddio. Mae hyn yn fater eithriadol o bwysig i BT, sydd ag un o'r cynlluniau pensiwn mwyaf yn y DU, ac sy'n gwneud taliadau trwsio diffyg mawr i'w ymddiriedolwyr yn flynyddol. Mae BT yn mynnu ein bod yn ystyried y taliadau hyn fel rhan o'u sylfaen cost yn y prisiau rydym yn eu rheoleiddio a bod rhagesiamplau o hyn yn digwydd mewn meysydd rheoleiddio arall.

A1.40 Mae'r fframwaith adrodd rheoleiddio presennol wedi bod ar waith ers dros 10 mlynedd ac mae'n edrych fel petai dan straen. Yn ystod 2010 rydym yn bwriadu cychwyn ar adolygiad o'r fframwaith ymadrodd a chasglu barn rhanddeiliaid ar y newidiadau sydd angen i sicrhau effeithlonrwydd wrth fynd ymlaen.

A1.41 Ar gyfer telathrebu symudol, rydym yn adolygu pob ffi terfynu galwadau symudol. Bydd y rheolau presennol sy'n pennu ffioedd terfynu galwadau symudol cyfanwerthu yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011. I ymateb i hyn rydym wedi cychwyn adolygiad o'r farchnad i ystyried yn fanylach pa reolau dylai fod yn berthnasol ar ôl i'r rhai presennol ddod i ben. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar atebion posibl gan gynnwys rheolaeth ffioedd os yw hynny'n briodol. Ein nod yw cyhoeddi'r ymgynghoriad pellach hwn ddechrau 2010.

Adolygu'r rheolau reoleiddio sy'n effeithio ar gyllido cynnwys

A1.42 Byddwn yn monitro'r sector hysbysebion teledu'n ofalus a datblygiadau yn y farchnad, yn enwedig yng ngoleuni unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o'r adolygiad Adnewyddu Hawliau Contract gan y Comisiwn Cystadleuaeth ac unrhyw newidiadau eraill yn y dyfodol yn strwythur y farchnad neu mewn rheoliadau hysbysebu.

A1.43 Yn 2010/11 byddwn felly'n ymateb i hyn, byddwn yn adolygu agwedd Ofcom at reoleiddio cyfeiriadau masnachol ar deledu a radio. Bydd hyn yn caniatáu i ni ystyried canlyniad ymgynghoriad y Llywodraeth ar leoli cynnyrch ond hefyd goblygiadau ehangach unrhyw newid yn y maes hwn ar reolau eraill sy'n ymwneud â chyfeiriadau masnachol ar raglenni teledu a radio, gan gynnwys y rheolau sy'n ymwneud â nawdd. Byddwn yn archwilio pa reoleiddio, os o gwbl, sydd yn awr yn angenrheidiol, gan ystyried gofynion deddfwriaethol a'n dyletswydd i leihau beichiau rheoleiddio pan fo hynny'n bosibl.

A1.44 Yn 2010 rydym hefyd yn disgwyl ymgynghori ynghylch a yw'r gofynion bod darlledwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gwerthu eu holl funudau hysbysebu yn dal yn briodol ac ynghylch a ddylid cysoni rheolau munudau hysbysebu darlledwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus â'r rheolau ar gyfer sianeli eraill.

Gorfodi cystadleuaeth a datrys anghydfodau

A1.45 Byddwn yn parhau â'n gwaith ar ymchwiliadau presennol i gystadlaethau ac anghydfodau, ac yn rhoi sylw i unrhyw faterion newydd a fydd yn dod i'r fei yn ystod 2010/11. Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd ei swyddogaeth o ran datrys anghydfodau rheoleiddio: mae gennym ddyletswydd statudol i gyflawni'r swyddogaeth hon a byddwn yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i sicrhau y caiff y swyddogaeth hon ei chyflawni'n amserol.

## Meysydd gwaith eraill

A1.46 Yn ogystal â'r meysydd gwaith a amlinellwyd uchod, ceir hefyd nifer o brosiectau eraill rydym yn bwriadu gweithio arnynt:

- Byddwn yn cynnal dadansoddiad arall ac yn gweithio gyda phartïon i geisio llunio Trefniadau Rhwydweithio ITV newydd a oedd yn cydnabod y rhyngberthynas ariannol helaeth a oedd rhwng eu busnesau

- Byddwn yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Farchnad y BBC pan fydd hynny'n berthnasol ac yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn deall goblygiadau eu penderfyniadau i gystadleuaeth ac yn sgil hynny'r budd i gwsmeriaid o ran dewis ac arloesedd.

- Bydd Ofcom yn gweithio gyda'r Swyddfa Masnachu Teg a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn deall y manteision posibl sydd ynghlwm wrth uno papurau newydd lleol ac yn cyfrannu at ddadansoddiad y Swyddfa Masnachu Teg o uno papurau newydd lleol drwy Asesiadau Cyfryngau Lleol fel sy'n briodol.

- Byddwn yn gweithio i hyrwyddo cystadleuaeth yn y sector radio masnachol drwy archwilio a yw'n briodol llacio rheoleiddio presennol radio a drwy weithio'n agos â'r Swyddfa Masnachu Teg a'r Comisiwn Cystadleuaeth fel sy'n briodol, petai ragor o uno yn 2010/11.

- Byddwn yn adolygu gweithrediad y drefn reoleiddio ar gyfer galwadau i rifau 08 a 09 ar ôl dadreoleiddio'r farchnad adwerthu ar gyfer gwasanaethau ffôn band cul.

## Seilwaith a sbectrwm

### Blaenoriaethau ar gyfer 2010/11

Sicrhau darpariaeth gwasanaethau di-wifr ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain

A1.47 Mae Ofcom yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn, gan drwyddedu defnyddwyr a rheoli unrhyw ymyrraeth niweidiol yn ystod Gemau Olympaidd a Gemau Paraolympaidd 2012 Llundain.

A1.48 Rydym wedi ymgynghori ynghylch cynllun sbectrwm ar gyfer Gemau 2012 Llundain ac wedi'i gyhoeddi sy'n nodi'r sbectrwm a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer yr amrywiol ddibenion yno. Wrth fynd ymlaen, rydym yn rhoi sylw i nifer o'r materion rheoleiddio a gweithredol, gan gynnwys:

- Rhaniad llafur manwl rhwng Ofcom ac endidau eraill;
- Sicrhau bod aelodau'r Teulu Olympaidd yn gallu cael gafael ar y sbectrwm y mae ei angen arnynt dan warantau'r Llywodraeth; ar yr un pryd ag ystyried anghenion defnyddwyr sbectrwm eraill;
- Sicrhau bod ein cynllun gweithredol yn ddigon cadarn ar gyfer graddfa a chymhlethdod y Gemau ac ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau nas cynlluniwyd; a
- Lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gweithredol a'r defnydd o sbectrwm.

A1.49 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr sydd wedi trefnu neu sydd wrthi'n trefnu digwyddiadau tebyg yn Sydney, Athen, Melbourne, Beijing a Gemau'r Gaeaf 2010 yn Vancouver. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â'r holl randdeiliaid perthnasol.

A1.50 Yn ystod 2010/11 bydd ein gweithgareddau cynllunio eraill yn cynnwys ymgorffori gwersi a ddysgir o Vancouver, paratoi ar gyfer y digwyddiadau prawf, sydd wedi'u trefnu o 2010 ymlaen; ac agor rhaglenni ar gyfer trwyddedau yn 2011.

Dechrau clirio band 800 MHz i greu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau newydd

A1.51 Er mwyn clirio'r band 800 MHz, yn ogystal â gorffen newid i'r digidol, mae angen clirio defnydd Teledu Daearol Digidol o sianeli 61 a 62 a defnydd gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig o Sianel 69.

A1.52 Bydd y gwaith o glirio sianel 61 a 62 dros y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar ymgysylltu'n agos â'r Llywodraeth a rhanddeiliad allweddol i greu'r amrywiol strwythurau a fframweithiau ar gyfer cyllido pan fydd hynny'n briodol y partïon yr effeithir arnynt gan y clirio, cynllunio lle mae integreiddio â newid i'r digidol yn bosibl a chlirio'r sianeli'n ôl-weithredol mewn ardaloedd lle mae'r newid eisoes wedi gorffen, ymgysylltu â'n cymdogion rhyngwladol i drafod cytundebau cydlynu amledd newydd, cynllunio'r ffordd orau o gyfleu'r newidiadau i wylwyr ac yn olaf dewis y ffordd fwyaf priodol o gydlynu, rheoli a chyflawni'r clirio.

A1.53 Ceir dwy agwedd ar reoli clirio defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig o sianel 69:

1. Darparu sbectrwm arall sy'n adlewyrchiad agos o ddefnydd sianel 69. Rydym wedi nodi sianel 38 i'r diben hwn.

2. Darparu cyllid i ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig i hwyluso clirio sianel 69. Rydym wedi ymgynghori ynghylch rhai o'r manylion sy'n ymwneud â'r cyllid hwn a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth i wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau ei fod ar waith cyn gynted ag sy'n bosibl yn 2010.

Gweithredu cyfarwyddyd arfaethedig y Llywodraeth i ryddhau sbectrwm ar gyfer band eang symudol

A1.54 Mae Ofcom yn disgwyl mynd i'r afael â thair tasg allweddol yn ystod 2010/11 er mwyn darparu sbectrwm ar gyfer band eang symudol. Y rhain yw:

- Rhyddfrydoli'r bandiau 900 MHz a 1800 MHz
- Dyfarnu'r band 2.6 GHz
- Dyfarnu'r band 800 MHz

A1.55 Mae'r ffordd y bydd Ofcom yn gwneud y tasgau hyn ac amseriad hynny'n dibynnu'n gyfan gwbl ar gasgliad *Adroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol* y Llywodraeth ynghylch materion sy'n ymwneud â sbectrwm symudol a chynnig y Llywodraeth i gyfarwyddo Ofcom.

A1.56 Ar hyn o bryd nid yw union ddull ac amseriad y gwaith y mae ei angen i ryddfrydoli'r bandiau 900 MHz a 1800 MHz a dyfarnu'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz yn glir. Os bydd y Llywodraeth yn cyfarwyddo Ofcom yng nghyswllt y materion hynny fel y mae wedi'i gynnig yna mae Ofcom yn disgwyl cyhoeddi ei ymgynghoriad ei hun ynghylch sut mae gweithredu cyfarwyddyd o'r fath yn ystod gwanwyn 2010. Fodd bynnag, os na cheir cyfarwyddyd o'r fath am ba reswm bynnag, byddai Ofcom yn dal yn disgwyl gwneud y gwaith dan sylw i arwain at ryddfrydoli a dyfarnu'r sbectrwm ond oherwydd y byddai'r gwaith hwn yn galw am waith newydd ac ychwanegol byddai'n cymryd mwy o amser i'w gyflawni.

**Meysydd gwaith parhaus**

Cefnogi'r newid i'r digidol

A1.57 Mae ein gwaith yn y maes newid i'r digidol yn canolbwyntio ar Digital UK a'r Llywodraeth, o ran sicrhau symud yn ddidrafferth i deledu digidol.

A1.58 Yn 2010 bydd y newid yn gorffen yng Nghymru ac yn symud i'r Alban lle bydd gwylwyr yn rhanbarth STV North yn mynd drwy'r broses, a thua diwedd y flwyddyn bydd rhannau cyntaf rhanbarth STV Central yn dechrau newid. Byddwn yn cefnogi'r broses hon ar draws ein gweithgareddau yn y meysydd trwyddedu, rheoli sbectrwm a chydlynu sbectrwm rhyngwladol yn ogystal ag mewn gweithgareddau ymchwil a rheoleiddio.

Hyrwyddo dyrannu sbectrwm yn effeithlon

A1.59 Gellir rhannu ein gwaith sy'n ymwneud â rhyddhau a dyrannu'n effeithlon fandiau sbectrwm ar gyfer defnydd newydd yn dri phrif faes ffocws:

*Gwneud sbectrwm a ddefnyddir gan y sector cyhoeddus ar gael*

A1.60 Mae rhaglen waith fawr yn mynd rhagddi sy'n edrych ar sut gellir darparu sbectrwm a ddefnyddir gan y sector cyhoeddus i ddefnyddwyr eraill. Bydd ein gwaith ar weithredu argymhellion Archwiliad Cave a'r Rhagolwg a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn 2009, sy'n rhoi strategaeth ar gyfer rheoli daliadau sbectrwm sector cyhoeddus mawr, yn cymryd nifer o flynyddoedd. Fel rhan o'r broses hon rydym yn disgwyl llunio rheoliadau newydd a fydd yn rhoi Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig i gyrff sector cyhoeddus, sy'n rhagflaenydd iddynt fasnachu'r hawliau defnyddio sbectrwm cyfatebol.

A1.61 Ar ben hynny, byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus a rhanddeiliaid perthnasol i ystyried a fyddai modd darparu sbectrwm ychwanegol nad yw eto wedi cael ei ystyried at ddefnydd newydd a sut.

A1.62 Byddwn hefyd yn parhau i weithio at ddatblygu "Trwyddedau arloesi" a fydd yn hwyluso mynediad at ddefnydd newydd mewn sbectrwm sydd wedi'i ddyrannu i ddefnyddwyr sector cyhoeddus.

*Dyfarnu sbectrwm sydd wedi'i ryddhau o'r difidend digidol*

A1.63 Ym mis Mehefin 2008 roeddem wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer rhaglen o ddyfarniadau o ddifidend digidol 600 MHz a sbectrwm Rhyngddalennog Daearyddol mewn tri cham. Roeddem wedi cwblhau'r cam cyntaf ym mis Chwefror 2009 drwy ddyfarnu trwyddedau ar gyfer Caerdydd a Manceinion.

A1.64 Mae ein penderfyniad i alinio ein dull gweithredu o ran y difidend digidol â dull gweithredu Ewrop sy'n dod i'r amlwg wedi dylanwadu ar amseru'r ail a'r trydydd cam. Mae gweithredu'r penderfyniad yn golygu ei bod yn rhaid i ni ail drafod a chydlynu hawliau rhyngwladol i ddefnyddio'r sbectrwm. Yn ddiau fydd hyn yn arwain at newidiadau i ffurfweddiad y sbectrwm rhyngddalennog a fydd ar gael ar ôl newid i'r digidol. Ni fyddwn yn gwybod pa newidiadau y bydd eu hangen nes i'r trafodaethau gyda gwledydd cymdogol ddod i ben. Yn y cyfamser, rydym yn cynnig ymgynghori ar y defnydd posibl o'r sbectrwm rhyngddalennog. Byddwn yn ystyried y canlyniadau wrth feddwl yn ystod 2010/11 am y ffordd orau o ddarparu'r sbectrwm.

*Hyrwyddo defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon*

A1.65 Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith o hyrwyddo defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon sydd eisoes wedi'i drwyddedu i ddefnyddwyr presennol:

- Byddwn yn parhau i annog gwell defnydd o sbectrwm yn y sectorau awyrofod a morol.
- Byddwn yn gweithredu i ddarparu gwybodaeth well am ddefnyddio'r sbectrwm presennol.
- Rydym yn bwriadu gweithredu ein cynigion i symleiddio masnachu yr ydym wedi ymgynghori yn eu cylch yn ddiweddar.
- Byddwn yn cloriannu'r system bresennol o brisio sbectrwm, sydd wedi cael ei datblygu dros y degawd diwethaf, i sicrhau ei bod yn effeithiol ac wedi'i chynllunio'n dda. Rydym yn bwriadu ymgynghori ynghylch ein casgliadau

sy'n dod i'r amlwg ac yn dilyn hyn byddwn yn cyhoeddi datganiad sy'n amlinellu ein fframwaith prisio ar gyfer y dyfodol.

Datblygu fframwaith rhyngwladol sefydlog i gefnogi ein hagenda sbectrwm

A1.66 Byddwn yn parhau i ddatblygu fframwaith rhyngwladol sefydlog i fod yn sail i'n rhaglen dyfarnu sbectrwm. Byddwn yn cymryd rhan weithredol mewn fforymau rhyngwladol perthnasol ar y lefelau Ewropeaidd a rhyngwladol dwyochrog. Dyma rai o'r amcanion penodol:

- gweithredu'r fframwaith UE newydd arfaethedig ar gyfer gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu electronig;
- cyfrannu at ddatblygu Rhaglen Polisi Sbectrwm Sawl Blwyddyn a fwriedir i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoleiddio sbectrwm Ewropeaidd dros y 4-5 mlynedd nesaf;
- cefnogi mesurau cysoni lle ceir cyfiawnhad dros wneud hynny a hyrwyddo defnyddio technoleg – a dulliau gweithredu gwasanaeth niwtral mewn fforymau rhyngwladol a phenderfyniadau sbectrwm Ewropeaidd i hwyluso argaeledd sbectrwm ar sail gyffredin a hyblyg;
- parhau i ddatblygu cytundebau rhyngwladol a dwyochrog er mwyn darparu sicrwydd rheoleiddio ar gyfer ein dyfarniadau sbectrwm ac ar gyfer y newid i'r digidol;
- hyrwyddo rheoli sbectrwm y sector cyhoeddus yn effeithiol yn rhyngwladol, gan gydnabod manteision mynediad i sbectrwm cyffredin ar draws nifer o wledydd; a
- pharatoi a thrafod sefyllfaoedd Ewropeaidd er mwyn helpu'r DU i gyflawni ei nodau yn y Gynhadledd Radio Byd ITU yn 2012.

Deall gallu rhwydwaith

A1.67 Rydym yn bwriadu sicrhau ar sail barhaus ein bod yn cynnal darlun mor gywir ag sy'n bosibl o Seilwaith Cyfathrebu'r DU. Roedd yr *Adroddiad Terfynnol Prydain Ddigidol* yn cynnig rhoi dyletswydd adrodd seilwaith newydd i ni a fyddai'n mynnu ein bod yn gwneud hyn, ond rydym yn credu bod gennym ddyletswyddau i wneud gwaith yn y maes hwn beth bynnag. Rydym yn ystyried cyhoeddi cymaint o'r data rydym yn ei gasglu ag sy'n briodol, gan ystyried yr angen am gyfrinachedd masnachol.

A1.68 Yn ogystal â'r blaenoriaethau a'r meysydd gwaith parhaus a amlinellwyd uchod eisoes, ceir hefyd nifer o feysydd prosiect eraill rydym yn bwriadu gweithio arnynt:

- Yn 2010/11 rydym yn bwriadu cynnal a therfynu ein fframwaith rheoleiddio wrth i wasanaethau manylder uwch ddechrau dod ar gael ar y llwyfan teledu digidol daearol ledled y DU.

## Dod o hyd i gyfleoedd i ddadreoleiddio a symleiddio

A1.69 Mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd ar sut rydym wedi osgoi rhoi beichiau diangen a thynnu beichiau sydd bellach yn rhy hen. Rydym yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy ein Cynllun Symleiddio blynyddol (gweler Atodiad 2), sy'n

amlinellu lle rydym wedi tynnu beichiau gweinyddol ac wedi dadreoleiddio mewn meysydd mawr.

A1.70 Ein nod yw gwella ein hagwedd at reoleiddio'n gyson. Rydym yn credu bod rhagor o bosibilrwydd i ni sicrhau hyd yn oed mwy o atebolrwydd a chadernid yn y ffordd rydym yn rheoleiddio. Felly ar hyn o bryd rydym yn chwilio am ffyrdd o wella sut rydym yn mesur canlyniadau a sut gellir gwella'r asesiadau o effaith ac effaith rheoleiddio. Rydym yn disgwyl ymgynghori ynghylch ein cynigion yn ystod gwanwyn 2010.

## Gwaith parhaus arall i gefnogi dyletswyddau ac amcanion Ofcom

A1.71 Yn ogystal â'r meysydd gwaith a amlinellwyd uchod, ceir hefyd nifer o feysydd gwaith eraill sy'n ein cefnogi i gyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion.

A1.72 Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu:

- Sicrhau bod gweithgareddau Ofcom yn ystyried anghenion a phryderon defnyddwyr a dinasyddion sy'n byw ym mhob un o wledydd y DU a'u cynrychiolwyr gwleidyddol – boed hwy yn San Steffan, yn y sefydliadau datganoledig neu ar lefel sy'n fwy lleol, drwy ein presenoldeb swyddfa ym mhob gwlad, pwyllgorau cynghori a chynrychiolaeth arall.
- Parhau i ymgysylltu â datblygu fframweithiau rheoleiddio rhyngwladol y mae'r DU, Ofcom a'n rhanddeiliaid yn gweithredu o'u mewn, i sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gymesur a'u bod yn gwasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn y ffordd orau.
- Canolbwyntio ar weithredu'r Fframwaith Rheoleiddio Ewropeaidd
- Cefnogi'r Corff o Reoleiddwyr Ewropeaidd mewn Cyfathrebu Electronig
- Cymryd rhan mewn dadleuon ynghylch strategaeth i2010 y Comisiwn Ewropeaidd a'r cynllun ar gyfer Agenda Digidol Ewropeaidd i sicrhau bod defnyddwyr a dinasyddion yn dal wrth galon yr agenda hwn
- Parhau i weithio gyda rheoleiddwyr cyfathrebu mewn gwledydd Ewropeaidd eraill i fynd ar drywydd dull gweithredu cydlynol, pan fo'n briodol, o ran rheoleiddio gwasanaethau cyfathrebu rhyngwladol
- Rhannu enghreifftiau perthnasol o'r arfer gorau a chryfhau ein perthynas â chymheiriaid rheoleiddio allweddol ym mhedwar ban byd.

A1.73 Gan gefnogi ein rhaglen waith gyffredinol, byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu safbwynt clir ar:

- sut mae'r sectorau cyfathrebu'n debygol o esblygu dros amser
- pa oblygiadau a fydd gan y rhain ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion, yn gadarnhaol ac yn negyddol; a
- pha oblygiadau fydd datblygiadau'n eu creu ar gyfer rheoleiddio.

**Atodiad 2**

# Darparu gwasanaethau i randdeiliaid

A2.1 Bob blwyddyn, mae Ofcom yn cael tua 270,000 o geisiadau gan y cyhoedd yn gofyn am gyngor ynglŷn â materion defnyddwyr yn y farchnad gyfathrebu, cwyno am berfformiad gwael gan ddarparwr gwasanaeth neu godi mater penodol yn ymwneud â chynnwys. Rydym yn cymryd camau gorfodi uniongyrchol ar ran amrywiaeth o randdeiliaid, er enghraifft, wrth gadw'r tonnau awyr yn rhydd rhag ymyrraeth.

A2.2 Rydym yn rhoi dros 250,000 o drwyddedau sbectrwm yn flynyddol, gan gynnwys ceisiadau newydd a cheisiadau adnewyddu, a fydd yn cynnwys lloeren, cysylltiadau sefydlog, radio busnesau preifat, a defnyddwyr sbectrwm amatur, morwrol ac eraill. Rydym wrthi'n cyflwyno system gwasanaethau gwybodaeth newydd i reoli'r trafodion hyn.

## Cadw'r sbectrwm radio'n rhydd rhag ymyrraeth

A2.3 Rydym yn monitro'r sbectrwm radio ac yn cymryd camau priodol i atal ymyrraeth niweidiol ar y sbectrwm. Mae'r mwy o alw am sbectrwm yn arwain at ddefnyddio mwy dwys ac felly mwy o risg o ymyrraeth ac rydym yn parhau i wella a moderneiddio'r adnoddau rydym yn eu rhoi i atal hyn rhag digwydd a lliniaru pan fydd yn digwydd. Bydd Gemau Olympaidd a Gemau Paraolympaidd 2012 Llundain yn rhoi sylw penodol ar ein cyfrifoldebau yn y maes hwn.

A2.4 Mae ein tîm Gweithrediadau Maes yn delio ag oddeutu 6,000 o achosion y flwyddyn, gan weithredu i:

- amddiffyn cyfathrebu diogelu bywyd, gan gynnwys y gwasanaethau brys a'r gwasanaeth rheoli traffig awyr;
- atal y sbectrwm radio rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon;
- caniatáu defnydd cyfreithlon ar y sbectrwm drwy, er enghraifft, ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a
- sicrhau y caiff offer nad yw'n cydymffurfio ei dynnu oddi ar y farchnad.

A2.5 Ein strategaeth yw canolbwyntio ein hadnoddau ar gadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth niweidiol. Mae hyn wedi golygu trawsnewid ein tîm Gweithrediadau Maes yn helaeth, gan gynnwys y strwythur trefniadaethol, y strategaeth offer, cerbydau ac eiddo, maint a chymysgedd y gwaith, rheoli pobl a diwylliant.

A2.6 Rydym wedi dechrau ar y broses o foderneiddio ein system monitro awtomataidd a'n galluoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell, a ddefnyddir ar gyfer dod o hyd i ddefnyddio sbectrwm yn anghyfreithlon a dod o hyd i'r ffynonellau sy'n creu'r ymyrraeth. Rydym hefyd wedi dechrau uwchraddio'r offer profi cludadwy a ddefnyddir gan ein peirianwyr maes.

A2.7 Rydym yn adolygu ein gweithdrefnau gweithrediadol yn gyson i sicrhau rhagoriaeth a chyn bo hir byddwn yn gwneud cais am ardystiad ISO 9001:2008 sy'n cyd-fynd â'r ardystiad 17025:2005 sydd gennym yn barod.

## Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

A2.8 Mae Ofcom yn rheoli mynediad at y sbectrwm radio drwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Lle bo angen, rydym yn aseinio amledd, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu'r defnydd o sbectrwm yn rhyngwladol.

A2.9 Yn 2009, rydym yn gwella'r gwasanaeth trwyddedu ymhellach drwy:

- ychwanegu'r holl gynnyrch trwyddedu gan gynnwys trwyddedau Gofod a Lloeren a thrwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant at y system drwyddedu newydd;
- galluogi rhanddeiliaid i wneud cais am drwyddedau Radio Busnes Preifat, a'u derbyn, ar-lein; a
- gweithredu systemau i alluogi defnyddio sbectrwm yn well yn y dyfodol.

## Delio ag ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd

A2.10 Mae tîm Gweithrediadau Canolog Ofcom yn delio ag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr am wasanaethau telathrebu, gwasanaethau teledu a radio a'r defnydd o'r sbectrwm radio. Rydym yn ateb oddeutu 17,000 o alwadau ffôn, 3,000 o negeseuon drwy ein gwefan, 1,400 o negeseuon e-bost a 1,200 o lythyrau a negeseuon ffacs bob mis.

A2.11 Yn aml mae defnyddwyr yn cwyno i Ofcom am faterion telathrebu pan fyddant wedi cael ymatebion annigonol gan ddarparwyr gwasanaeth. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu cwynion drwy eu cyfeirio at gyngor a gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltu â darparwyr gwasanaeth.

A2.12 Bydd pobl yn cwyno'n uniongyrchol i ni am raglenni teledu a radio. Rydym yn ystyried cwynion am nifer o feysydd megis diogelu pobl dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd a bod yn ddiduedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion. Ond, nid ydym yn ystyried materion sy'n ymwneud â bod yn ddiduedd ac yn gywir yng nghyswllt rhaglenni'r BBC, gan mai cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y BBC yw hynny. Rydym hefyd yn delio â chwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.

A2.13 Ein nod yw gwella swyddogaeth Tîm Cynghori Ofcom drwy roi rhybudd ynghylch pryderon defnyddwyr. Mae hyn yn digwydd gyda marchnadoedd cyfathrebiadau sy'n newid yn gyflym yn gefndir iddo; mae pynciau newydd o bryder yn dod i'r wyneb drwy'r amser ac yn creu cynnydd annisgwyl yn nifer y cwynion a gawn.

A2.14 Mae'r Gymdeithas Gyswllt Cwsmeriaid yn gorff proffesiynol ar gyfer y diwydiant canolfan cyswllt ac mae Tîm Cynghori Ofcom newydd gael Achrediad Llawn y Gymdeithas Gyswllt Cwsmeriaid nid yn unig fel Canolfan Gyswllt ond hefyd ar gyfer ein rhaglen hyfforddiant mewnol. Gall y rheini sy'n ffonio Tîm Cynghori Ofcom fod yn dawel eu meddwl eu bod yn ffonio tîm sy'n wybodus ac sydd â gweithdrefnau sy'n cynrychioli arfer gorau'r diwydiant.

## Dyrannu ystodau rhifau ffôn i ddarparwyr gwasanaeth

A2.15 Mae gan Ofcom rôl bwysig yn dyrannu ystodau rhifau ffôn i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu sydd, yn eu tro, yn dyrannu rhifau unigol i'w cwsmeriaid.

Mae nifer y ceisiadau a dderbynnir gan ddarparwyr gwasanaeth yn tyfu'n gyson. Rydym yn awr yn prosesu dros 2,000 o geisiadau bob blwyddyn.

A2.16 Fel rhan o'n hadolygiad strategol o rifau ffôn, sefydlwyd gennym yr egwyddorion canlynol ar gyfer rhifo:

- dylai'r rhifau y mae ar gwsmeriaid eu heisiau fod ar gael pan fydd eu hangen;
- ni ddylid newid y rhifau y mae defnyddwyr yn eu defnyddio ar hyn o bryd os oes modd osgoi hynny;
- dylid cadw'r hyn y mae mathau penodol o rifau yn ei olygu i ddefnyddwyr, megis rhifau 080 yn cael eu cysylltu â galwadau am ddim;
- dylai prosesau dyrannu rhifau gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd; a
- ni ddylai defnyddwyr fod yn agored i gamddefnydd.

A2.17 Mae Ofcom wedi defnyddio'r egwyddorion hyn gyda'r broses dyrannu rhifau ffôn i sicrhau bod ein proses yn effeithlon, yn cael ei gyrru gan ddefnyddwyr ac yn cael ei thywys gan y farchnad. Rydym wedi cyflwyno mesurau cadw rhifau mewn rhagor o ardaloedd daearyddol fel y gall darparwyr gwasanaeth ddefnyddio rhifau'n fwy effeithlon a pharhau i fonitro'r risg bosibl o gyfyngiadau ar gyflenwad. Byddwn yn dechrau adolygiad o'n dull gweithredu at reoleiddio Gwasanaethu Trosi Rhifau ystodau rhifau i sicrhau bod y rhain yn rhoi'r gwasanaethau mae defnyddwyr yn eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael eu hamddiffyn yn addas. Wrth ddyrannu rhifau byddwn hefyd yn parhau i gynnal prawf amddiffyn y defnyddiwr i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o rifau ac i amddiffyn defnyddwyr rhag sgamiau, twyll a mathau eraill o gamddefnydd drwy ddefnyddio rhifau ffôn.

## Darparu gwasanaethau gwybodaeth

A2.18 Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio'r sbectrwm radio. Mae hyn yn gyfraniad pwysig at gydlynu'r defnydd o sbectrwm yn effeithlon; ac mae hefyd yn hwyluso masnachu trwyddedau sbectrwm gan randdeiliaid.

## Cyhoeddi adroddiadau ymchwil marchnad ac adroddiadau ar y farchnad gyfathrebu

A2.19 Byddwn yn cyhoeddi amrywiaeth eang o adroddiadau ar ddatblygiadau yn y sector cyfathrebu ac ar agweddau dinasyddion a defnyddwyr. Bydd ein cyfres o Adroddiadau ar y Farchnad Gyfathrebu yn delio â datblygiadau ym meysydd teledu, radio, telathrebu a'r rhyngrwyd ar draws y DU ac ar draws y byd. Bydd ein Hadroddiad Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn asesu cyflwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ac i ba raddau y mae dibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu bodloni; a Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Brofiad y Defnyddiwr a fydd yn asesu dewisiadau mynediad defnyddwyr, grymuso a phryder defnyddwyr ar draws yr holl sectorau a reoleiddir gan Ofcom.

A2.20 Yn olaf, fe fyddwn yn cyhoeddi'r holl ymchwil a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn i gefnogi prosiectau a chyhoeddiadau Ofcom. Bydd ein hagwedd at ymchwil yn sicrhau ein bod yn gallu casglu sylfaen dystiolaeth sy'n caniatáu i ni gyflawni'r dyletswyddau statudol rydym yn eu hwynebu i hybu cydraddoldeb. Byddwn hefyd

yn cydymffurfio â'r Ddeddf Ystadegau o ran gwneud ein hystadegau marchnad ac ymchwil ar gael yn amserol.

## Mabwysiadu arferion cynaliadwy

A2.21 Mae Ofcom yn ceisio mabwysiadu arferion cynaliadwy drwy ei waith polisi a gweithrediadol. Yng ngoleuni amlygrwydd cynyddol materion amgylcheddol, roeddem wedi cynnal archwiliad cychwynnol o allyriadau carbon Ofcom yn 2007 ac o ganlyniad i hynny roeddem wedi ymrwymo i darged o'u lleihau 25% erbyn 2012/13. Rydym wedi datblygu rhaglen o welliannau i gyrraedd y targed hwn a sicrhau bod ein gweithredoedd yn glynu wrth yr arfer amgylcheddol gorau

A2.22 Mae llwyddiannau hyd yn hyn yn cynnwys arbedion ynni sylweddol yn ein swyddfa yn Llundain, hyrwyddo cymudo cynaliadwy i gydweithwyr ac ennill achrediad Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon. Yn 2010/11 byddwn yn troi ein ffocws at deithio busnes ac argraffu ac yn ymchwilio i arbedion pellach mewn Gwasanaethau Gwybodaeth.

## Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

A2.23 Mae Ofcom yn benderfynol ein bod am wneud popeth y gallwn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein sefydliad a'r sectorau ehangach rydym yn eu rheoleiddio.

A2.24 Ym mis Hydref 2009, roeddem wedi cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Sengl Ofcom i hyrwyddo cydraddoldeb yn ein dwy swyddogaeth fel cyflogwr mawr ac fel rheoleiddiwr diwydiannau cyfathrebu'r DU. Rydym yn ymgyrraedd at sector cyfathrebu sy'n fwy teg, cyfartal ac amrywiol.

A2.25 Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl[8] yn rhoi amcanion Ofcom yng nghyswllt cydraddoldeb ac mae'n rhoi fframwaith, gan roi set glir o gynlluniau gweithredu ar ein cyfer.

[8] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/promoting_equality_diversity/ses/ses.pdf

## Atodiad 3

# Cynllun Symleiddio

### Mae'r atodiad hwn yn crynhoi ein hymdrechion i leihau beichiau rheoleiddio

A3.1 Mae'r Cynllun Symleiddio hwn yn crynhoi ein hymdrechion parhaus i leihau'r beichiau ar ein rhanddeiliaid a chyflawni ein dyletswydd statudol yn hyn o beth. Mae'n egluro sut mae ein gogwydd yn erbyn ymyrryd yn trosi i fod yn rheoleiddio sydd wedi'i gynllunio i reoli, i werthuso ac i gyfiawnhau beichiau. Mae'r atodiad hwn hefyd yn nodi'r hyn mae Ofcom wedi'i wneud yn ymarferol i leihau'r beichiau ar ein rhanddeiliaid yn ystod 2009 ac yn amlinellu'r cynlluniau eraill y byddwn yn eu rhoi ar waith dros y flwyddyn nesaf.

A3.2 Mae Adran 6 Deddf Cyfathrebiadau 2006 ("adran 6") yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i beidio â rhoi beichiau diangen na chynnal beichiau sydd bellach yn ddiangen. Mae'r paragraffau canlynol yn egluro sut mae ein gweithgareddau beunyddiol wedi'u dylunio i gyflawni'r ddyletswydd hon o ran datblygu rheoliadau newydd ac adolygu rheoliadau sydd eisoes mewn grym.

A3.3 Mae adran 6 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi datganiad bob 12 mis, sy'n dangos sut mae wedi cyflawni'r ddyletswydd hon. Rydym yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy'r Cynllun Symleiddio hwn.

A3.4 Yn ystod 2009 rydym wedi mynd ag amrywiol gynlluniau symleiddio a dadreoleiddio rhagddynt, ac rydym yn bwriadu mynd â rhai ohonynt ymlaen ymhellach yn ystod 2010. Dyma rai enghreifftiau:

- tynnu gweddill y cyfyngiadau rheoleiddio yn y farchnad telathrebu sefydlog ar lefel adwerthu a lleihau rheoleiddio ar y lefel cyfanwerthu;
- ein hargymhellion i lywodraeth i ddileu dwy reol sy'n ymwneud â pherchnogaeth radio a llacio rheolau sy'n ymwneud â pherchnogaeth leol ar draws cyfryngau;
- llacio gofynion trwydded ar gyfer Sianel 3 a 5 ar ôl ein hail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus;
- cwblhau'r prosiect Unify, gan uwchraddio ac integreiddio ein systemau technoleg gwybodaeth, ac oherwydd hynny gallwn gynnig gwasanaethau i'n rhanddeiliaid mewn ffordd sy'n fwy effeithlon;
- ein cynigion i'w gwneud yn haws prynu a gwerthu sbectrwm, gan ei gwneud yn haws i fusnesau gael gafael ar yr amledd radio y mae arnynt angen ei ddefnyddio; ac
- adolygiad wedi'i gynllunio ynghylch a oes cyfiawnhad dros y cyfyngiadau presennol sy'n ymwneud â hysbysebu ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus.

A3.5 Mae manylion yr holl gynlluniau yr ydym wedi'u symud yn eu blaenau ers i ni gyhoeddi ein Cynllun Symleiddio diwethaf ym mis Rhagfyr 2008 wedi cael eu cynnwys yn y tabl ar ddiwedd yr atodiad hwn.

## Mae ein hagwedd at reoleiddio wedi'i chynllunio i leihau'r beichiau o ran cyflawni ein dyletswyddau

A3.6 Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau'n datgan yn glir y dylem gyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Gwell Rheoleiddio. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i ymyriadau rheoleiddio fod ar sail tystiolaeth, yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch.

A3.7 Mae ein hegwyddorion rheoleiddio'n cynnwys ymrwymiad clir i "ogwyddo yn erbyn ymyrryd". Nod hyn yw sicrhau ein bod yn rheoleiddio dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol. Gallai gormod o ymyrryd ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Mae ymyriadau nad ydynt wedi'u targedu'n gywir hefyd yn peri'r risg o achosi canlyniadau nas fwriadwyd.

A3.8 Fodd bynnag, pan mae angen ymyrryd byddwn yn ceisio gwneud hynny'n bendant ac yn gyson ag egwyddorion Gwell Rheoleiddio. Mae rheoleiddio cymesur ac wedi'i dargedu wedi chwarae rhan allweddol o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y DU. Er bod treth beichiau ar gwmnïau wedi'u rheoleiddio yn rhan annatod o reoleiddio, rydym yn credu bod cyfiawnhad dros yr ymyriadau pan mae'r manteision cyffredinol a fydd yn deillio ohonynt yn drech na'r beichiau hyn.

A3.9 Yn yr achosion hynny lle mae angen rheoleiddio, byddwn yn chwilio am y dull rheoleiddio mwyaf effeithiol a lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

A3.10 Mae Asesiadau o'r Effaith yn rhan allweddol o'n camau gweithredu rheoleiddio. Maent yn rhoi ffordd o adnabod y problemau y mae angen rhoi sylw iddynt, ystyried dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio (gan gynnwys peidio â rheoleiddio) ac wedyn dewis yr opsiwn sy'n rhoi'r mwyaf o fanteision posibl ac sy'n lleihau costau ymyrryd.

A3.11 Mae adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn dweud ei bod yn rhaid i Ofcom gyflawni a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith pan ymddengys fod ein cynnig yn bwysig. Fodd bynnag, oherwydd bod Asesiadau o'r Effaith yn rhan o arfer rheoleiddio da, rydym yn cynnal Asesiadau o'r Effaith yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n penderfyniadau[9].

A3.12 Wrth ddadansoddi costau a manteision rheoleiddio, mae angen defnyddio egwyddor bod yn gymesur, sy'n golygu y bydd yn aml yn briodol i ni ganolbwyntio ar y costau a'r manteision pwysicaf a pheidio â threulio gormod o amser yn ystyried y rheini sy'n eithaf dibwys. Ar ben hynny, rhaid i faint o wybodaeth rydym yn gofyn amdani gan randdeiliaid er mwyn cyflawni'r dadansoddiad fod yn gymesur. Mae canllawiau Asesiad o'r Effaith Ofcom[10] yn ymhelaethu ar ein sefyllfa gan ddatgan:

> "fel rheol byddwn yn mesur costau a manteision pan fo'n bosibl, ar yr un pryd â chydnabod na fyddwn yn gallu gwneud hyn yn fanwl ac na fydd bob amser yn gymesur mesur yr holl gostau a manteision. Pan nad yw'n bosibl mesur neu brisio'n fanwl gywir,

---

[9] Fel yr amlinellir yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf (http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annrep0809/annrep0809full.pdf), yn 2008/2009 roedd oddeutu 75% o'r ymgynghoriadau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn cynnwys Asesiad o'r Effaith.

10 http://www.ofcom.org.uk/consult/policy_making/guidelines.pdf

dylem geisio darparu amcangyfrifon neu osod ystodau o gostau a manteision".

A3.13 Wrth asesu dewisiadau ar gyfer ymyrryd, rydym yn ystyried ystod o atebion eraill, o ddim rheoleiddio o gwbl i hunan-reoleiddio gan y diwydiant ei hun (pan fydd y diwydiant yn gweinyddu ateb heb drosolwg na phwerau rheoleiddio stopio'n ôl), cyd-reoleiddio (lle mae gan y llywodraeth neu'r rheoleiddiwr bwerau stopio'n ôl a rhywfaint o drosolwg), hyd at ymyriad statudol llawn.

A3.14 Ym mis Rhagfyr 2008, ar ôl ymgynghori a chyda mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid, roeddem wedi cyhoeddi datganiad [11] yn amlinellu dull gweithredu newydd a systematig i wneud asesiad cychwynnol y byddai unrhyw fath o ymyriad, os o gwbl, yn briodol arno. Mae'r agwedd hon yn ein helpu i ddeall a yw'n debygol y bydd dim rheoleiddio, hunan reoleiddio neu reoleiddio ar y cyd yn debygol y lwyddo mewn achosion penodol, drwy ddadansoddi a yw cymhelliannau diwydiant wedi'u halinio â chymhelliannau'r cyhoedd. Mae gweithredu rheoleiddio Fideo ar-alw yn dilyn y gyfarwyddeb AVMS Ewropeaidd yn achos diweddar lle'r ydym wedi defnyddio ein hagwedd ddiwygiedig at hunan reoleiddio a rheoleiddio ar y cyd gan ymgynghori ar ein dewis cyntaf ar gyfer ateb rheoleiddio ar y cyd yn hytrach na'r dewisiadau eraill.

A3.15 Wrth ddewis a dadansoddi dewisiadau, mae angen i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion yn bwysicach na dim byd arall. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu wedi datblygu methodoleg ar gyfer archwilio'r ffordd mae Ofcom (neu unrhyw sefydliad arall) yn ystyried buddiannau defnyddwyr wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio – Pecyn Cymorth Buddiannau Defnyddwyr. Yn dilyn hynny mae Ofcom wedi datblygu canllawiau rheoli prosiectau mewnol i sicrhau bod prosiectau Ofcom yn dilyn argymhellion o ran sut mae sicrhau bod budd y defnyddiwr yn cael ei gynnwys a'i ystyried yn gywir, er mwyn gallu teilwra'r dull rheoleiddio gorau'n fanwl er mwyn rhoi sylw i feysydd sy'n achosi pryder.

## Rydym yn adolygu rheoleiddio'n rheolaidd er mwyn archwilio a yw'n dal yn addas i'r diben ac yn tynnu beichiau pan nad oes cyfiawnhad drostynt fwyach

A3.16 Pan fydd y rheoleiddio ar waith, rydym yn ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried newidiadau yn amodau'r farchnad, anghenion rhanddeiliaid a gofynion statudol ac rydym yn cynnal adolygiadau ffurfiol ar adegau penodol. Caiff ymyriadau pwysig eu hystyried hefyd yng nghyswllt y canlyniadau yr oeddent i fod i'w cyflawni'n wreiddiol. Mae adolygiadau a gwerthusiadau'n bwysig iawn i ni er mwyn pennu a oes cyfiawnhad dros y rheoliadau presennol a'r beichiau sydd ynghlwm wrthynt ac a ydynt yn angenrheidiol.

A3.17 Ar ôl adolygiad rheoleiddio, gellir hefyd ysgafnhau beichiau drwy adael y nod rheoleiddio cyffredinol heb ei newid – er enghraifft drwy symleiddio'r prosesau y mae cwmnïau'n eu defnyddio i gydymffurfio â rheoliadau. Er enghraifft nid yw ein hymgynghoriad[12] diweddar ynghylch prynu a gwerthu sbectrwm yn newid ein hymrwymiad i farchnadoedd sbectrwm eilaidd iach, ond mae'n ceisio hyrwyddo eu datblygiad drwy symleiddio'r prosesau mae partïon â diddordeb yn gorfod eu dilyn er mwyn prynu a gwerthu trwyddedau.

[11] Canfod atebion rheoleiddio priodol: egwyddorion ar gyfer hunan reoleiddio a rheoleiddio ar y cyd http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/coregulation/statement/statement.pdf

[12] *Symleiddio prynu a gwerthu sbectrwm* http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/simplify/simplify.pdf

A3.18 Ers ei greu mae Ofcom wedi bod ag agwedd strategol at reoleiddio, gydag adolygiadau sectoraidd amrywiol. Er bod y rhain yn gallu arwain at feichiau gweinyddol ar randdeiliaid drwy geisiadau am wybodaeth a'r broses ymgynghori, maent yn angenrheidiol er mwyn i ni gasglu sylfaen dystiolaeth i'w dadansoddi. Ar y llaw arall, mae agwedd strategol at reoleiddio'n lleihau'r tebygolrwydd y rhoddir sawl haen o reoleiddio heb eu cydlynu dros gyfnod, sy'n peri'r risg y rhoddir beichiau diangen ar randdeiliaid. Yn ystod 2009 roeddem wedi gorffen ein hail adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a arweiniodd at leihau'r gofynion ar ITV a Five.

A3.19 Dan y Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebu electronig, a ddaeth yn rhan o gyfraith yn y DU gyda Deddf Cyfathrebiadau 2003, mae gan awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol megis Ofcom ddyletswydd i gynnal adolygiadau o gystadleuaeth o bryd i'w gilydd mewn marchnadoedd telathrebu perthnasol (Adolygiadau Marchnad) i sicrhau bod rheoleiddio'n aros yn briodol yng nghyswllt newidiadau yn amodau'r farchnad. Yn ystod 2009 roeddem wedi cwblhau sawl adolygiad marchnad, gan gynnwys ar y marchnadoedd ffôn adwerthu a chyfanwerthu. Roedd ein dadansoddiad a'n hymgynghoriad wedi dangos ein bod yn gallu cael gwared ar y rheoleiddio a roddwyd ar BT oherwydd iddo ddod yn ddianghenraid.

A3.20 Dros y tair blynedd diwethaf, bu'r Fframwaith Ewropeaidd drwy broses adolygu sydd bellach wedi cyrraedd ei chamau olaf. Roedd Ofcom wedi chwarae rhan weithredol i sicrhau y byddai'r Fframwaith newydd yn parhau i gefnogi ein trefn ysgafn ac wedi'i thargedu yng nghyswllt rheoleiddio telathrebu, gan roi posibilrwydd priodol ar gyfer dadreoleiddio. Roeddem hefyd wedi ceisio sicrhau nad oedd cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer diwygio ddim yn ychwanegu at y baich rheoleiddio ar fusnes, ar yr un pryd â hyrwyddo buddiannau defnyddwyr. Yn benodol, roeddem wedi gweithio at ddiffiniad o broses Adolygiad o'r Farchnad nad yw'n rhy ragnodol a biwrocrataidd a chefnogi darpariaethau newydd at barhau i ryddfrydoli rheoli sbectrwm.

A3.21 Mae ein hadolygiad o weithgareddau hefyd yn cynnwys ystyried sut y gellid gwneud ein systemau a'n prosesau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth gwell i randdeiliaid ar yr un pryd â lleihau ein costau gweithredu. Mae systemau technoleg gwybodaeth wrth galon hyn. Yn 2009 roeddem wedi cwblhau cyflwyno Prosiect Unify a gwelliannau i'r systemau technoleg gwybodaeth sy'n parhau i gefnogi lleihau beichiau gweinyddol a rheoleiddio.

## Yn ystod 2009 rydym wedi gorffen amrywiol gynlluniau symleiddio ac mae mwy ar y gweill ar gyfer 2010

A3.22 Yn ystod 2009 rydym yn credu ein bod wedi parhau i gymryd camau pwysig i liniaru beichiau rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid. Isod rydym yn rhoi golwg gyffredinol o rai o'r prif weithgareddau symleiddio rydym wedi'u datblygu ers cyhoeddi ein Cynllun Symleiddio diwethaf a byddwn yn eu symud ymlaen i 2010. Ceir mwy o wybodaeth yn y tablau ar ddiwedd yr atodiad yma.

A3.23 Dadreoleiddio teleffoni sefydlog (adolygiadau o'r marchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu band cul): fel rhan o'n hadolygiadau rheolaidd o'r marchnadoedd telathrebu, ym mis Medi 2009 roeddem wedi cyhoeddi datganiad[13] a oedd yn dileu'r

[13] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/retail_markets/statement/statement.pdf

cyfyngiadau rheoleiddio oedd ar ôl yn y farchnad telathrebu sefydlog ar y lefel adwerthu. Mae hyn yn caniatáu i BT gynnig bwndeli o wasanaethau rhatach am y tro cyntaf, gan gynnwys galwadau llinell sefydlog draddodiadol. Rydym yn disgwyl y bydd dadreoleiddio'n ysgogi mwy o gystadleuaeth adwerthu, gan arwain at wella gwasanaethau a rhoi gwell gwerth am arian i ddefnyddwyr. Y penderfyniad hwn yw'r cam olaf mewn proses o ddadreoleiddio teleffoni sefydlog yn raddol ar y lefel adwerthu, ar ôl codi'r rheolaeth prisiau adwerthu ar BT yn 2006. Mae dadreoleiddio marchnadoedd adwerthu wedi bod yn bosibl oherwydd cyfres o fesurau rheoleiddio (gan gynnwys gwahanu swyddogaethau BT yn 2006) a oedd yn cefnogi dyfodiad cystadleuaeth barhaus mewn gwasanaethau telathrebu sefydlog. Ochr yn ochr â'r adolygiad o'r farchnad telathrebu a nodir uchod, eleni rydym hefyd wedi adolygu marchnadoedd band cul cyfanwerthu sefydlog. Gan gydnabod y bu datblygiadau sylweddol ers ein hadolygiadau diwethaf yn 2003 a 2003 daethom i'r casgliad y byddai modd dileu neu leihau rheoleiddio darpariaeth BT o gynnyrch penodol.

A3.24 Adolygiad o reolau perchnogaeth cyfryngau: Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i adolygu gweithrediad rheolau perchnogaeth cyfryngau, ac argymell unrhyw newidiadau iddynt, o leiaf bob tair blynedd, gan adrodd am ei ganfyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol (dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon). Roeddem wedi gorffen ein hadolygiad diweddaraf ym mis Tachwedd eleni. Roedd ein dadansoddiad yn tynnu sylw at bwysau sylweddol yn y farchnad ar gyfer y diwydiant cyfryngau'n gyffredinol ac yn enwedig radio, a oedd yn bygwth darparu cynnwys a gwasanaethau a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd. O ganlyniad i hyn, yn ein datganiad[14] rydym yn argymell i'r llywodraeth ddileu dwy reol sy'n ymwneud â radio a llacio rheolau perchnogaeth ar draws cyfryngau lleol. Os bydd y Llywodraeth yn derbyn ein hargymhellion byddant yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd gorsafoedd radio'n hyfyw a byddant o fudd i'r diwydiant cyfryngau lleol yn fwy cyffredinol drwy eu gwneud yn fwy hyblyg i ymateb i bwysau'r farchnad.

A3.25 Adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a llacio gofynion trwydded Sianel 3 a 5: Yn ystod 2009 roeddem wedi cwblhau ein hail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, a wnaed dan Adran 264 y Ddeddf Cyfathrebiadau. Yn yr adolygiad hwn roeddem wedi nodi bod newidiadau yng nghyd-destun y farchnad wedi arwain at fwy o feichiau ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ac yn enwedig y rheini a oedd yn dal y drwydded ar gyfer Sianel 3. O ganlyniad, roeddem wedi cyflwyno llacio dyletswyddau Sianel 3 yn y meysydd canlynol: newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau; rhaglenni gwledydd a rhanbarthau eraill; materion cyfoes rhwydwaith; a chynhyrchu rhwydwaith y tu allan i Lundain. Rydym hefyd wedi caniatáu arbedion cost i Five drwy leihau'r dyletswyddau i ddarparu rhaglenni gwreiddiol yn ystod oriau brig ac ar draws yr amserlen i gyd.

A3.26 Prosiect Unify: Mae Ofcom wedi parhau i ddod â'i systemau a'i brosesau busnes ynghyd mewn ffordd sy'n fwy cyfunol drwy ei brosiect Unify, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2009. Fel rhan o Unify, gweithredwyd system trwyddedu rheoli sbectrwm newydd. Roedd y camau olaf yn y prosiect hwn yn cynnwys trosglwyddo amrywiol ddosbarthiadau o drwyddedau sbectrwm i'r systemau technoleg gwybodaeth newydd, gan ddod â'r holl 250,000 o drwyddedau rydym yn eu gweinyddu dan un llwyfan cadarn a hyblyg. Mae Unify yn golygu bod modd integreiddio systemau trwyddedu â'r systemau rheoli cwsmeriaid a chyllid, sy'n arwain at brosesau sy'n fwy effeithlon a gwell gwasanaeth i gwsmeriaid. Gallwn yn awr wneud aseiniadau technegol, rheoli bilio a chyfrifyddu, a gweinyddu perchnogaeth a phrynu a gwerthu'r holl drwyddedau hyn mewn un system integredig. Mae ein rhanddeiliaid

[14] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/morr/statement/morrstatement.pdf

sbectrwm yn elwa o broses trwyddedu symlach, gwybodaeth sy'n haws cael gafael arni ac mewn rhai achosion, ffioedd is. Er enghraifft, mae Unify wedi galluogi Ofcom i ddarparu gwybodaeth sbectrwm y DU i'r System Gwybodaeth Amledd Ewropeaidd. Mae hyn wedi gwella hwylustod a thryloywder gwybodaeth o'r fath ar gyfer rhanddeiliaid a oedd yn flaenorol yn gorfod treulio hyd at 3 diwrnod gwaith yn cysylltu ag amrywiol weinyddiaethau ledled yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn amcangyfrif bod hyn wedi lleihau hyd at £1.4m y flwyddyn ar y costau gweinyddol.

A3.27 Ei gwneud yn haws prynu a gwerthu sbectrwm; mae prynu a gwerthu sbectrwm yn hyrwyddo arloesedd a thwf drwy agor cyfleoedd i fusnesau gael mynediad i amleddau radio y mae eu hangen arnynt. Er mwyn i fasnachu darparu'r manteision gorau posibl, mae'n bwysig cadw costau'r trafodion cyn ised â phosibl, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chydymffurfio â rheoliadau. Ymddengys fod y broses masnachu bresennol yn ormod o faich ar gyfer trafodion sbectrwm sydd yn uchel o ran swmp ond (fesul un) sydd â gwerth isel, megis y rheini sy'n ofynnol ar gyfer defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Ym mis Medi roeddem wedi cyhoeddi cynigion i symleiddio'r broses prynu a gwerthu er mwyn gwneud y farchnad sbectrwm yn fwy deinamig ac effeithlon. Yn benodol, roeddem yn cynnig hepgor y gofyniad i bartïon sy'n masnachu cael ein caniatâd, er mwyn caniatáu masnachu sydd wedi'i gyfyngu gan amser a chyflwyno amrywiad trosglwyddo sbectrwm a allai fwrw ymlaen heb yr angen i ni gyhoeddi trwydded newydd. Roeddem hefyd wedi archwilio posibilrwydd cyflwyno lesio sbectrwm ar ôl gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd. Gallai'r cynigion hyn dorri'r costau gweithredol i Ofcom ac, yn bwysicach, costau trafodion i werthwyr, prynwyr a chyfryngwyr. O ganlyniad, rydym yn disgwyl i ddefnyddwyr elwa o gyflwyno gwasanaethau newydd yn gynt a mwy o gystadleuaeth. Os yw rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion, byddwn yn gweithio at roi'r newidiadau hyn ar waith yn ystod ail hanner 2010.

A3.28 Rheoleiddio hysbysebu ar sianelu gwasanaeth cyhoeddus: Mae sianeli gwasanaeth cyhoeddus yn rhwym wrth reoleiddio caethach ar hysbysebu na sianeli eraill. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar gyfanswm y munudau hysbysebu, hysbysebu yn ystod oriau brig a dyletswydd i werthu eu rhestr o slotiau hysbysebu. Mae'r gofynion hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd refeniw i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan ychwanegu at gostau diwallu dyletswyddau cynnwys nad ydynt yn berthnasol i sianeli eraill. Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad yng ngwanwyn 2010 ar p'un a'i harmoneiddio'r rheolau yma ar draws sianelu cyhoeddus ac eraill ai peidio

A3.29 Lleihau'r cyfyngiadau ar leoli cynnyrch: Gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol elwa ymhellach yn sgil codi'r gwaharddiad ar leoli cynnyrch. Yn 2006 roeddem wedi amcangyfrif y gallai gwerth y farchnad lleoli cynnyrch fod rhwng £25m a £35m ar ôl pum mlynedd o ddadreoleiddio. Rhaid cael deddfwriaeth er mwyn caniatáu lleoli cynnyrch ac mae'r llywodraeth yn ymgynghori ynghylch ei chynigion ar hyn o bryd. Os caiff y ddeddfwriaeth ei phasio yn y gwanwyn, rydym yn disgwyl cyhoeddi dogfen ymgynghori'n trafod goblygiadau ehangach unrhyw newid ac archwilio pa reoleiddio, os o gwbl, y bydd ei angen.

## Mae rhagor o fanylion am weithgareddau dadreoleiddio a symleiddio ar gael yn y tablau canlynol

A3.30 Mae Rhan A'r tabl isod yn rhoi manylion cynlluniau symleiddio Ofcom yng nghyswllt defnyddwyr a dinasyddion. Mae Rhan B yn dangos cynlluniau symleiddio yng nghyswllt cystadleuaeth, ac mae Rhan C yn cynnwys gweithgareddau symleiddio yng nghyswllt seilwaith a sbectrwm.

A3.31 Mae'r tablau isod hefyd yn cynnwys gwaith parhaus a chynigion yr ymgynghorir yn eu cylch ar hyn o bryd lle mae mesurau symleiddio'n rhan o'r agwedd a ffefrir gan Ofcom. Fodd bynnag, mae'r canlyniad terfynol yn dibynnu ar ganlyniad y broses ymgynghori. I gael rhagor o fanylion, dylai darllenwyr edrych ar y datganiad neu'r ymgynghoriad perthnasol.

A3.32 Ar gyfer yr holl gynlluniau a restrir isod, rydym yn rhoi enw'r unigolyn i gysylltu ag ef neu hi i gael rhagor o wybodaeth. Gallwch anfon e-bost atynt (enwcyntaf.ailenw@ofcom.org.uk) neu ffonio switsfwrdd Ofcom ar 020 7981 3000.

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Adolygiad o Reolau Perchnogaeth Cyfryngau** | Adolygu gweithrediad y rheolau perchnogaeth cyfryngau roedd y Senedd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer teledu, radio a phapurau newydd ac argymell unrhyw newidiadau iddynt.<br><br>Mae'r rheolau perchnogaeth cyfryngau wedi'u hanelu at amddiffyn lluosogrwydd – gan ganiatáu i ddefnyddwyr gael gafael ar ffynonellau amrywiol o newyddion, gwybodaeth a barn. | Mae gennym ddyletswydd statudol i adolygu gweithrediad rheolau perchnogaeth y cyfryngau o leiaf bob tair blynedd, gan adrodd am ein hargymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.<br><br>Cynhaliwyd ein hadolygiad diwethaf o'r rheolau perchnogaeth cyfryngau ym mis Tachwedd 2006. | Roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ein hargymhellion arfaethedig ym mis Gorffennaf 2009.<br><br>Roeddem wedi archwilio'r ymatebion a gawsom (a oedd yn gefnogol gan fwyaf) a rhoi ein hargymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Tachwedd 2009, gan ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad.<br><br>Y Llywodraeth sydd bellach i ystyried pa gamau i'w cymryd ac, yn y pen draw, y Senedd fydd i wneud unrhyw newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth.<br><br>Cynhelir ein hadolygiad nesaf o'r rheolau perchnogaeth cyfryngau cyn pen y tair blynedd nesaf. | Ar ôl ymgynghori, roeddem wedi argymell:<br>- Cael gwared â'r rheolau sy'n ymwneud â pherchnogaeth gwasanaethau radio lleol a rheolau'n ymwneud ag amlblecsyddion radio lleol a chenedlaethol; a<br>- Rhyddfrydoli'r rheolau perchnogaeth ar draws cyfryngau lleol.<br><br>Bydd yr argymhellion hyn o fudd i ddinasyddion a defnyddwyr drwy helpu i sicrhau bod cynnwys lleol yn parhau i gael ei ddarparu'n fasnachol.<br><br>Byddant yn lleihau'r rheoleiddio ar y diwydiant radio, sy'n wynebu amodau marchnad anodd ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd gorsafoedd yn parhau i fod yn hyfyw.<br><br>Byddant o fudd i'r diwydiant cyfryngau lleol yn fwy cyffredinol drwy wella eu hyblygrwydd i ymateb i bwysau yn y farchnad. | **Nicole Shinnick** | **Cwblhawyd** |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC)** – Adolygiad o ddarpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 | Cryfhau a chynnal ansawdd darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.<br><br>Datblygu ac adolygu modelau tymor hir newydd posibl o ddarparu a chyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus.<br><br>Bydd cynulleidfaoedd yn elwa o'r argaeledd o'r gwasanaethau DGC maen't yn gwerthfawrogi fwyaf. | Ceir dyletswydd statudol i adolygu darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.<br><br>Roedd newidiadau yn economeg darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus oherwydd bod mwy o bobl yn defnyddio teledu digidol a newid i'r digidol, a defnyddio cyfryngau newydd, wedi rhoi pwysau ar fodelau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol. | Cafodd y datganiad terfynol ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2009.<br><br>Mae'r Llywodraeth yn mynd â chynlluniau rhagddynt ar gyfer Consortia Newyddion a Gyllidir yn Annibynnol. | Er mwyn gwneud gwasanaethau gwasanaeth cyhoeddus allweddol yn fwy cynaliadwy, roedd yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cyflwyno llacio dyletswyddau Sianel 3 yn y meysydd canlynol: newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau; rhaglenni eraill y gwledydd a'r rhanbarthau; materion cyfoes rhwydwaith; a chynhyrchu rhwydwaith y tu allan i Lundain.<br><br>Mae Llywodraeth EM yn gweithredu dewis a nodwyd yn Adolygiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom, ar gyfer Consortia Newyddion a Gyllidir yn Annibynnol. Byddai'n rhain yn darparu newyddion rhanbarthol a lleol i Sianel 3 ac ar sail aml-lwyfan, heb ddim cost i'r rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3.<br><br>Rydym hefyd wedi caniatáu arbedion cost i Five drwy leihau'r dyletswyddau i ddarparu rhaglenni gwreiddiol yn ystod oriau brig ac ar draws yr amserlen i gyd. | **Steve Perkins** | **Cwblhawyd** |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Adolygiad rheoleiddio hysbysebu**<br>Ymchwilio i'r cwmpas i symleiddio rheoleiddio hysbysebu yng ngoleuni'r Gyfarwyddeb AVMS newydd. | Roedd Cam 1 (Mawrth i Orffennaf 2008) yn symleiddio rheoleiddio drwy gael gwared ar nifer o'r rheolau manwl a rhagnodol. Cafodd y rhain eu crynhoi yn adroddiad symleiddio'r llynedd.<br>Roedd Cam 2 (Gorffennaf 2008 i Fai 2009) yn rhyddfrydoli'r drefn dele-siopa, yn cysoni patrymau egwyl ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r rheini nad oeddent yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni hwy, a | Mae'r Gyfarwyddeb AVMS, sy'n rhoi safonau sylfaenol ar gyfer darlledu, yn dileu nifer o reolau presennol am osod a dosbarthu egwyliau hysbysebu, yn ogystal â rhyddfrydoli'r rheolau sy'n ymwneud â nifer cyfartalog y munudau o hysbysebu a ganiateir. Caiff y DU bennu safonau sy'n cyfyngu mwy na'r lefel sylfaenol a bennir yn y gyfarwyddeb. | Ar ôl ymgynghoriad ar Gam 2, cyhoeddwyd datganiad ym mis Mai 2009. Daeth y rheolau i rym ar 1 Mehefin 2009. | Rydym yn disgwyl i'r rheolau symlach arwain at fanteision i wylwyr, i ddarlledwyr ac i hysbysebwyr. | **Peter Bourton** | **Cwblhawyd** |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | thynnu'r cyfyngiadau oriau brig ar hysbysebu ar GMTV rhwng 7am a 9am. | | | | | |
| **Gwefan newydd well i ddefnyddwyr** | Gwella cydymffurfiad a grymuso dinasyddion a defnyddwyr Bydd defnyddwyr cyfathrebu yn elwa | Mae angen lleihau'r pwysau ar Weithrediadau Canolog a galluogi mwy o hunan wasanaeth i ddefnyddwyr | Erthyglau newyddion wedi'u diweddaru'n rheolaidd wedi cael eu lansio ar yr hafan ym mis Medi 08. Safle dros dro i ddefnyddwyr wedi cael ei lansio ym mis Awst 09, gan gynnwys cyfleuster cwestiynau cyffredin poblogaidd iawn sy'n cael oddeutu 30,000 o gwestiynau bob mis. | Rydym yn credu y gallai hyn arwain at lai o alwadau i'r Gweithrediadau Canolog ac at ddefnyddwyr mwy gwybodus sy'n gallu cysylltu â'r mudiadau Datrys Anghydfod eraill perthnasol a datrys problemau eu hunain<br><br>Mae'r galw am ein gwasanaeth cwestiynau cyffredin wedi bod yn brawf o hyn. | **Julian Eccles** | **Cwblhawyd** |
| **Prawf gwarchod y defnyddwyr ar gyfer dyrannu rhifau ffôn** – annog y diwydiant i arddel agwedd o hunan reoleiddio at gyflwyno ystyriaethau gwarchod y defnyddwyr yn eu prosesau neilltuo rhifau | Sicrhau bod rhifau ffôn yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau a helpu i amddiffyn defnyddwyr rhag sgamiau, twyll a mathau eraill o gamddefnydd sy'n cynnwys rhifau ffôn. | Mae manteision yn perthyn i gyflwyno mecanwaith i wrthod dyrannu rhagor o nifer i unigolion a chwmnïau sydd wedi defnyddio rhifau i beri niwed i ddefnyddwyr yn y gorffennol. | Cyflwynwyd y prawf gwarchod y defnyddwyr i brosesau dyrannu Ofcom ar 1 Ionawr 2009. Cafodd y rhestri cyntaf o unigolion a chwmnïau y gwrthodwyd rhifau iddynt eu cyhoeddi ar 28 Ionawr 2009 ac maent wedi cael eu diweddaru'n achlysurol.<br><br>Er 1 Ionawr 2009, anogwyd defnyddwyr i wrthod neilltuo rhifau o rai ystodau i | Mae Ofcom wedi penderfynu, i ddechrau o leiaf, y bydd yn caniatáu i ddefnyddwyr reoleiddio eu hunain o ran cyflwyno prawf gwarchod y defnyddwyr yn eu prosesau neilltuo rhifau. Roeddem yn cydnabod y byddai cost a baich gweithredu'r prawf gwarchod y defnyddwyr yn debygol o amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr ac na fyddai modd mesur yr effaith heb roi cais beichus am wybodaeth. Ac ystyried amrywiaeth a nifer fawr y | **Elizabeth Greenberg** | **Cwblhawyd** |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | | | unigolion a chwmnïau ar y rhestri a gyhoeddwyd gan Ofcom o bobl sydd wedi defnyddio rhifau yn y gorffennol i achosi niwed difrifol neu gyson i ddefnyddwyr. | darparwyr, daethom i'r casgliad y byddai hunan reoleiddio'n galluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r fformat a oedd fwyaf addas i'w prosesau neilltuo rhifau a'r ffordd fwyaf priodol o amddiffyn buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ar y mater hwn. | | |
| **Rheoleiddio 'bod yn lleol' a fformatau cerddoriaeth ar radio masnachol**<br>Lleihau'r baich rheoleiddio ar y sector radio masnachol a sicrhau bod rheoleiddio radio yn addas ar gyfer yr oes ddigidol. | Nod ein cynigion yw sicrhau darpariaeth cynnwys radio lleol yn y dyfodol, cynyddu dewis ac amrywiaeth gwasanaethau radio, a sicrhau bod y sector radio masnachol yn hyfyw ac yn gallu addasu ar gyfer y byd digidol.<br><br>Bydd ein cynigion o fudd i'r sector radio masnachol a gwrandawyr radio, sydd wedi dangos eu bod yn gwerthfawrogi | Mae newidiadau strwythurol a chylchol yn y farchnad hysbysebu wedi taro'r sector radio masnachol lleol yn galed. Ar ben hynny, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i fwrw ymlaen ag uwchraddio digidol, a newid y fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio radio.<br>Ceir angen penodol i archwilio baich rheoleiddio ar y | Ar 6 Ebrill 2009 a 11 Mai 2009 roeddem wedi rhoi sylwadau i'r Llywodraeth (o'r enw *Radio in Digital Britain* a *Digital Britain – Building on the Myers Review* y naill a'r llall) fel rhan o'r broses adolygu Prydain Ddigidol. Roedd y sylwadau hyn yn amlinellu gweledigaeth gyfer dyfodol tair haen yn y dyfodol ar gyfer radio masnachol yn y DU, a nifer o fesurau roeddem yn meddwl y gellid eu rhoi ar waith i ysgafnhau'r baich rheoleiddio ar y sector radio. Ar ôl cyhoeddi Prydain Ddigidol roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad (*The implications of Digital Britain for Localness Regulation*) ar ein cynigion ar gyfer | Rydym wedi cynnig dadreoleiddio'r meysydd canlynol:<br>• rhoi'r rhyddid i orsafoedd radio masnachol lleol gydleoli a rhannu rhaglenni mewn ardaloedd penodol a ddiffinnir.<br>• rhoi'r rhyddid i orsafoedd rhanbarthol uno a dod yn orsafoedd cenedlaethol mewn achosion lle maent yn cytuno i ddarparu eu gwasanaeth sydd wedi'i uno ar amlblecs DAB cenedlaethol<br>• rhoi'r rhyddid i amlblecsau lleol uno mewn ardaloedd penodol a ddiffiniwyd ac ymestyn y ddarpariaeth i ardaloedd nad ydynt yn cael gwasanaeth | **Peter Davies** | **Cwblhawyd yn rhannol / Parhaus** |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | cynnwys lleol yn fawr. | sector a sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio'n gynaliadwy ac yn gydnaws â dyfodol digidol. | symleiddio rheoleiddio a fyddai'n dilyn newidiadau deddfwriaethol a gynigir gan y Llywodraeth. Drwy ymgynghori cyn unrhyw newid deddfwriaethol, ein nod yw lleihau'r oedi cyn symleiddio rheoleiddio y mae ein dadansoddiad yn awgrymu sy'n angenrheidiol ar gyfer goroesiad nifer o orsafoedd. | • rhoi'r rhyddid i amlblecsyddion rhanbarthol uno ac ymestyn ardaloedd eu darpariaeth i greu amlblecs â darpariaeth genedlaethol<br>• rhoi'r rhyddid i orsafoedd AM leol roi'r gorau i ddarparu rhaglenni lleol<br>• Rydym hefyd wedi cynnig edrych ar faes fformatau cerddoriaeth gyda golwg ar bosibilrwydd eu llacio<br><br>Bydd ein cynigion ynghylch gorsafoedd radio lleol yn lleihau'r baich rheoleiddio ar y sector yn sylweddol, gan alluogi gorsafoedd i gyflawni arbedion cost sylweddol a chyflawni graddfa well, a thrwy hynny rhoi'r diwydiant mewn sefyllfa well i wynebu'r sialensiau strwythurol a chylchol.<br><br>Drwy roi mwy o ryddid i amlblecsyddion a gorsafoedd rhanbarthol uno rydym yn gobeithio agor y drws i ragor o newid a chystadleuaeth mewn radio ar lefel genedlaethol a hwyluso dyfodiad strwythur diwydiant sy'n addas ar gyfer byd | | |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | | | | digidol. | | |
| **Cyd-reoleiddio hyfforddiant –**<br><br>Sicrhau bod y system cyd-reoleiddio ar gyfer hyfforddi a datblygu mewn darlledu yn parhau i ddarparu manteision clir drwy egluro swyddogaethau Ofcom, BTSR a Skillset. | Egluro cyfraniadau Ofcom, ei gyd-reoleiddiwr (y Rheoleiddiwr Sgiliau a Hyfforddiant Darlledu) a Skillset i hyfforddiant darlledu, gan ddileu unrhyw orgyffwrdd diangen, symleiddio darpariaeth data gan ddarlledwyr, a | Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau'n rhoi dyletswydd ar Ofcom yng nghyswllt hyfforddiant yn y sector darlledu. Lluniwyd Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Ofcom, y diwydiant a Skillset yn 2005 ac mae nawr angen ei adolygu yng ngoleuni strwythur y diwydiant sy'n newid yn gyflym, a phrofiad o reoleiddio ar y cyd. Y nod yw symleiddio trefniadau a lleihau dryswch ymhlith darlledwyr. | Mae BTSR yn parhau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n olrhain datblygu trefniadau hyfforddiant gan ddarlledwyr, drwy ddefnyddio fframwaith o hunanwerthuso a lunnir gyda darlledwyr. Cafodd yr adroddiad diweddaraf ei gyhoeddi ar wefan BTSR ym mis Gorffennaf 2009.<br><br>Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Ofcom Skillset a BTSR sydd wedi'u hanelu at egluro eu swyddogaethau a symleiddio darpariaeth data gan ddarlledwyr. | Roedd adolygiad Ofcom ym mis Medi 2008 yn datgan bod cyd-reoleiddio'n arwain at fwy o fanteision na'r dull blaenorol o reoleiddio uniongyrchol, gan gynnwys:<br><br>• gwell adborth a dadansoddiad ar gyfer darlledwyr o anghenion a gweithgarwch hyfforddi - ar lefel unigol ac ar lefel diwydiant, a synnwyr cliriach bod yr wybodaeth maent yn ei darparu yn cyflawni diben defnyddiol<br>• mwy o eglurder i ddarlledwyr ynghylch sut gallant wella eu perfformiad<br>• mwy o ddeialog agored ac adeiladol gyda darlledwyr, a phrynu-i-mewn gwella gan bob rhan o'r diwydiant<br><br>Dylai'r adolygiad presennol o swyddogaethau Ofcom, Skillset a BTSR helpu i leihau'r gorgyffwrdd rhwng y tri chorff, a symleiddio | **Peter Bourton** | **Cwblhawyd yn rhannol / parhaus** |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | | | | gofynion data darlledwyr. | | |
| **Rheoleiddio hysbysebu ar sianelu gwasanaeth cyhoeddus**<br>Caiff sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eu rheoleiddio'n gaethach yng nghyswllt hysbysebu na sianeli eraill, sy'n rhoi costau cyfle arnynt, ar ben costau cyflawni dyletswyddau cynnwys nad ydynt yn berthnasol i sianeli eraill. | Ymchwilio i'r cwmpas ar gyfer dileu / lleihau rheoleiddio caethach ar hysbysebu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cyfyngiadau ar gyfanswm y munudau hysbysebu, hysbysebu yn ystod oriau brig a gwerthu llai o hysbysebu<br>Gallai sianeli gwasanaeth cyhoeddus a'u gwylwyr elw o leihau'r rheoleiddio. | Mae Ofcom o'r farn nad oes cyfiawnhad mwyach dros rwystro sianeli gwasanaeth cyhoeddus rhag penderfynu a ydynt am werthu eu holl hysbysebu ai peidio. | Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2010 ar gysoni rheoleiddio hysbysebu ar sianelu gwasanaeth cyhoeddus ac eraill.. | Gallai sianeli gwasanaeth cyhoeddus elwa o leihau'r rheoleiddio, ond gallai rhai sianeli eraill golli refeniw. Byddwn yn dadansoddi effaith sefyllfaoedd gwahanol. | **Peter Bourton /Siobhan Walsh** | **Parhaus** |
| **(Adolygiad Côd Darlledu) Ail-archwilio agwedd** | Ein nod yw ail-archwilio ein hagwedd at | Mae'r amgylchiadau economaidd ar | Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch ei chynigion ar | Ymgynghorodd Ofcom ar y mater hwn yn 2006. Roedd ein hasesiad o'r effaith yn awgrymu y gallai | **Alison Marsden** | **Parhaus** |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Ofcom at gyfeiriadau masnachol mewn teledu a radio -** Asesu'r cwmpas ar gyfer lleihau'r cyfyngiadau ar nawdd, lleoli cynnyrch a chyfeiriadau masnachol eraill | reoleiddio cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu a radio. Byddwn yn ystyried a oes eisiau cael gwared ar rai o'r cyfyngiadau/rheolau presennol a lleihau'r beichiau rheoleiddio a allai fod yn ddianghenraid. Gallai'r adolygiad gynnig ffynonellau posibl o incwm ychwanegol, ar yr un pryd â chadw annibyniaeth olygyddol a digon o warchodaeth i ddefnyddwyr. Byddai hyn hefyd yn galluogi darlledwyr i gyllido a chynnig rhaglenni sy'n fwy difyr a pherthnasol i | gyfer nifer o'r rheini sy'n dal trwydded, yn enwedig yn y diwydiant radio, wedi gwaethygu. O ganlyniad, rydym yn archwilio'r cwmpas ar gyfer dadreoleiddio. Hefyd, mae'r Gyfarwyddeb AVMS yn caniatáu i aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ganiatáu lleoli cynnyrch mewn rhaglenni teledu. Ers hynny mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd efallai'n caniatáu lleoli cynnyrch ar raglenni teledu'r DU. Rydym yn teimlo y byddai'n briodol ystyried | gyfer lleoli cynnyrch. Os caiff lleoli cynnyrch ei ganiatáu, disgwylir y ddeddfwriaeth briodol yn ystod gwanwyn (Ch4) 2009/10. Bydd Ofcom yn ymgynghori ar y fframwaith a'r rheolau dilynol ar gyfer lleoli cynnyrch a materion masnachol eraill yn ystod haf (Ch1) 2010/11. | gwerth y farchnad lleoli cynnyrch fod oddeutu £25m - £35m ar ôl oddeutu pum mlynedd o ddadreoleiddio. O ran beichiau gweinyddol, bydd caniatáu hyd yn oed rhywfaint o leoli cynnyrch, a hynny wedi'i reoli, yn dal yn gofyn am reolau i'w lywodraethu. Fodd bynnag, mae'r cysyniadau y mae'n debygol y cânt eu cynnwys mewn unrhyw reolau eisoes yn gyfarwydd i ddarlledwyr y DU. | | |

| Rhan A. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Defnyddwyr a dinasyddion) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | wrandawyr. | goblygiadau ehangach unrhyw newid, ac archwilio pa reoleiddio, os o gwbl, sydd bellach yn angenrheidiol gan ystyried gofynion deddfwriaethol. | | | | |
| **Uwchraddio'r wefan** | Adolygu dyluniad a phensaernïaeth gwybodaeth ein safleoedd, gan eu gwneud yn haws eu defnyddio a'i bod yn haws cael gafael ar wybodaeth | Mae angen diweddaru a gwella hwylustod y wefan | Cam ymchwil i'w gwblhau cyn diwedd 2009 | Un o nodau clir y prosiect yw grymuso defnyddwyr a busnesau i ddod o hyd i bethau eu hunain ar wefan Ofcom – boed hynny ar gyfer trwyddedu, cwynion, cyngor neu ymchwil. | **Julian Eccles** | **Parhaus** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Adolygiad o'r farchnad band cul adwerthu** – adolygu'r marchnadoedd band cul adwerthu ac ystyried posibilrwydd lleihau rheoliadau. | Adolygu'r marchnadoedd band cul adwerthu i sicrhau bod unrhyw reoliadau'n adlewyrchu'r amodau cystadleuol cyfredol yn iawn.<br><br>Sicrhau bod rheoleiddio priodol ar waith. | Adolygiad gorfodol o'r marchnadoedd band cul adwerthu dan Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd y marchnadoedd hyn eu hadolygu diwethaf yn 2003 a gwelwyd llawer o ddatblygiadau yn y sector ers hynny. | Roeddem wedi cyhoeddi ein datganiad terfynol ar 15 Medi 2009. Ein casgliadau oedd bod y rhan fwyaf o farchnadoedd adwerthu'r DU, ac eithrio Hull, bellach yn gystadleuol i bob pwrpas ac, yn benodol, nid oes gan BT bŵer marchnad sylweddol mwyach o ran darparu mynediad analog band cul sefydlog adwerthu na marchnadoedd galwadau adwerthu naill yn y sector preswyl na'r sector busnes.<br><br>Er ein bod yn meddwl bod gan BT bŵer marchnad sylweddol o hyd yn y farchnad ISDN2, rydym o'r farn ei bod yn briodol dibynnu ar atebion cyfanwerthu yn unig yn y farchnad hon gan nad yw'r atebion adwerthu cyfredol bellach yn cynnig manteision ychwanegol i'r broses gystadleuol yn y pen draw.<br><br>Rydym wedi penderfynu bod arnom angen cynnal adolygiad arall o'r farchnad ISDN30 cyn i ni benderfynu a yw dal yn farchnad a ddiffinnir yn briodol ac, os felly, a yw'n gystadleuol. | Y penderfyniadau hyn yw'r cam nesaf mewn proses dadreoleiddio ar y lefel adwerthu sydd wedi cael ei chefnogi gan newidiadau i reoleiddio gwasanaethau cyfanwerthu BT. Yn 2006, roeddem wedi codi rheolaeth prisiau adwerthu, ac ystyried bod y gystadleuaeth yn y farchnad wedi gwella.<br><br>Rydym yn credu y bydd y dadreoleiddio yn arwain at gynnydd pellach mewn cystadleuaeth yn y marchnadoedd adwerthu hyn. Bydd BT yn gallu cystadlu'n fwy rhydd o ran cyflenwi bwndeli o wasanaethau sy'n cynnwys teleffoni sefydlog ynghyd â gwasanaeth telathrebu arall megis cyfathrebu symudol, band eang a theledu. Dylai hyn sicrhau y bydd cystadleuaeth yn parhau i esgor ar wella gwasanaethau a rhoi mwy o werth am arian i ddefnyddwyr. | **Markham Sivak** | **Cwblhawyd** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Dadreoleiddio'r farchnad Trawsgludo Tandem Lleol** | Yr amcan yw canfod a oes cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad. Os felly, cael gwared ar reoleiddio presennol. Os nad oes, rhoi digon o reoleiddio er mwyn rhoi sylw i'r pryderon cystadleuaeth.<br><br>Gan fod hon yn farchnad cyfanwerthu, CPs fydd yn elwa fwyaf, ond yn y pen draw dylid trosglwyddo effaith cystadleuaeth i ddefnyddwyr.<br><br>Yng nghyswllt Trawsgludo Tandem Lleol rydym wedi gweld bod y farchnad yn gystadleuol ac o'r | Adolygiad gorfodol o'r marchnadoedd band cul cyfanwerthu dan Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd. | Cyhoeddwyd y datganiad terfynol ar 15 Medi 2009. | Mae rheoleiddio BT yn y gorffennol wedi caniatáu i CPs weithredu yn y farchnad hon. Mae'r rheoleiddio hyn, ynghyd â dyletswyddau mewn marchnadoedd perthnasol, wedi caniatáu i'r CPs hyn gynyddu eu cyfran o'r farchnad a defnyddio eu seilwaith eu hunain i gystadlu mwy a mwy â BT. O'r herwydd, mae cael gwared ar y rheoleiddio yn ganlyniad i fanteision sydd eisoes wedi'u cyflawni ac mae'n cydnabod y dirwedd gystadleuol sydd wedi datblygu. Dim ond oddeutu 25% o draffig CPs eraill sydd bellach yn defnyddio Trawsgludo Tandem Lleol a ddarperir gan BT, mae'r 75% arall naill a'i darparu eu hunain neu'n cael eu darparu gan gystadleuwyr BT.<br><br>Wrth ddadreoleiddio'r farchnad Trawsgludo Tandem Lleol, rydym wedi cael gwared ar nifer o ddyletswyddau rheoleiddio oddi ar BT, gan gynnwys gofynion i gyhoeddi gwybodaeth am ei gynnyrch a | **Steve Perry** | **Cwblhawyd** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | herwydd rydym wedi tynnu'r holl reoleiddio oddi ar BT (er bod cyfnod trosiannol i osgoi amharu ar y farchnad yn y tymor byr). | | | rheoleiddio prisiau (gogwydd costau a rheolaeth ffioedd).<br><br>Mae refeniw BT o'r farchnad Trawsgludo Tandem Lleol oddeutu £87m y flwyddyn (gan gynnwys gwerthu mewnol i weithrediadau adwerthu BT – mae'r gwerthu allanol yn £30m).<br><br>Bydd dileu'r rheoleiddio'n caniatáu i BT gystadlu â darparwyr eraill yn y farchnad hon, gan gynnwys caniatáu hyblygrwydd prisiau (er enghraifft caniatáu prisiau rhatach ar sail fesul cwsmer.) | | |
| **Terfynu galwadau – rheoleiddio gweithredwyr sy'n terfynu traffig daearyddol sefydlog ac eithrio BT a KCOM (yn Hull)** | Mae gan bob CP y dyrannwyd rhifau daearyddol iddynt bŵer marchnad o ran terfynu traffig i'r rhifau hyn. Nod rheoleiddio yn y maes hwn yw sicrhau nad oes modd defnyddio pŵer y farchnad i osod prisiau rhy ddrud a fyddai | Adolygiad gorfodol o'r marchnadoedd band cul cyfanwerthu dan fframwaith yr Undeb Ewropeaidd. | Rydym wedi dod i'r casgliad bod y dull presennol i fynnu bod pob CP yn pennu cyfraddau teg a rhesymol yn dal yn briodol. Mae'r dull rheoleiddio hwn wedi bod ar waith yn y DU ers amser maith. Fodd bynnag, rydym yn ymgynghori ar un ddyletswydd bellach i fynnu bod CPs yn cyhoeddi eu cyfraddau i sicrhau tryloywder.<br><br>Roeddem yn credu ei bod yn anghymesur gosod mwy o | Bydd unrhyw reoleiddio a osodir yn y farchnad hon yn cael effaith ar y nifer fawr iawn o CPs yn y DU sy'n darparu'r gwasanaeth hwn (mae rhai o'r rhain yn ddarparwyr bach). Ar gyfer nifer o'r chwaraewyr hyn gallai baich diwallu dyletswyddau rheoleiddio megis rheolaeth ffioedd neu ofynion i gyhoeddi cynigion cyfeirio manwl fod yn ormod o faich (i'r graddau y gallai cost diwallu'r dyletswyddau fod yn | **Steve Perry** | **Cwblhawyd yn rhannol / parhaus** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r cwsmer. | | reoleiddio caeth megis rheolaeth prisiau penodol neu ormod o ddyletswyddau gwahaniaethu ar bob CP.<br><br>Roedd ein datganiad a gyhoeddwyd ar 15 Medi yn rhoi dyletswydd i osod cyfraddau ar delerau teg a rhesymol. Rydym wedi ymgynghori ymhellach ar ofynion cyhoeddi ac yn disgwyl cyhoeddi datganiad terfynol maes o law | fwy na mantais darparu'r gwasanaeth).<br><br>Mae ein dull yn seiliedig ar ddarparu fframwaith rheoleiddio ar y cyd. Mae Ofcom yn pennu'r dyletswyddau cyffredinol ac mae'r diwydiant yn cytuno ar delerau masnachol penodol o'u mewn. Gan fod y dull hwn wedi gweithio yn y gorffennol, rydym wedi dod i'r casgliad nad oes eisiau rheoleiddio sy'n fwy rhagnodol. | | |
| **Newid arfaethedig i reoleiddio Trawsgludo Sengl** | Mae gwasanaethau trawsgludo'n cael eu darparu gan ddarparwyr trawsgludo i CPs eraill i anfon traffig i'w gilydd pan nad oes modd iddynt gydgysylltu'n effeithlon â'u rhwydweithiau'n uniongyrchol.<br><br>Yn yr un modd â Thrawsgludo | Adolygiad gorfodol o'r marchnadoedd band cul cyfanwerthu dan Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd. | Rydym wedi cynnig bod BT yn parhau i gael pŵer marchnad sylweddol yn y farchnad hon. Roeddem felly wedi cynnig cyfres o atebion i roi sylw i'r pŵer marchnad sylweddol hwn, ond roeddem wedi cynnig y byddem yn dileu'r rheolaeth ffi. Mae rheolaeth ffi wedi bod yn y farchnad hon o ganlyniad i adolygiadau blaenorol o'r farchnad.<br><br>Ar ôl ymgynghori rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad maes o law. | Roedd refeniw BT o drawsgludo sengl yn 2008/9 yn £5 miliwn. Bwriad dileu rheolaeth ffioedd yw adlewyrchu refeniw isel y farchnad hon o gymharu â marchnadoedd cyfanwerthu eraill.<br><br>Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd cost i BT yng nghyfyngiadau atebion eraill (gogwydd prisiau a dim gormod o wahaniaethu). Roeddem o'r farn bod eisiau'r atebion eraill hyn i sicrhau bod pob CP yn cael ei drin yn deg | **Steve Perry** | **Cwblhawyd yn rhannol / parhaus** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | Tandem Lleol, CPs yw prif fuddiolwyr rheoleiddio'r farchnad hon, ond yn y pen draw caiff manteision hyn eu hadlewyrchu mewn cynnyrch sy'n cael eu gwerthu i ddefnyddwyr.<br><br>Wrth adolygu'r farchnad hon rydym wedi asesu a yw pŵer y farchnad gan BT, yn enwedig yng nghyswllt ei wasanaeth trawsgludo sengl, ar sail lefel y cydgysylltu sydd ganddo yn y DU ac i ba raddau y gallai effeithio ar CPs eraill drwy beidio â chynnig gwasanaethau ar y lefel hon o | | | wrth brynu'r gwasanaeth hwn gan BT. | | |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | ryngysylltu. | | | | | |
| **Offer Echdynnu Data Adrodd Ariannol -**<br>Offer i alluogi Ofcom i ymholi data cyfrifyddu rheoleiddio craidd a roddir gan BT | Arloesi mewn cyfrifyddu rheoleiddio i wella cyflymder a chywirdeb adrodd rheoleiddio | Mae'r datblygiad hwn yn galluogi Ofcom i ymholi'n uniongyrchol data cyfrifyddu rheoleiddio BT, sy'n arwain at lai o geisiadau am wybodaeth ad-hoc a rheini wedi'u targedu'n well. | Mae gwaith ar weithredu'n parhau – rydym yn disgwyl i'r profion beta ddod i ben erbyn diwedd 2009. | Mae mabwysiadu'r offer yn debygol o arwain at geisiadau Adran 135 ad-hoc wedi'u targedu'n well i gael gwybodaeth. Rydym yn disgwyl i hyn arwain at arbedion i Ofcom a baich gweinyddol llai o oddeutu £0.1m/y flwyddyn i BT. | **Gavin Greenfield** | **Cwblhawyd yn rhannol / Parhaus** |
| **Dyblygedd PPC** – adolygiad o gydymffurfiad BT â dyblygedd cynnyrch llinellau les adwerthu | Adolygu cydymffurfiad BT â Datganiad Dyblygedd mis Ebrill 2006 Ofcom, a oedd yn rhoi rhestr o fethiannau ar ran BT yr oedd angen eu trwsio. Byddai BT yn elwa o ddatganiad cydymffurfio, gan y byddai'n arwain at lefel o ddadreoleiddio ar | Mae BT wedi rhoi Datganiad cydymffurfio i Ofcom, ac mae arnom angen penderfynu a yw BT wedi diwallu'r holl amodau cydymffurfio | Mae gwaith prosiect ar droed.<br>Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Awst 2009.<br>Mae'n debygol y cyhoeddir datganiad erbyn diwedd Ch1 2010-11. | Yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad, efallai y byddwn yn caniatáu i BT gynnig prisiau pwrpasol ar gyfer rhai o'i fwndeli gwasanaeth neu'r cyfan sy'n cynnwys llinellau les lled band isel.<br>Mae cynigion ar gyfer dadreoleiddio yn cynnwys caniatáu i BT brisio'n fwy hyblyg, o bosibl gan arwain at fwy o gystadleuaeth effeithiol a phrisiau is i ddefnyddwyr. | **Serafino Abate** | **Parhaus** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | gyfer BT; yn benodol gellid rhyddhau BT o orfod cydymffurfio â rhestr brisiau wedi'i chyhoeddi, a gallai brisio llinellau ar les ar sail bwrpasol. Gallai defnyddwyr busnes elwa o'r cynnydd mewn cystadleuaeth a fyddai'n deillio o hyn. | | | | | |
| **Adolygiad fframwaith telathrebu** – pwyso am y fframwaith UE diwygiedig i adlewyrchu amcanion Ofcom, yn benodol:<br><br>a) Cynnal trefn Ofcom sy'n ysgafn ac wedi'i ffocysu ar gyfer telathrebu; | Sicrhau y dylai'r adolygiad presennol arwain at drefn sy'n seiliedig ar egwyddorion sy'n seiliedig ar gystadleuaeth ac sydd hefyd yn gallu ymateb i'r sialensiau a berir gan esblygiad yn y farchnad ac | Mae cyfran fawr o Ddeddf Cyfathrebiadau, 2003 yn trawsosod fframwaith yr UE i gyfraith y DU. Ceir gofyniad cyfreithiol i adolygu gweithredu Fframwaith y DU dim mwy na 3 blynedd ar ôl | Roedd y Comisiwn wedi cyhoeddi ei gynigion deddfwriaethol terfynol ym mis Tachwedd 2007 a oedd yn amodol ar drafodaethau yng Nghyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop er mis Rhagfyr 2007.<br><br>Fel diwedd mis Tachwedd, mae'r pecyn o ddiwygiadau wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor. Rydym yn erfyn iddo gael ei drawsosod i gyfraith genedlaethol cyn pen 18 | Roedd Ofcom wedi ceisio sicrhau nad oedd cynigion y Comisiwn ar gyfer diwygio ddim yn creu haenau o fiwrocratiaeth ddiangen nac yn ychwanegu at y baich rheoleiddio ar fusnes ar yr un pryd â sicrhau ei fod wedi'i rymuso i hyrwyddo buddiannau cwsmeriaid. Ein nod oedd sicrhau bod:<br><br>a) Nhras yn cadw'r hawl i ddefnyddio atebion cymesur | **Camilla Bustani** | **Parhaus** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| b) Rhoi sgôp ar gyfer dadreoleiddio pan fo hynny'n briodol, ee yn y rhestr o farchnadoedd a argymhellir.<br><br>c) Cefnogi rhyddfrydoli rheolau trwyddedu sbectrwm. | mewn technoleg.<br><br>Bydd hyn o fudd i'r holl ddefnyddwyr Ewropeaidd, gan gynnwys y rheini yn y DU, ac yn hwyluso mynediad haws i'r farchnad ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfathrebu electronig. | cyflwyno. Rhaid i'r argymhelliad "marchnadoedd perthnasol" gael eu "hadolygu'n rheolaidd" hefyd. | mis. | ac wedi'u targedu heb arolygiaeth heb ei warantu gan y Comisiwn;<br><br>b) nid yw'r broses adolygu'r farchnad yn rhy ragnodol a biwrocrataidd;<br><br>c) mae rheolau rheoleiddio wedi'u cysoni a'u targedu ledled yr UE er budd busnesau a defnyddwyr yn y DU; a<br><br>d) bod yr adolygiad yn cefnogi rhyddfrydoli rheoli sbectrwm. | | |
| **Datblygiad y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd** – sicrhau bod ei waith wedi'i ffocysu (ar faterion a marchnadoedd blaenoriaeth) yn effeithlon ac yn dryloyw.<br><br>Sicrhau bod y trawsnewid i BEREC (Corff Rheoleiddwyr | Codi ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol rheoleiddio telathrebu ar draws Ewrop.<br><br>Bydd hyn yn gwella lles economaidd ar gyfer dinasyddion yr UE a bydd o fudd i gwmnïau'r DU sy'n gweithio mewn gwledydd | Roedd Ofcom wedi cadeirio'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd yn 2006 ac roedd yn Is-gadeirydd yn 2007, gan roi cyfle i hybu diwygio. Ers hynny mae wedi parhau i weithio'n agos â Chadeiryddion y Grŵp | Roedd y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd wedi ymrwymo cyfres o ddisgyblaethau rheoleiddio ddiwedd 2006, y dechreuodd eu gweithredu yn ystod 2007. Mae Ofcom wedi chwarae rhan ganolog o ran y gweithredu hwn.<br><br>Bwriad y cynlluniau hyn yw hybu mwy o gysoni rhwng dulliau gweithredu rheoleiddio ar draws Ewrop, ac adlewyrchu ymrwymiad y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd i ddiwygio. Mae ymrwymiad y Grŵp Rheoleiddwyr | Bydd manteision uniongyrchol yn llifo i gwmnïau'r DU sy'n gweithio ar draws Ewrop yn sgil mwy o gysoni dulliau gweithredu rheoleiddwyr cenedlaethol gwahanol yng nghyswllt materion allweddol. Bydd hyn yn lleihau'r baich rheoleiddio, yn ogystal ag yn hyrwyddo marchnadoedd sy'n fwy agored a chystadleuol.<br><br>Mae rhaglen diwygio'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd hefyd yn hybu lleihau beichiau gweinyddol sy'n deillio o | **Camilla Bustani** | **Parhaus** |

| Rhan B. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Cystadleuaeth) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| Ewrop ym maes Cyfathrebu Electronig) yn digwydd yn llyfn a gan amharu cyn lleied â phosibl ar ei waith, a bod yr ysgrifenyddiaeth newydd a fydd yn cael ei chreu dan Reoleiddio BEREC yn fach, yn effeithlon a ddim yn fiwrocrataidd | eraill.<br><br>Bydd y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd/BEREC effeithiol yn gwanhau'r achos dros ganoli rheoleiddio'n amhriodol ar lefel yr UE.<br><br>Bydd ysgrifenyddiaeth syml yn osgoi biwrocratiaeth a chostau cysylltiedig ychwanegol diangen | Rheoleiddwyr Ewropeaidd a chymryd rhan weithredol yn nhimau prosiect y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd.<br><br>Mae hyn wedi cyd-daro ag adolygiad y Comisiwn o weithrediad fframwaith yr UE. Yn wir, un o ganlyniadau'r adolygiad yw disodli'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd â BEREC, a chreu corff Cymunedol bach i weithredu fel ysgrifenyddiaeth BEREC. | Ewropeaidd i ddiwygio a'i record am hynny wrth galon ei ddadleuon yn erbyn canoli pŵer rheoleiddio'n amhriodol ar y lefel Ewropeaidd, ac mae wedi arwain at ei ddisodli gan BEREC, yn hytrach nag "uwch-reoleiddiwr" Ewropeaidd newydd. | ddulliau gwahanol o ran atebion a gofynion rheoleiddio eraill. | | |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Radio busnes** – symleiddio'r trefniadau trwyddedu presennol | Symleiddio trefniadau trwyddedu presennol, lleihau beichiau rheoleiddio ar randdeiliaid, cynyddu hyblygrwydd technegol, ac ymestyn y farchnad sbectrwm yn y sector hwn.<br>Bydd hyn o fudd i ystod eang o ddefnyddwyr yn y sector o dacsis y stryd fawr i fusnesau mawr a gwasanaethau brys. Ar hyn o bryd mae Ofcom yn cyhoeddi oddeutu 52,000 o drwyddedau radio mewn radio busnes. | Mae'r cynigion yn rhan o ddull fesul cam at gyflwyno argymhellion yr Adolygiad o Fframwaith Sbectrwm.<br>Mae'r cynigion yn ymelwa o'r cyfleoedd a gynigir gan ein systemau TG newydd. Maent wedi golygu bod modd symleiddio a darparu gwasanaethau gwell i randdeiliaid. | Cafodd ymgynghoriad ei lansio ym mis Gorffennaf 2006 gyda bwriad i fwrw ymlaen â mesurau a gadarnhawyd gan y datganiad ym mis Ionawr 2007.<br>Ymgynghorwyd ynghylch y rheoliadau ar gyfer gweithredu'r categorïau trwydded newydd, gan gynnwys ffioedd a'u gwneud fel bod modd eu prynu a'u gwerthu, a chafodd argymhellion eu gwneud ddiwedd mis Awst 2008.<br>Cafodd gweithredu'r trwyddedau newydd ei alluogi drwy ddarparu'r prosiect Unify. Roedd modd prynu a gwerthu pob trwydded Radio Busnes (52,000) ac eithrio GSM-R a Radio Diogelwch Cyhoeddus.<br>Cafodd pob cwsmer drwydded ddiwygiedig ac ni fu newid yn ffioedd dros 90% ohonynt neu cafodd eu ffioedd eu gostwng. | Mae'r 21 math blaenorol o drwydded wedi bod yn dri math sylfaenol.<br>Mae 35,000 o drwyddedau wedi cael eu symleiddio. Mae'r rheini sy'n dal trwydded nawr yn elwa o'r gallu i brynu a gwerthu sbectrwm ac o fwy o hyblygrwydd, ee gallu newid defnydd y sbectrwm heb gymeradwyaeth Ofcom.<br>Mae 15,000 o drwyddedau wedi cael eu symleiddio ymhellach, drwy drefn 'trwyddedu ysgafn' lle nad yw Ofcom yn gwneud dim aseinio. Yn lle hynny, mae defnyddwyr yn rheoli eu dyraniad eu hunain. Mae'r broses hon yn ymestyn y cylch adnewyddu o'r un bresennol o un neu dair blynedd i bum mlynedd safonol, a drwy hynny lleihau'r beichiau gweinyddol oddeutu 50%. Mae ffurflen gais 45 adran (10 tudalen) wedi cael ei chwtogi i ffurflen ar-lein dwy adran.<br>Dylai hyn leihau'r gost i ddefnyddwyr ar gyfer y categorïau hyn o drwyddedau radio busnes oddeutu **£0.2m** oherwydd llai o | **Paul Jarvis** | **Cwblhawyd** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | | | Roedd y diwydiant yn croesawu symud trwyddedau ysgafn i dymor o 5 mlynedd am ffi o £75. | ofynion ar gyfer ffioedd trwydded.<br><br>Mae'r rheini sy'n dal trwyddedau hefyd yn elwa oherwydd ei bod yn rhaid gwneud cais am drwyddedau a'u hadnewyddu'n llai aml. A thybio bod yr amser a dreulir ar bob cais wedi lleihau o ddwy awr i awr, a gan roi gwerth ar hyn o £16 yr awr, gellid cyflawni arbediad ychwanegol o oddeutu **£0.2m.** | | |
| **Gwybodaeth sbectrwm** – mynediad gwell at fwy o wybodaeth am ddefnyddio sbectrwm | Datblygu marchnad sbectrwm yn well drwy fwy o dryloywder a defnyddio adnoddau'n well. Bydd yn dod â manteision i ddefnyddwyr sbectrwm ac yn y pen draw i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Gweithredu gofynion y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. | Mae mynediad hwylus i wybodaeth gynhwysfawr yn allweddol er mwyn rhedeg y marchnadoedd yn llwyddiannus. Mae'r farchnad sbectrwm yn trosglwyddo locws rheoli sbectrwm o'r rheoleiddiwr i ddefnyddwyr sbectrwm (hy mae'r wybodaeth yn rhan o ymdrech dadreoleiddio ehangach). Mae | Mae Ofcom wedi datblygu systemau TG newydd sydd wedi ein galluogi i ddarparu gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm y DU i'r System Gwybodaeth Amledd Ewropeaidd, gan sicrhau bod y DU yn cydymffurfio'n llawn â gofynion yr UE ar Wybodaeth Sbectrwm ymhell cyn y dyddiad cau perthnasol.<br><br>Rydym hefyd wedi datblygu fersiwn gwell o'r Gofrestr Telegraffiaeth Di-wifr a Chynllun y DU ar gyfer Awdurdodi Amledd o 2009 ymlaen.<br><br>Yn fwy diweddar, rydym wedi ymgynghori ar wella | Bydd hwyluso hunan gydlynu a rheoli ymyrraeth ymysg rhanddeiliaid yn gwella mynediad i wybodaeth ac yn lleihau nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau eraill am wybodaeth.<br><br>Er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm DU i'r EFIS, rydym wedi gwella hwylustod a thryloywder gwybodaeth o'r fath ar gyfer rhanddeiliaid a oedd yn flaenorol yn gorfod treulio hyd at 3 diwrnod gwaith yn cysylltu ag amrywiol weinyddiaethau ledled yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn amcangyfrif y gallai rhanddeiliaid leihau eu costau gweinyddol | **Paul Chapman** | **Wedi symud ymlaen ymhellach** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | | arnom angen sicrhau ein bod yn arddel yr agwedd hon at sbectrwm yn gyson, ar yr un pryd â chydnabod pryderon dilys ynghylch cyfrinachedd. | mynediad at wybodaeth sydd eisoes ar gael am ddefnyddio sbectrwm a darparu gwybodaeth newydd i gefnogi datblygu'r farchnad sbectrwm ymhellach. | cysylltiedig cymaint â £1.4m y flwyddyn. (Rydym yn tybio bod y system yn caniatáu i gyfartaledd o 3000 o randdeiliaid arbed gwerth 16 awr o waith y flwyddyn, ar werth o £30 yr awr.) | | |
| **Dyfarnu sbectrwm (amrywiol brosiectau)** – Dyfarnu sbectrwm newydd | Dyfarnu bandiau sbectrwm amrywiol, a fydd o fudd i ddefnyddwyr sbectrwm a defnyddwyr. | Sicrhau bod y sbectrwm radio'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon, er mwyn hybu cystadleuaeth ac arloesedd, a thrwy hynny dod â manteision i ddefnyddwyr. | Cynhaliwyd arwerthiant 10, 28, 32 a 40 GHz ac arwerthiant Band L yn 2008. Cafodd dyfarniadau rhyngddalennog daearyddol yr Adolygiad o'r Difidend Digidol - dyfarniadau ar gyfer Caerdydd a Manceinion eu cynnal yn 2009<br><br>Yn dilyn cynigion BIS Prydain Ddigidol, tynnodd Ofcom ei gynlluniau'n ôl i ddyfarnu 2.6 GHz. Ym mis Hydref 2009, cyhoeddodd BIS ymgynghoriad ar gyfeiriad i Ofcom a fyddai, ymysg pethau eraill, yn mynnu bod Ofcom yn dyfarnu 2.6 GHz a 800 MHz ar y cyd.<br><br>Mae Ofcom yn parhau i | Dylai'r agwedd at y dyfarniadau, yn enwedig yr agwedd niwtral o ran gwasanaeth a thechnoleg, y trwyddedau amhenodol a chyflwyno masnachu ar gyfer y trwyddedau, arwain at lai o reoleiddio yng ngwaith rheoli'r sbectrwm hwn yn y dyfodol, ac felly dylai hyn ysgafnhau'r beichiau rheoleiddio. | **Tim Cross** | Wedi symud ymlaen ymhellach |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | | | ystyried sut mae dyfarnu gweddill yr Adolygiad o'r Difidend Digidol hy 600 MHz a sbectrwm GI y mae'n disgwyl ei wneud tua diwedd 2011. | | | |
| **Radio awyrofod** – Canfod ffyrdd o leihau baich rheoleiddio trwyddedu sbectrwm yn y sector awyrofod. | Adolygu trwyddedu radio awyrofod i bennu a yw'n cyd-fynd â lefel yr ymyriad rheoleiddio y mae ei angen i sicrhau bod sbectrwm radio awyrofod yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.<br><br>Bydd Ofcom yn ystyried effaith unrhyw ddiwygiadau a gynigir ar y diwydiant ac ar y rheoleiddiwr. | Rhan o'r trwyddedu sbectrwm adolygu ehangach a anelir at leihau beichiau gweinyddol. | Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio er mwyn caniatáu i weithredu'r Archwiliad Annibynnol o Ddaliadau Sbectrwm (Archwiliad Cave).<br><br>**Ddechrau 2010, mae ffioedd trwyddedau radio awyrennau'n newid o daliad blynyddol i daliad bob tair blynedd, gostyngiad blynyddol *de facto o* 66% mewn ffioedd gyda rhagor o arbedion gweinyddol ar gyfer y rheini sy'n dal trwyddedau.**<br><br>**Rydym hefyd yn archwilio'r posibiliadau ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros drwyddedu Deddf WT i'r CAA.** | Pan fo'n briodol, byddwn yn argymell ac yn gweithredu diwygiadau trwyddedu radio awyrofod. Y cam astudiaeth dichonoldeb fydd yn pennu i'r graddau y caiff y beichiau rheoleiddio eu lleihau. | **Fraser Murrey** | **Wedi'i gwblhau'n rhannol / Wedi'i ohirio – er mwyn disgwyl am weithredu AIP i radio awyrofod.** |
| **Lleihau rheoleiddio** | Adolygu'r cyfyngiadau ar | Ar hyn o bryd mae'r llwyfan | Rydym yn ystyried ehangu'r ystod o safonau trawsyrru a | Gallai ystod ehangach o safonau technegol a ganiateir cynyddu'r | **Peter** | **Cwblhawyd yn rhannol** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **llwyfan teledu daearol digidol** – Ystyried y cwmpas ar gyfer dadreoleiddio | amlblecsyddion teledu daearol digidol.<br><br>Bydd defnyddwyr, darlledwyr a gweithredwyr amlblecs teledu daearol digidol yn elwa. | teledu daearol digidol yn dod dan lawer o reoleiddio o'i gymharu â llwyfannau teledu eraill. | chywasgu technegol y ceir eu defnyddio gan weithredwyr amlblecs teledu daearol digidol.<br><br>Mae gwaith wedi cael ei gwblhau i ychwanegu DVB-T2 a MPEG-4 at y safonau technegol a ganiateir ar deledu daearol digidol (gyda chysyniad Ofcom).<br><br>Bwriedir y bydd gwasanaethau teledu manylder uwch yn dechrau darlledu ar amlblecs B teledu daearol digidol ym mis Rhagfyr 2009 a disgwylir iddynt fod ar gael i 50% o gartrefi erbyn canol 2010. | ystod o wasanaethau y gellid eu cynnig ar y llwyfan teledu daearol digidol.<br><br>Mae'r gwaith a wneir ar ryddhau capasiti ar deledu daearol digidol yn effeithio'n uniongyrchol ar ddefnyddwyr i elwa o wasanaethau newydd ar deledu daearol digidol gan gynnwys teledu manylder uwch, heb leihau argaeledd gwasanaethau eraill. | **Madry** | **/ Parhaus** |
| **Lleihau rheoleiddio ar gyfer terfynellau defnyddwyr lloeren** – Mae'n cynnwys eithriad trwydded ar 28 GHz a symleiddio a llacio ar 14 GHz. | Lleihau'r beichiau rheoleiddio a hybu defnyddio gwasanaethau newydd.<br><br>Pontio'r gagendor digidol drwy hyrwyddo argaeledd gwasanaethau band eang mewn ardaloedd | Roedd y rheoliadau presennol yn rhy feichus.<br><br>Roedd natur hollbresennol defnyddio terfynell yn gofyn am lefel isel o reoleiddio.<br><br>Anawsterau o ran | Roeddem wedi cwblhau amrywio trwyddedau Rhwydwaith ym mis Ebrill 2008 er mwyn cyfyngu'r angen i gael caniatâd ar gyfer terfynellau lloeren unigol yn gweithredu ar 14 GHz.<br><br>Rheoliadau Eithrio (SI 2008, Rhif 2426) a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2008. Mae'r rheoliadau hyn yn eithrio'r angen i gael trwydded ar | Mae'n dileu'r angen i glirio a chofrestru terfynellau defnyddwyr lloeren unigol (amcangyfrifir bod 20,000 o derfynellau, gyda 150 o derfynellau newydd / derfynellau'n cael eu tynnu bob mis).<br><br>Mae'r adborth gan randdeiliaid yn gadarnhaol dros ben ar sail yr amgylchedd sydd wedi'i ddadreoleiddio i raddau helaeth o ganlyniad i'r newidiadau hyn. | **James Richardson** | **Cwblhawyd yn rhannol / parhaus** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | gwledig / maestrefol.<br>Symleiddio a rhesymoli ein trefniadau trwyddedu.<br>Bydd busnesau a defnyddwyr ar eu hennill | cydymffurfio â'r amodau cyffredinol a'u gorfodi. | gyfer systemau lloeren sefydlog dwysedd uchel (HDFSS) yn gweithredu yn y band 28 GHz, ar yr amod nad yw'r pŵer sydd wedi'i belydru o un derfynell heb fod dros 50 dBW.<br>Rydym yn parhau i archwilio posibiliadau ar gyfer llacio ymhellach mewn trwyddedu rhwydweithiau gorsafoedd lloerennau daearol ac eithriadau trwyddedau HDFSS. | Mae newidiadau yn debygol o hyrwyddo argaeledd band eang mewn ardaloedd gwledig ymhellach.<br>Rydym hefyd yn awr yn gweld cynnydd yn y galw am fand eang defnyddwyr drwy loeren sy'n sail i'n hymyriad amserol yn y maes hwn. | | |
| **Ymestyn rhyddid trwydded** | Cydymffurfio â 8(4) Deddf WT a dyfeisiau sydd wedi'u heithrio o drwydded nad ydynt yn debygol o olygu gormod o ymyrraeth. Gweithredu Penderfyniadau'r UE ar ryddid trwydded. Ysgafnhau'r baich rheoleiddio a galluogi mynediad at sbectrwm ar | Gofyniad Deddf WT a Phenderfyniadau'r UE.<br>Mae'n ysgafnhau'r beichiau rheoleiddio ac yn galluogi defnyddio technoleg newydd arloesol yn enwedig ar gyfer nwyddau traul a ddefnyddir yn eang. | Cafodd rheoliadau eu gwneud ym mis Gorffennaf 2009 ar gyfer dyfeisiau pellter agos (gan gynnwys manylder uwch di-wifr) ac ym mis Hydref 2009 ar gyfer UWB.<br>Disgwylir rhagor o waith yng nghyswllt rhyddid trwydded ar gyfer dyfeisiau ychwanegol dros y misoedd nesaf. | Dylai'r gwaith hwn arwain at ysgafnhau beichiau gweinyddol.<br>Canlyniad ein dull gweithredu arfaethedig yw y bydd nifer o ddefnyddwyr yn gallu cael gafael ar ystod o offer radio heb ddim gofyniad am drwyddedu. Bydd hyn yn arwain at gostau is i Ofcom, i ddefnyddwyr ac i'r diwydiant a bydd yn hybu arloesedd. A thybio dan drefn trwyddedu ei bod yn costio £50 i drwyddedai o ran amser a ffioedd i wneud cais am drwydded, gallai'r baich gweinyddol fod yn fwy na phris prynu'r offer ac wedyn gweithredu | **Paul Chapman** | **Parhaus** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | gyfer offer newydd ee manylder uwch di-wifr, UWB a Radar Pellter Agos. Bydd hyn yn esgor ar fanteision i ddefnyddwyr sbectrwm. | Mae hyn yn rhan o weithredu Fframwaith Sbectrwm Ofcom. | | fel rhwystr at ddefnyddio. Mae caniatáu defnyddio offer o'r fath heb drwydded pan fo'n bosibl felly'n gallu osgoi gosod rhwystr at ddefnyddio. | | |
| **Masnachu a rhyddfrydoli sbectrwm symudol** – ymestyn masnachu a rhyddfrydoli i sbectrwm symudol | Defnyddio polisïau masnachu a rhyddfrydoli sbectrwm i sbectrwm wedi'i drwyddedu sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio neu y gellid ei ddefnyddio ar gyfer darparu gwasanaethau symudol. Bydd hyn yn esgor ar fanteision i ddefnyddwyr sbectrwm. | Diwallu gofynion cyfraith yr UE i ryddfrydoli bandiau 2G. Sicrhau bod y sbectrwm radio'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon, er mwyn hybu cystadleuaeth ac arloesedd, a thrwy hynny dod â manteision i ddefnyddwyr. | Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ryddfrydoli bandiau 2G a 2.1GHz ym mis Medi 2007 a chyhoeddwyd ymgynghoriad arall ym mis Chwefror 2009.<br><br>Ym mis Hydref 2009, cyhoeddodd BIS ymgynghoriad ar gyfeiriad i Ofcom a fyddai'n cynnwys rhyddfrydoli bandiau symudol 2G. | Dylai rhyddfrydoli'r sbectrwm 2G arwain at fantais sylweddol i ddefnyddwyr a dinasyddion, yn fwyaf tebygol ar ffurf darpariaeth well a/neu wasanaethau band eang symudol cyflymach. Bydd defnyddio masnachu gyda'r sbectrwm hwn yn gwneud y broses ar gyfer newid perchnogaeth y sbectrwm yn symlach ac yn canolbwyntio mwy ar y farchnad yn y dyfodol. | **Justin Moore** | **Parhaus** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| **Hwyluso arloesedd sbectrwm** | Hwyluso mynediad i sbectrwm ar gyfer defnydd arloesol nad ydynt yn perthyn i ddosbarthiadau trwydded cyfredol. Hefyd, rhoi proses glir ar gyfer gwerthuso ceisiadau. | Yr angen am fframwaith i roi sylw i geisiadau. | Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar "Drwyddedau arloesi" ym mis Hydref 2008. Roeddem wedi cyhoeddi datganiad interim ddechrau 2009 ac rydym wedi parhau â thrafodaethau â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a CAA i ddod o hyd i ffyrdd o ddelio â'r ceisiadau penodol rydym wedi'u cael. Ar ôl i ni orffen y gwaith hwn, byddwn yn edrych ar ddatblygu fframwaith ehangach ar gyfer delio â cheisiadau o'r fath. | Byddwn yn canfod rhwystrau rheoleiddio (h.y. y diffyg eglurder ynghylch sut y rhoddir sylw i gais am ddefnyddio sbectrwm nad yw'n safonol) oherwydd gallai diffyg sicrwydd arwain at ostyngiad yn y cymhelliannau i arloesi. Gellir dileu hyn drwy greu proses wedi'i diffinio a fydd yn rhoi mwy o eglurder i randdeiliaid.<br>Dylai ein 'Trwyddedau Arloesi' arfaethedig ysgafnhau'r beichiau gweinyddol ar gyfer Ofcom a'r rheini sy'n dal trwyddedau drwy osgoi'r angen i greu trwyddedau pwrpasol ar gyfer rhai categorïau o ddefnyddio sbectrwm. Mae ein ffi unffurf arfaethedig hefyd wedi'i dylunio i roi cyn lleied â phosibl o faich gweinyddol ar y rheini sy'n dal trwyddedau. | **Anirban Roy** | **Parhaus** |
| **Gweithredu'r Archwiliad Annibynnol o Ddaliadau Sbectrwm (Archwiliad Cave)**<br>Hybu defnyddio daliadau sbectrwm sector cyhoeddus | Defnyddio'r sbectrwm radio'n fwy effeithlon. Y prif randdeiliaid yw cyrff y sector cyhoeddus sydd â sbectrwm ee Amddiffyn, Trafnidiaeth, Gwasanaethau | Mae hon yn fenter gan Drysorlys EM a gefnogir gan Raglen Effeithlonrwydd Gweithrediadol y Llywodraeth i wella'r ffordd y caiff asedau | Ofcom yw'r prif gyflenwr allanol i adrannau allweddol megis Amddiffyn a Thrafnidiaeth. Rydym wedi darparu elfennau allweddol y fframwaith rheoleiddio i hwyluso ecsbloetio daliadau sbectrwm y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cyd-fynd â'r argymhellion a | Roedd yr Archwiliad Annibynnol (2005) yn rhoi amcan o'r effaith a'r manteision. Mae asesiadau ychwanegol o'r effaith eisoes wedi cael eu gwneud yng nghyswllt rheoliadau newydd newidiadau i reoliadau. | **Steve Jones** | Parhaus |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| yn fwy effeithlon | Brys a Diogelwch Cyhoeddus a Gwyddoniaeth.<br><br>Bydd dinasyddion a defnyddwyr yn elwa o hwb ar yr ochr gyflenwi a bydd cyrff cyhoeddus yn elwa o ased anniriaethol mae modd ei archwilio ac y gellir ei ecsbloetio drwy'r farchnad. | anniriaethol eu rheoli a'u hecsbloetio. Mae'n cynnwys daliadau sbectrwm sector cyhoeddus a'u hecsbloetio drwy'r Fenter Marchnad Ehangach a defnyddio mecanweithiau'r farchnad sy'n cymell masnachu eilaidd. | wnaed gan yr Archwiliad Annibynnol (2005) y mae'r Llywodraeth wedi'u derbyn ac yn eu gweithredu'n llawn fel yr amlinellir yn Rhagolwg y Llywodraeth a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2009.<br><br>Yn arbennig, rydym wedi:<br><br>• Cyhoeddi'r adolygiad fframwaith sbectrwm ar gyfer y sector cyhoeddus<br>• Sefydlu sylfaen ac, ar ôl ymgynghori, rhoi'r Hawliau Mynediad cyntaf a Gydnabyddir gan y Goron i alluogi masnachu peth sbectrwm yn eilaidd.<br>• Bwriad i roi rhagor o Hawliau Mynediad a Gydnabyddir ac ymgynghori ar hyn o bryd ar Hawliau Mynediad a Gydnabyddir ar gyfer 3400-3600 MHz.<br>• Sefydlu trefniant dwyochrog â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer rheoli defnyddio prisiau sy'n cymell i'w | | | |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | | | ddaliadau<br>• Hwyluso trefniant rhwng adrannau a fydd yn galluogi nodi'r SoS i ddal hawliau ar gyfer sbectrwm a rennir ac i Adrannau bennu sut y caiff ffioedd sbectrwm eu dosrannu. | | | |
| **Symleiddio masnachu sbectrwm** - Diwygio rheoleiddio'r broses masnachu sbectrwm a chyflwyno llesio sbectrwm | Mae masnachu'n caniatáu i sbectrwm symud i'r partïon hynny a all gynhyrchu mwy o fanteision i ddinasyddion a defnyddwyr. Er mwyn gwireddu cynifer â phosibl o fanteision, mae'n bwysig cadw costau trafodion cyn ised â phosibl.<br><br>Bydd y rheini sy'n ymwneud â throsglwyddo sbectrwm – gwerthwyr, | Ymddengys fod y fframwaith ar gyfer masnachu sbectrwm ar hyn o bryd yn ormod o faich, yn enwedig ar gyfer trafodion sbectrwm sydd yn uchel o ran swmp ond (fesul un) sydd â gwerth isel, megis y rheini sy'n ymwneud â gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig.<br><br>Ceir arwyddion y gallai'r oedi a'r | Ar 22 Medi roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori a oedd yn cynnig cyflwyno'r newidiadau canlynol:<br>• dileu'r angen i'r partïon gael caniatâd i drosglwyddo dyletswyddau a hawliau trwydded;<br>• caniatáu masnachu wedi'i gyfyngu gan amser heb yr angen am drosglwyddo cau ar wahân gan y partïon;<br>• cyflwyno amrywiolyn o drosglwyddo sbectrwm a allai rhagflaenu heb yr angen i ni roi dogfen trwydded newydd i'r sawl sy'n trosglwyddo; a<br>• chyflwyno proses lesio | Rydym o'r farn y gallai ein mesurau arfaethedig:<br>• Leihau costau trafodion ar gyfer gwerthwyr, prynwyr a chyfryngwyr. Dylai hyn alluogi masnachu buddiol a allai fod wedi cael ei rwystro gan y gofynion gweithdrefnol presennol.<br>• Costau gweithredol a gweinyddol is i Ofcom. Gellir osgoi rhai costau gweithdrefnol a geir ar hyn o bryd. Hyd yn oed os nad yw'r costau hyn eu hunain yn atal masnachu, mae eu dileu'n golygu arbedion ac yn lleihau ein cost prosesu gyfartalog. | **Laurence Green** | **Parhaus** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | prynwyr a chyfryngwyr – yn elwa o gostau trafodion is ac o fynediad cynt a rhatach at sbectrwm ar gyfer gwasanaethau newydd. Bydd defnyddwyr yn elwa oherwydd bydd gwasanaethau newydd ar gael yn gynharach. Bydd dinasyddion yn elwa oherwydd bydd cyrff sector cyhoeddus hefyd yn gallu cael gafael ar sbectrwm yn gynt. | costau effeithio ar ddatblygiad a gweithrediad rheolwyr bandiau a'r farchnad sbectrwm drwyddi draw. | sbectrwm sy'n gynt ac yn fwy effeithlon ar ôl diwygio'r Gyfarwyddeb Fframwaith.<br><br>Os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn ymgynghori ymhellach ar reoliadau i weithredu'r newidiadau arfaethedig, er mwyn cael y rhain ar waith erbyn haf / hydref 2010. | | | |
| **Awtomatiaeth Cronfa Ddata Deallusrwydd am y Farchnad** | Cefnogi egwyddor rheoleiddio Ofcom o ymchwilio i farchnadoedd yn | Mae gwybodaeth effeithiol yn hanfodol ac yn galluogi Ofcom i sicrhau bod y rheini sy'n dal | Bydd ail gam uwchraddio'r gronfa ddata yn dod i ben ym mis Ionawr 2010.<br><br>Mae hyn yn cynnwys rhagor o waith ar wella | Mae cronfa ddata symlach wedi'i gwneud yn haws i randdeiliaid gyflwyno data ac mae wedi ysgafnhau'r baich gweinyddol sy'n ymwneud â'i gasglu. Ar ben hynny mae wedi helpu i gynyddu cyfran | **Justin Le Patourel** | **Parhaus** |

| Rhan C. Tabl o Gynlluniau Symleiddio (Seilwaith a Sbectrwm) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mater a'r gwaith symleiddio arfaethedig** | **Amcan a'r rhanddeiliaid a fydd yn elwa** | **Rhesymau dros archwilio'r mater** | **Y diweddaraf am y cynnydd a cherrig milltir allweddol** | **Yr effaith a ragwelir ar feichiau a/neu fanteision i'w gwireddu** | **Cyswllt** | **Statws ar hyn o bryd** |
| | gyson. Mae o fantais i weithredwyr a'r rheini sy'n dal trwyddedau drwy broses casglu data symlach. | trwyddedau a gweithredwyr yn cydymffurfio â'r amodau a'r rheoliadau perthnasol. Maent hefyd yn bwysig er mwyn helpu Ofcom i ddeall y sector. | defnyddioldeb a sicrhau mai dim ond data perthnasol sy'n cael ei gasglu. | yr wybodaeth amserol a gyflwynir gan y rheini sy'n dal trwyddedau a gweithredwyr. | | |

## Atodiad 4

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

### Sut i ymateb

A4.1 Mae Ofcom yn gofyn am roi barn a sylwadau ysgrifenedig am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 17 Chwefror 2006.

A4.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we yn http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/draftap1011, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein helpu drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), i ddangos a oes unrhyw faterion i'w hystyried ai peidio o ran cyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A4.3 Yn achos ymatebion mwy i'r ymgynghoriad - yn enwedig y rheini sydd â siartiau, tablau neu ddata eraill i'w hategu - dylech eu hanfon drwy'r e-bost i jakub.dubaniewicz@ofcom.org.uk gan atodi'ch ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen gyflwyno ymateb yr ymgynghoriad.

A4.4 Fel arall, ceir postio neu ffacsio ymatebion i'r cyfeiriad isod, ac enw'r ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.

Jakub Dubaniewicz
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffacs: 020 7981 3745

A4.5 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ogystal â fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion os cyflwynir hwynt drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A4.6 Byddai o gymorth pe gallech roi atebion uniongyrchol yn eich ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon, sydd wedi'u rhestru gyda'i gilydd ar ddiwedd Adran 5. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro'r rhesymau dros eich barn a sut y byddai cynigion Ofcom yn effeithio arnoch chi.

### Rhagor o wybodaeth

A4.7 Os ydych yn dymuno trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch y dull priodol o ymateb, cysylltwch â Jakub Dubaniewicz ar 020 7981 3745

### Cyfrinachedd

A4.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld y farn a fynegwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriadau. Felly, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, sef **www.ofcom.org.uk**, cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid cadw'ch ymateb yn gyfrinachol, byddwch cystal â nodi pa ran o'ch ymateb y dylid ei chadw'n gyfrinachol, neu a ddylid cadw'r cwbl ohono'n

gyfrinachol, a nodi pam. Byddwch cystal â rhoi rhannau o'r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A4.9 Os bydd rhywun yn gofyn inni gadw rhan neu'r cwbl o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen inni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.10 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'i rhoi dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/disclaimer/

## Y camau nesaf

A4.11 Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar ddiwedd Mawrth/dechrau Ebrill 2010.

A4.12 Sylwch y gallwch gofrestru i gael Diweddariadau am ddim drwy'r post yn tynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. I gael mwy o fanylion, edrychwch ar: http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.13 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i ymateb i ymgynghoriadau. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A4.14 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk . Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth geisio barn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu â Vicki Nash, Cyfarwyddwr yr Alban, sef hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Vicki Nash
Ofcom
Sutherland House
149 St. Vincent Street
Glasgow G2 5NW

Ffôn: 0141 229 7401
Ffacs: 0141 229 7433

E-bost vicki.nash@ofcom.org.uk

## Atodiad 5

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A5.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A5.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A5.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A5.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd ag sy'n bosibl i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu arweiniad byr mewn iaith syml i gyrff llai neu i unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A5.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at 10 wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A5.6 Bydd rhywun o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a chyrff sydd â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. 'Hyrwyddwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu â hi i roi barn am y modd yr ydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A5.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A5.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd dan sylw'n cael gweld barn pobl eraill yn ystod yr ymgynghoriad. Fel arfer, byddem yn cyhoeddi'r holl ymatebion a gawsom ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn disgrifio sut yr oedd barn y rhai a fu'n gysylltiedig wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hynny.

## Atodiad 6

# Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A6.1 Er mwyn gweithredu'n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddiol da, byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion i ymgynghoriadau'n llawn ar ein gwefan, sef www.ofcom.org.uk.

A6.2 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un ohonynt gyda'ch ymateb (mae hon wedi'i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny'n briodol.

A6.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i'r unigolion a'r cyrff hynny sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen gyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A6.4 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar y we sy'n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy'r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lwytho copi electronig o'r ddalen hon i lawr mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/.

A6.5 Byddwch cystal â rhoi unrhyw rannau o'ch ymateb y credwch y dylid eu cadw'n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i'ch ymateb a nodwch eich rhesymau dros beidio â chyhoeddi'r rhan hon o'ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a'ch profiad personol. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â'u rhoi ar eich dalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu gorff/cyrff):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd ☐ Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Yr ymateb cyfan ☐ Corff ☐

Rhan o'r ymateb ☐ Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch corff gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb er hynny (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu gwybodaeth benodol neu'n rhoi modd i'ch adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych pe baem ond yn cyhoeddi'ch ymateb ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw Llofnod (os darperir copi papur)